Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

Mehefin 2022



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.


Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

Mehefin 2022

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22




## Cynnwys

**Trosolwg** .......... **7**

Rhagair .......... 8

Cyflwyniad .......... 10

Datganiad o Ddiben .......... 12

Comisiynwyr y Chweched Senedd .......... 14

Comisiynwyr y Bumed Senedd .......... 16

Cynghorwyr Annibynnol .......... 18

Uwch-arweinyddiaeth y Comisiwn .......... 22

Strwythur Llywodraethu .......... 24

Trefniadau Rheoli'r Comisiwn .......... 25

Crynodeb o'r Gweithgareddau .......... 26

**Dadansoddi Perfformiad** .......... **33**

Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol .......... 35

Proffil Risg .......... 45

Adolygiad Ariannol .......... 48

Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf .......... 55

Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn .......... 75

Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy .......... 87

Cynaliadwyedd .......... 97

**Atebolrwydd** .......... **109**

Llywodraethu Corfforaethol .......... 110

Staff a thaliadau .......... 137

Atebolrwydd ac archwilio .......... 156

**Datganiadau ariannol** .......... **169**

Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon .......... 174

Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra .......... 202

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

# Trosolwg

Mae’r adran Trosolwg hon yn darparu gwybodaeth am ddiben, strwythur a nodau strategol y Comisiwn a rhai gweithgareddau allweddol sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Agoriad swyddogol y Senedd**

Torfeydd yn ymgynnull y tu allan i’r Senedd yn barod ar gyfer yr Agoriad Swyddogol, 14 Hydref 2021



# Rhagair



**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer fy chweched flwyddyn fel Llywydd, sef adroddiad cyntaf y Chweched Senedd.

Ychydig dros flwyddyn sydd ers i Etholiad y Senedd gael ei gynnal ac ers i ni groesawu 20 Aelod newydd o'r Senedd. Ers hynny, rydym wedi parhau i arloesi a gweithio'n hyblyg i gefnogi Aelodau wrth iddynt gynrychioli buddiannau eu hetholwyr a dwyn y Llywodraeth i gyfrif. Mae'r gweithgareddau allgymorth ac ymgysylltu, sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn annog cyfranogiad, hefyd wedi ailddechrau ym mhob rhan o Gymru.

Byddwn yn parhau i archwilio'r gwersi a ddysgwyd o'r blynyddoedd blaenorol o weithredu o fewn cyfyngiadau Covid-19 fel ein bod yn manteisio ar yr hyn a weithiodd yn dda, er budd democratiaeth Cymru.

Yr hydref diwethaf hefyd, etholwyd yr ail Senedd Ieuenctid. Nid oes amheuaeth y bydd y garfan newydd yn adeiladu ar waith rhagorol eu rhagflaenwyr wrth roi llais i hawliau pobl ifanc Cymru.





Mae llawer o heriau o'n blaenau, boed hynny o ran adferiad o'r pandemig, newid yn yr hinsawdd neu hyrwyddo cydraddoldeb. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau Seneddol effeithiol er budd pobl Cymru.

Efallai y bydd y blynyddoedd i ddod hefyd yn arwain at newidiadau mwy sylfaenol i'r Senedd ei hun. Mae angen senedd arnom sy'n cynrychioli pobl Cymru yn agosach ac a fydd yn gweithredu'r diwygiadau angenrheidiol.

Fel erioed, hoffwn ddiolch i staff y Comisiwn am barhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni busnes y Senedd mor effeithiol ac am eu brwdfrydedd a'u hegni wrth ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf mewn amgylchiadau mor heriol.

# Cyflwyniad



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

Wrth fwrw golwg yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, yr hyn sy'n fy nharo yw cymaint rwy wedi gwerthfawrogi clywed bwrlwm adeilad seneddol prysur unwaith eto, wrth i ragor o'r Aelodau, yn ogystal ag ymweliadau a digwyddiadau cyhoeddus, ddychwelyd i'r Senedd.

Drwy gydol y pandemig, daeth staff y Comisiwn o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o wneud yn siŵr bod busnes y Senedd wedi parhau i fynd rhagddo gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosibl.

Â rheoliadau Covid yn dal i fod ar waith yn ystod Etholiad y Senedd fis Mai diwethaf, bu cydweithwyr wrthi'n ddiflino'n gosod cynlluniau dichonadwy yn eu lle at ddibenion rhoi'r Chweched Senedd ar ben ffordd.

Cafodd yr Aelodau newydd a'r Aelodau oedd yn dychwelyd fel ei gilydd groeso wrth iddyn nhw gael rhwydd hynt i dyngu llw neu gadarnhau teyrngarwch yn ôl eu dymuniad; naill ai yn y Senedd neu drwy ddull rhithwir ar leoliad ledled Cymru.  Mewn Cyfarfod Llawn hybrid, etholwyd y Llywydd, y Dirprwy Lywydd a'r Prif Weinidog, a dyna roi cychwyn ar waith y Chweched Senedd; cynrychioli pobl Cymru.





Wrth baratoi ar gyfer y Chweched Senedd, bu cydweithwyr yn y Gyfarwyddiaeth Fusnes yn ystyried ffyrdd o wneud yn siŵr y byddai ein pwyllgorau'n adlewyrchu lleisiau Cymru yn eu holl amrywiaeth, mor effeithiol â phosibl. Gan weithio gyda'r academydd blaenllaw, Diana Stirbu, mae'r gwaith hwnnw'n parhau, gan adeiladu ar yr enghreifftiau niferus o arfer da sydd eisoes yn bodoli.

Wrth wneud yn siŵr ein bod ni'n parhau i gynnig cymorth seneddol o'r radd flaenaf yn y Senedd sydd ohoni, ry'm ni hefyd wedi bod yn cynllunio ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol, allai newid ein sefydliad. Mae nifer o faterion wedi bod o dan chwyddwydr y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd; yn eu plith y modd y caiff Aelodau eu hethol yn ogystal â maint ac amrywiaeth y Senedd. At hynny, ry'm ni wedi bod wrthi'n cefnogi'r Senedd a'i Haelodau i gryfhau cysylltiadau rhyngseneddol newydd ar ôl gadael yr UE, a datblygu'r cyfryw gysylltiadau.

Cymaint yw hyd a lled y cyfleoedd, mae cydweithwyr yn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau wedi bod yn ystyried ein capasiti i gyflawni'r fath newidiadau eang. Penllanw'r gwaith hwn – ynghyd â'r gwersi ry'm ni wedi'u dysgu yn ystod y pandemig – fydd datblygiadau cyffrous o ran y modd y bydd y Comisiwn a'i staff yn gweithio yn y dyfodol. Ein nod – fel erioed – yw gwneud yn siŵr ein bod ni'n diwallu anghenion y sefydliad fel senedd fodern a hyblyg sy'n meddu ar ragoriaeth.

Fis Hydref, daeth Ei Mawrhydi y Frenhines i agor y Chweched Senedd yn swyddogol. Er gwaetha'r ffaith bod ystyriaethau ynghylch iechyd cyhoeddus wedi mynnu bod mwy o gyfyngiadau arnom nag arfer, daeth perfformwyr o bob cwr o Gymru i gymryd rhan yn y digwyddiad llawen, gan ategu cyfoeth ac amrywiaeth talentau'r genedl a dathlu tymor newydd y Senedd ar lwyfan ryngwladol.

Wrth ddechrau'r cyflwyniad hwn, mynegais mor llawen yr oeddwn o brofi bwrlwm y Senedd unwaith eto wrth i ni wahodd y cyhoedd yn ôl trwy ein drysau. Mae'n ddichon bod Covid-19 wedi disgyn o'r copa erbyn hyn, ond mae heriau newydd wedi dod i'r amlwg. Mae'r Chweched Senedd eisoes yn ystyried effaith yr argyfwng mewn costau byw a'r modd y gall Cymru estyn llaw i'r rheini sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin.

Ein rôl ni, fel staff y Comisiwn, fydd cefnogi'r Aelodau wrth iddyn nhw geisio atebion i'r heriau o dan sylw, yn ogystal â'u cefnogi i wasanaethu pobl Cymru.

# Datganiad o Ddiben

## Senedd Cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.  Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Comisiwn y Senedd

Mae Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r Senedd er mwyn helpu i hwyluso ei llwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd a deddfwrfa gref, hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.







# Nodau Strategol Comisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd

- Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf
- Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn
- Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

# Blaenoriaethau i Gomisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd

- Rhoi cymorth i Aelodau ar draws yr ystod o fusnes, ac addasu i anghenion yr Aelodau.
- Ymateb i newid cyfansoddiadol a hwyluso'r newid hwnnw, gan gynnwys cryfhau rhwydweithiau rhyngsefydliadol a dysgu.
- Cynnal enw da a datblygu gwasanaethau cynaliadwy.
- Gwrando ar ddinasyddion a dangos sut rydym yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym; mai ni yw eu llais.
- Annog ac ysbrydoli dinasyddion i gymryd rhan yn ein trafodaethau ar-lein ac yn bersonol.
- Sefydlu'r Senedd fel canolbwynt bywyd cyhoeddus Cymru.
- Rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn.
- Adeiladu a datblygu gweithlu medrus, ymroddedig ac amrywiol, gyda'r dechnoleg a'r cyfleusterau i gyflawni eu rolau.
- Cynllunio a rheoli arian a phrosiectau yn effeithiol, fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y Senedd.
- Rhoi sicrwydd drwy lywodraethu priodol a dangos gwerth am arian.
- Darparu amgylchedd diogel ac iach ar gyfer gweithio ac ymgysylltu.

# Comisiynwyr y Chweched Senedd

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhagnodi bod Senedd Cymru (y Senedd) yn penodi Comisiynwyr sy'n gyfrifol am ddarparu'r staff a'r adnoddau sydd eu hangen ar y Senedd i gyflawni ei rôl yn effeithiol i bobl Cymru.



**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS (Plaid Cymru)**

Y Llywydd yw Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad ac mae'n gyfrifol hefyd, fel Comisiynydd, am gyfathrebu.

Mynychodd y Gwir Anrhydeddus Elin Jones 6 allan o 6 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Janet Finch-Saunders AS (Ceidwadwyr Cymreig)**

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy.

Mynychodd Janet Finch-Saunders 6 allan o 6 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Rhun ap Iorwerth AS (Plaid Cymru)**

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ieithoedd swyddogol.

Mynychodd Rhun ap Iorwerth 6 allan o 6 o gyfarfodydd y Comisiwn





Caiff y Comisiwn ei gadeirio gan y Llywydd ac mae'n cynnwys pedwar Aelod o'r Senedd sydd wedi'u penodi gan y Senedd. Mae gan bob aelod o'r Comisiwn bortffolio penodol o gyfrifoldebau.

Mae'r Comisiynwyr a benodwyd ar ddechrau'r Chweched Senedd yn gyfrifol am yr adroddiad hwn.



**Joyce Watson AS (Llafur Cymru)**

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am gydraddoldeb.

Mynychodd Joyce Watson 6 allan o 6 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Ken Skates AS (Llafur Cymru)**

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb a llywodraethu (gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg).

Mynychodd Ken Skates 6 allan o 6 o gyfarfodydd y Comisiwn.

# Comisiynwyr y Bumed Senedd

Roedd Comisiynwyr y Bumed Senedd hefyd yn goruchwylio’r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.  Yn dilyn Etholiadau’r Senedd ym mis Mai 2021, parhaodd y Comisiynwyr yn eu rolau nes i Gomisiynwyr newydd y Chweched Senedd gael eu hethol.



**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS (Plaid Cymru)**

Y Llywydd yw Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad ac mae’n gyfrifol hefyd, fel Comisiynydd, am gyfathrebu ac ymgysylltu.



**Suzy Davies AS (Ceidwadwyr Cymreig)**

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb a llywodraethu, gan gynnwys bod yn aelod o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Rhun ap Iorwerth AS (Plaid Cymru)**

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol, a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i’r Aelodau.







**David Rowlands AS (Plaid Brexit)**

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelwch ac adnoddau’r Senedd.



**Joyce Watson AS (Llafur Cymru)**

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau, a’r Comisiwn fel cyflogwr staff y Senedd.

# Cynghorwyr Annibynnol

Mae'r Comisiwn yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr a thîm gweithredol y Comisiwn yn cael her adeiladol a sicrwydd bod trefniadau llywodraethu yn gywir, yn effeithiol ac yn briodol.



**Ann Beynon (Tachwedd 2018 - Heddiw)**

Dechreuodd Ann ar ei phenodiad fel Cynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a Phwyllgor Cynghori Comisiwn y Cynulliad ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu (REWAC).

Mynychodd Ann Beynon 4 allan o 4 o gyfarfodydd ARAC a 2 allan o 2 o gyfarfodydd REWAC.



**Robert (Bob) Evans (Tachwedd 2018 - Heddiw)**

Dechreuodd Bob ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ac yn aelod o ARAC ym mis Tachwedd 2018. Ym mis Chwefror 2019, cafodd ei benodi yn Gadeirydd REWAC.

Mynychodd Bob Evans 4 o 4 o gyfarfodydd ARAC.







**Ceri Hughes (Tachwedd 2018 - Heddiw)**

Dechreuodd Ceri ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac mae'n aelod o REWAC.

Mynychodd Ceri Hughes 2 allan o 2 o gyfarfodydd REWAC.



**Sarah Pinch (Tachwedd 2018 - Heddiw)**

Dechreuodd Sarah ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac mae wedi'i phenodi'n gadeirydd REWAC.

Mynychodd Sarah Pinch 2 allan o 2 o gyfarfodydd REWAC.



**Dr Aled Eirug (Ebril 2019 - Heddiw)**

Dechreuodd Aled ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Ebrill 2019 ac mae'n aelod o ARAC.

Mynychodd Aled Eirug 4 o 4 o gyfarfodydd ARAC.

Prif rôl y Cynghorwyr Annibynnol yw gweithredu fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu (REWAC) a helpu i sicrhau bod y Comisiynwyr ac uwch-dîm rheoli'r Comisiwn yn cael eu cefnogi a'u herio'n adeiladol yn eu rolau. Maent yn unigolion sydd â chyfoeth o brofiad o ystafell fwrdd, llywodraeth, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ar y lefelau uchaf, i helpu'r Comisiwn i gyrraedd ei safonau uchel ei hun o lywodraethu da a defnydd effeithiol o arian cyhoeddus.

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn ymwneud â nifer o weithgareddau a meysydd gwasanaeth y Comisiwn, gan weithredu fel ffrindiau beirniadol ar brosiectau ac weithiau'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Comisiwn.

## Tâl Cydnabyddiaeth

Mae Cynghorwyr Annibynnol yn derbyn tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn, gyda £7,000 y flwyddyn i'r Cadeiryddion.



# Uwch-arweinyddiaeth y Comisiwn



**Manon Antoniazzi**

**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, dirprwyir swyddogaethau Comisiwn y Senedd, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn unol â nifer o eithriadau ac amodau.

Y Prif Weithredwr hefyd yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.  Er mwyn ei chefnogi, mae gan y Prif Weithredwr dîm o Gyfarwyddwyr sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros reolaeth gorfforaethol strategol yn ychwanegol at y cyfrifoldebau penodol a amlinellir isod



**Siwan Davies**

**Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**

Darparu gwasanaethau cymorth y Comisiwn a'r Aelodau, gan gynnwys cymorth i swyddfa'r Llywydd a'r uwch-dîm rheoli, gwasanaethau ysgrifenyddiaeth i'r Byrddau corfforaethol a'r Comisiwn.
Darparu gwasanaethau seneddol, cyfreithiol, llywodraethu gwybodaeth, cyfansoddiadol ac ymchwil arbenigol i'r Senedd, gan sicrhau bod busnes y Senedd yn cael ei darparu'n effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys pasio deddfwriaeth drwy'r Senedd a darparu cyngor arbenigol diduedd i Aelodau o'r Senedd.





**Arwyn Jones**

**Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Darparu cyfieithu a chofnodi, gan gynnwys y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, a darparu TGCh a'r Swyddfa Rhaglen a Newid.

Mae'n sicrhau bod ein gwasanaethau cyfathrebu corfforaethol, ymgysylltu ag ymwelwyr a gwybodaeth gyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol.



**Ed Williams**

**Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd**

Darparu swyddogaethau Ystadau a Chyfleusterau, Adnoddau Dynol, Diogelwch, Caffael a Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid/Pennaeth Gwasanaethau Ariannol, Nia Morgan, sy'n gyfrifol am y strategaeth ariannol gorfforaethol, cynllunio, rheoli'r gyllideb, taliadau a phensiynau yn adrodd i Ed Williams.

Dechreuodd Ed ei rôl fel Cyfarwyddwr ym mis Chwefror 2022; David Tosh oedd yn gwneud y swydd cyn hynny.



**David Tosh**

**Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd**

Gadawodd David y Comisiwn ym mis Ionawr 2022 ar ôl ymddeol.

# Strwythur Llywodraethu








# Trefniadau Rheoli'r Comisiwn

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol a staffio'r Comisiwn wedi'u cynllunio i fodloni gofynion hysbys. Yn benodol, yn unol â nodau strategol y Comisiwn, mae'n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu cronfa prosiectau'r Comisiwn sy'n canolbwyntio ar gynnal a chadw'r ystâd, darparu gwasanaethau TGCh effeithiol a darparu prosiectau newydd i wella perfformiad ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Elfen sylweddol o gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol yw darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol ar raglen newid y Comisiwn[1]. Y Prif Weithredwr sy'n cadeirio'r Bwrdd Gweithredol ac mae'n cynnwys y Cyfarwyddwyr, y Cyfarwyddwr Cyllid/Pennaeth Gwasanaethau Ariannol, y Pennaeth Adnoddau Dynol a Chynhwysiant, a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol. Dyma'r corff gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. Mae hefyd yn gorff ymgynghorol i'r Comisiwn, wrth osod strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, y gyllideb, a rheoli risgiau corfforaethol.

Mae'r Tîm Arwain yn cynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol a phob un o'r Penaethiaid Gwasanaeth. Prif gyfrifoldeb y Tîm Arwain yw sicrhau bod cynlluniau a blaenoriaethau gweithredol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

[1] Mae Rhaglen Newid y Comisiwn yn cynnwys nifer o brosiectau a mentrau, a reolir gan dimau amrywiol yn y Senedd. Y Swyddfa Rhaglen a Newid sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gyflwyno adroddiad ar gynnydd, eithriadau, risgiau a materion i'r Bwrdd Gweithredol yn rheolaidd.

# Crynodeb o'r Gweithgareddau

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2021-22 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2021-22 | Edrych ymlaen at 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf** | Rhoi cymorth i Aelodau ar draws yr ystod o fusnes, ac addasu i anghenion yr Aelodau ❶ ❷ ❸ ❹ ❺ | Etholiad y Senedd 2021 | Gwerthuso'r gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod pontio i'r Chweched Senedd, gan gynnwys effeithiolrwydd cynefino a hyfforddi, cyngor a chanllawiau'r Aelodau | Yn dilyn yr Etholiad, cyflwynwyd amrywiaeth o sesiynau cynefino ar gyfer Aelodau a'u staff. Ac eithrio'r hyfforddiant ymarferol a ddarperir yn y Siambr, cafodd yr holl sesiynau cynefino craidd eu darparu'n rhithwir. Roedd hyn yn angenrheidiol ar y pryd oherwydd cyfyngiadau Covid, ond fe weithiodd yn dda hefyd, gan roi hyblygrwydd i Aelodau gyda'u hymrwymiadau eraill. | |
| | | Fframwaith Rheoleiddio | | Mae Cadeirydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol a'r Prif Weithredwr a Chlerc wedi bod mewn cyswllt rheolaidd i drafod eu priod rolau a chyflawni'r nod cyffredin o symleiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer Aelodau. | |
| | | Diwygio'r Senedd | | Ym mis Hydref 2021, crëwyd y Pwyllgor Diben arbennig ar Ddiwygio'r Senedd gyda chylch gwaith i ystyried casgliadau'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn y Bumed Senedd, ac erbyn 31 Mai 2022, i wneud argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd. | Diwygio'r Senedd |





| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ymateb i newid cyfansoddiadol a hwyluso'r newid hwnnw, gan gynnwys cryfhau rhwydweithiau rhyngsefydliadol a dysgu ❻ | Newid Cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â'r DU | | | Newid Cyfansoddiadol y DU |
| | Cynnal enw da a datblygu gwasanaethau cynaliadwy | | | Mae adolygiad mewnol o ddull y Comisiwn at gynllunio corfforaethol a lefel gwasanaeth, a gychwynnwyd gan yr Adolygiad Capasiti, wedi arwain at ddatblygu Cynllun Cyflawni Corfforaethol newydd. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder ynghylch sut a phryd y caiff y blaenoriaethau eu cyflawni, a chyfrifoldeb ac atebolrwydd am eu cyflawni. | Cwblhau a chyhoeddi Cynllun Cyflawni Corfforaethol newydd |

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2021-22 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2021-22 | Edrych ymlaen at 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn** | Gwrando ar ddinasyddion a dangos sut rydym yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym; mai ni yw eu llais ❼ | | | Rydym yn parhau i ymgysylltu â dinasyddion drwy gyfweliadau, grwpiau ffocws a gweithdai fel rhan o ymchwiliadau'r pwyllgor, sydd wedi helpu i lywio sesiynau casglu tystiolaeth ac wrth ddatblygu argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. | |
| | Annog ac ysbrydoli dinasyddion i gymryd rhan yn ein trafodaethau ar-lein ac yn bersonol ❽ | | | Rydym wedi addasu ein rhaglenni ymgysylltu trwy ddarparu sesiynau addysgol ar-lein a digwyddiadau rhithwir. Rydym yn parhau i ganolbwyntio adnoddau ar greu cynnwys arloesol er mwyn parhau i ehangu ein cyrhaeddiad i gynulleidfaoedd newydd trwy amrywiaeth o lwyfannau. | |
| | Sefydlu'r Senedd fel canolbwynt bywyd cyhoeddus Cymru ❾ ❿ | | | Lluniwyd ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol, ddwyieithog gennym i annog cyfranogiad yn Etholiadau'r Senedd yn 2021, gyda'r ymgyrch yn arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â gwefan y Senedd, gyda llawer ohonynt yn ymwelwyr am y tro cyntaf.<br>Ym mis Tachwedd 2021, etholwyd 60 o Aelodau newydd Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfer ail dymor o Senedd Ieuenctid Cymru. | |





| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2021-22 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2021-22 | Edrych ymlaen at 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy** | Rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn ⓰ | | | Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd ein Strategaeth Carbon Niwtral i fod yn garbon niwtral erbyn 2030, ac mae gwaith eisoes wedi dechrau ar ei chamau gweithredu. | |
| | Adeiladu a datblygu gweithlu medrus, ymroddedig ac amrywiol, gyda'r dechnoleg a'r cyfleusterau i gyflawni eu rolau ⓬ ⓭ ⓮ | Seiberddiogelwch | Gwaith parhaus yn ymwneud â seiber-wytnwch | Mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn un o risgiau mwyaf arwyddocaol y Comisiwn ac mae'n destun rheolaeth, codi ymwybyddiaeth, gwella a monitro'n gyson. Mae'r camau a gymerwyd yn flaenorol i ddiogelu ein seilwaith wedi parhau i ddiogelu'r sefydliad ac mae amddiffyniad pellach a ddefnyddiwyd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi galluogi'r sefydliad i ddelio â'r bygythiad esblygol. | |
| | Cynllunio a rheoli arian a phrosiectau yn effeithiol, fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y Senedd ⓫ | | Dod â'r adolygiad capasiti i ben a dechrau gweithredu'r argymhellion yng nghyd-destun cyfyngiadau posibl ar y gyllideb/cyllideb dynnach ar gyfer 2022-23. | Dechreuwyd yr Adolygiad Capasiti ar ddechrau'r Chweched Senedd a chafodd y 12 argymhelliad craidd eu grwpio o dan y 3 thema, sef: Darparu gwasanaeth a staffio; Cynllunio, a blaenoriaethu buddsoddiad; a Gwella cynhyrchiant. Mae argymhellion amser-gritigol yr adolygiad eisoes yn cael eu cyflawni, tra bod y gweithgarwch sy'n weddill yn cael ei ymgorffori yn y strategaeth Ffyrdd o Weithio newydd. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhoi sicrwydd drwy lywodraethu priodol a dangos gwerth am arian ⓱ | Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Comisiwn y Senedd) | Sicrhau llywodraethu effeithiol ynghylch newidiadau i ffyrdd o weithio | Mae'r trefniadau llywodraethu a roddwyd ar waith ar ddechrau'r pandemig, wedi parhau i helpu i sicrhau penderfyniadau a chyfathrebu effeithiol ac amserol mewn perthynas â phenderfyniadau gyda staff, Aelodau o'r Senedd a'u staff, y cyfryngau, a'r cyhoedd. | |
| | Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Aelodau o'r Senedd) | | Yn dilyn Etholiadau'r Senedd, darparwyd sesiynau cynefino ar gyfer Aelodau a'u staff a oedd yn cwmpasu eu rôl fel rheolydd data. | |
| Darparu amgylchedd diogel ac iach ar gyfer gweithio ac ymgysylltu ⓯ | Y coronafeirws | Gwerthuso'r gwersi a ddysgwyd ac effeithiau hirdymor y pandemig Covid-19 | Ym mis Mai, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad o'r enw Ffyrdd o weithio yn y dyfodol: Dysgu a chyfleoedd. Mae'r adroddiad yn ymgorffori myfyrdodau manwl ar wersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig ac yn tynnu ar ddata allweddol a gwybodaeth asesu. Mae argymhellion yr adroddiad yn cael eu gweithredu fel rhan o strategaeth Ffyrdd o Weithio newydd. | Cwblhau a gweithredu strategaeth a rhaglen waith Ffyrdd o Weithio |
| | Urddas a Pharch | | Mae adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau Urddas a Pharch y Comisiwn yn cael ei gynnal yn dilyn y gwaith i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd. | |





Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol - Mae rhagor o wybodaeth am ein Dangosyddion ar gael ar dudalen 35.

❶ Busnes seneddol wedi'i gynnal fel y'i trefnwyd
❷ Cyhoeddwyd Cofnod y Trafodion o fewn y terfyn amser
❸ Boddhad Aelodau/Staff Cymorth o ran cymorth seneddol
❹ Boddhad Aelodau/Staff Cymorth o ran gweithio yn eu hiaith o ddewis
❺ Darparu papurau dwyieithog
❻ Ymgysylltiad rhyngwladol
❼ Ymgysylltu â dinasyddion
❽ Dilynwyr sianelau cyfryngau corfforaethol y Senedd
❾ Cyrhaeddiad ymchwiliadau pwyllgor a lansio adroddiadau
❿ Ymgysylltu â llwyfannau dosbarthu'r cyfryngau
⓫ Alldro gweithredol
⓬ Arolwg staff
⓭ Dysgwyr y Gymraeg
⓮ Ceisiadau swyddi gan unigolion o leiafrifoedd ethnig
⓯ Cyfradd salwch staff
⓰ Allyriadau carbon
⓱ Gwariant gyda chyflenwyr o Gymru

Mae rhagor o fanylion am sut mae'r proffil risg wedi newid yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnwys yn yr adran Dadansoddi Perfformiad ar dudalen 45. Mae rhagor o wybodaeth am y broses a'r camau lliniaru ar gyfer y risgiau hyn a'r cynnydd a wnaed ar y meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2021-22 i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 114.

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

# Dadansoddi Perfformiad

Mae'r adran Dadansoddi Perfformiad hon yn darparu manylion am sut rydym wedi datblygu gwaith ar flaenoriaethau'r Comisiwn o dan ein nodau strategol.

**Cyfarfod Llawn cyntaf y Chweched Senedd, 12 Mai 2021**








# Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol

Mae ein Hadroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol yn ystyried perfformiad Comisiwn y Senedd yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022.

Mae rhai o'n dangosyddion yn statig, ac yn adrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mae rhai dangosyddion yn darparu 'ymestyniad' i wella perfformiad mewn nifer o feysydd a nodwyd, a chaiff y dangosyddion hyn eu hadolygu'n flynyddol.

Yn ystod pandemig Covid-19, gwnaeth Comisiwn y Senedd addasu i'r sefyllfa a oedd yn newid ac mae rhai o'n ffyrdd o weithio wedi addasu o ganlyniad i hynny. Dylid cofio hyn wrth ddefnyddio data blynyddoedd blaenorol i gymharu'n uniongyrchol.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, oherwydd cyfyngiadau a sefyllfaoedd newidiol, rydym wedi gweld effaith andwyol ar rai o'n dangosyddion perfformiad allweddol fel gweithgareddau ymgysylltu â seneddau rhyngwladol a nifer y dysgwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae addasu ein ffyrdd o weithio'n barhaus i'r sefyllfa bresennol hefyd wedi dod â rhai buddion, fel ein galluogi i gynyddu ein hymgysylltiad ag ymwelwyr ar-lein a gweld cynnydd yn nifer ein dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.


Er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'n ddigonol y newidiadau i'n harferion gwaith oherwydd effaith Covid-19, ac i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd, yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym wedi adolygu ein cyfres bresennol o ddangosyddion perfformiad allweddol a byddwn yn adrodd ar y rhain yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.


## Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

Oherwydd effeithiau parhaus y pandemig, adolygwyd, cytunwyd neu diwygiwyd yr amserlenni ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau yn amlach gan y Pwyllgor Busnes. Felly, roedd rhai cyfarfodydd a fyddai fel arfer wedi'u trefnu, heb eu trefnu. Cynhaliwyd pob un o'r 63 Cyfarfod Llawn a drefnwyd o fewn gofynion statudol, gyda 2 gyfarfod brys ychwanegol yn cael eu cynnal. Roedd hyn yn cynnwys cynnal 10 o gyfarfodydd fel rhai cwbl rithwir a 55 o'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal fel cyfarfodydd hybrid. O'r 224 o gyfarfodydd pwyllgor a drefnwyd gan y Pwyllgor Busnes, cynhaliwyd 219 fel y cynlluniwyd a chafodd 5 eu canslo. Cynhaliwyd 11 cyfarfod ychwanegol hefyd.

Cyrhaeddwyd yr holl dargedau mewn perthynas â Chofnod y Trafodion 100% drwy gydol y flwyddyn.










## Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf


**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

Yn sgil Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, cynhaliwyd arolwg boddhad Aelodau o'r Senedd a staff cymorth Aelodau ym mis Medi 2020 a rhwng mis Ionawr a Chwefror 2022. Roedd cynnal yr arolwg yn gynnar yn 2022 wedi galluogi Aelodau newydd o'r Senedd a staff cymorth yr Aelodau newydd i gael profiad o weithio yn y Senedd a chyfrannu at yr arolwg. Bu gostyngiad bach yn y sgôr cyfartalog ar gyfer darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf o gymharu â 2019 a 2020, fodd bynnag, mae'r sgôr yn dal i fod yn uwch na'r targed o 8.0. Mae'r sgôr cyfartalog ar gyfer cefnogi Aelodau i weithio yn eu dewis iaith wedi gwella ers cynnal yr arolwg diwethaf.

O fewn pwyllgorau unigol, gall y Cadeirydd a'r Aelodau benderfynu peidio â chynhyrchu pob papur a gaiff ei baratoi'n fewnol yn ddwyieithog. O'r 1,238 o bapurau pwyllgor a baratowyd yn fewnol, cynhyrchwyd 1,056 yn ddwyieithog. O'r 1,056 o'r papurau hynny, oherwydd newidiadau tynn, ni chynhyrchwyd 67 o'r papurau'n ddwyieithog o fewn yr amserlenni pwyllgor y cytunwyd arnynt.








## Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

Mae cyfyngiadau a rheoliadau'r pandemig wedi parhau i effeithio ar weithgareddau ymgysylltu ac felly yn golygu mai ychydig iawn o ymgysylltiadau corfforol mewnol ac allanol a gafwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Mae'r data'n adlewyrchu gweithgarwch a ddarperir gan y Timau, gan gynnwys gweithdai, grwpiau ffocws, cyfweliadau a chyflwyniadau ac yn dangos cynnydd cadarnhaol yn hyder, diddordeb a dealltwriaeth y cyhoedd o'r Senedd yn dilyn y gweithgarwch ymgysylltu. Oherwydd y pandemig, mae'r gweithgareddau wedi'u cyflwyno ar-lein yn bennaf, gyda rhai sesiynau wyneb yn wyneb yn cael eu darparu pan oedd rheoliadau yn caniatáu. Rydym hefyd wedi gweld presenoldeb da yn ein cyflwyniadau ymgysylltu ag ymwelwyr ar-lein (537 o gyfranogwyr) a'r daith rithwir 360 gradd o amgylch y Senedd (1,629 o gyfranogwyr).










## Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn


**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

Mae nifer y dilynwyr ar draws ein prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn y Senedd (prif dudalennau Facebook Senedd Cymru / Senedd Wales, sianeli Twitter, LinkedIn, Instagram ac YouTube) wedi parhau i godi. Mae dadansoddiad yn dangos cynnydd mawr mewn digwyddiadau proffil uchel, fel Etholiadau'r Senedd ym mis Mai a'r Agoriad Swyddogol ym mis Hydref. Mae ein sianeli wedi parhau i weld cynnydd mewn diddordeb mewn datganoli Cymreig o ganlyniad i'r pandemig. Rydym yn datblygu strategaeth cyfryngau cymdeithasol flynyddol i ddatblygu'r defnydd o'n sianeli cymdeithasol ymhellach, gan ddefnyddio mewnwelediad gan gynulleidfaoedd i lywio ein cynlluniau.

Mae cyrhaeddiad cyffredinol ac ymgysylltu â llwyfannau ar y cyfryngau ar waith pwyllgorau wedi gostwng eleni. Mae hyn oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad a sefydlu'r Chweched Senedd. Mae'r cynnydd cyson mewn cyrhaeddiad ar ddechrau 2022 yn cyd-fynd â chynnydd mewn allbynnau o'r pwyllgorau newydd. Disgwyliwn weld cynnydd sylweddol mewn cyrhaeddiad dros y flwyddyn wrth i bwyllgorau barhau i gynyddu eu hallbynnau. Rydym yn datblygu strategaeth newyddion, gan ganolbwyntio ar gyrraedd cynulleidfaoedd newydd y tu allan i Gaerdydd, gan gynnwys ymgysylltu'n well â'r wasg genedlaethol.




## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy


**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**


Mae'r alldro gweithredol diwedd y flwyddyn y tu allan i ystod y targed eleni. Y prif reswm am hyn oedd rhyddhau £100k o'r ddarpariaeth ar gyfer gwyliau blynyddol sydd wedi cronni. Cyfrifir y ddarpariaeth hon ar ddiwedd y flwyddyn ac roedd yn is na'r disgwyl. Oherwydd hyn, cynyddodd lefel yr arian nas defnyddiwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae ein cyfrifon yn ddiamod ac wedi'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cynhaliwyd yr arolwg staff blynyddol ym mis Tachwedd 2021 gan arbenigwr arolwg annibynnol, a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol, gan gynnwys disodli'r Sgôr Ymgysylltu â'r Sgôr Hapusrwydd yn y Gweithle – fframwaith sy'n mesur: ymgysylltiad cyflogeion, hapusrwydd a llesiant, gwobr a chydnabyddiaeth, rhannu gwybodaeth, grymuso, meithrin balchder a boddhad yn y swydd. Sgôr Hapusrwydd yn y Gweithle eleni oedd 75.5%. Er na ellir eu cymharu'n uniongyrchol, mae sgorau Ymgysylltu blynyddoedd blaenorol y Comisiwn, ynghyd â meincnod Sgôr Ymgysylltu Canolrifol y Gwasanaeth Sifil 66% (a adroddwyd ym mis Mai 2021), wedi'u cynnwys yma i ddarparu parhad.

Drwy'r pandemig mae dosbarthiadau Cymraeg wedi parhau i gael eu cynnal, er eu bod yn rhithwir. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau personol dysgwyr unigol, er enghraifft, gweithio oriau gwahanol, bu gostyngiad yn nifer y dysgwyr Cymraeg.










## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

Ein targed yw cynyddu nifer y ceisiadau am swyddi a hysbysebir yn allanol gan unigolion sy'n nodi eu bod o gefndir lleiafrifoedd ethnig flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dros y Bumed Senedd, rydym wedi dyblu nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n nodi eu bod o leiafrif ethnig, o 32 (4.8%) yn 2016 i 64 (7.7%) yn 2021. Ar ddechrau'r Chweched Senedd, nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n nodi eu bod o leiafrif ethnig yw 105 (11.0%) yn 2022.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar y data absenoldeb salwch mewn nifer o ffyrdd; er y gallai'r feirws fod wedi arwain at absenoldebau salwch ychwanegol, mae'n ymddangos bod mesurau fel ffyrlo, cadw pellter cymdeithasol, gwarchod a mwy o weithio gartref wedi helpu i leihau achosion eraill o absenoldeb gan ganiatáu i'r duedd gyffredinol ar i lawr barhau, a'i fod wedi effeithio ar rai o'r mesurau a ddefnyddiwyd ar gyfer cymhariaeth briodol. O ganlyniad, nid yw meincnod CIPD ar gael ar hyn o bryd. Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn adrodd, arhosodd absenoldeb y Comisiwn yn isel, ond cynyddodd erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r Comisiwn yn cynnal arolygon pwls llesiant rheolaidd ac rydym yn ymwybodol o'r effaith y mae'r pandemig yn ei chael ar les corfforol a meddyliol canfyddedig staff. Wrth nodi bod iechyd meddwl yn cyfrif am tua hanner ein habsenoldeb salwch, mae gennym gynlluniau ar y gweill i gynyddu'r cymorth a'r adnoddau ymhellach i'n staff o ran iechyd meddwl, yn enwedig wrth inni gynllunio ar gyfer ffyrdd newydd o weithio.




## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

Ein targed yw lleihau cyfanswm ein hallyriadau carbon sy'n gysylltiedig â theithio ceir busnes i fod yn is na llinell sylfaen 2017-2018 o 67%. Yn ail flwyddyn y pandemig, er bod hawliadau teithio yn dal i fod yn llai na thraean o'r lefelau cyn-Covid, gyda chanllawiau i osgoi trafnidiaeth gyhoeddus yn dal i fod yn gyffredin eleni, mae mwyafrif y teithio hwn wedi bod mewn car preifat.










## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

Mae ein gwariant gyda chyflenwyr Cymreig wedi gweld cynnydd cadarnhaol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Er bod y pandemig wedi effeithio ar rai meysydd o hyd, wrth i weithgarwch ar y safle gynyddu mae hyn wedi arwain at fwy o wariant drwy'r contract arlwyo o gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle nad oedd fawr ddim gwariant. Mae'r gweithgaredd hwn yn debygol o gynyddu ymhellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. O fewn y categorïau TGCh ac Arall rydym wedi gweld manteision i gyflenwyr Cymreig sicrhau contractau drwy weithgarwch tendro a gynhaliwyd yn ystod chwarteri 1, 2 a 3, lle mae gwariant Cymreig wedi cynyddu yn y meysydd hyn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.







# Proffil Risg

Mae'r risgiau mwyaf arwyddocaol y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu yn cael eu nodi mewn Cofrestr o Risgiau Corfforaethol (y Gofrestr), sy'n cael ei hadolygu a'i monitro'n rheolaidd gan Fwrdd Gweithredol y Comisiwn, ac mae'n eitem agenda sefydlog yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae manylion am y prosesau ar gyfer nodi, monitro ac adrodd ar risgiau ar bob lefel[2] wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 114.

Er gwaethaf ffocws craff ar gamau lliniaru, mae'r risgiau a ganlyn wedi aros ar y Gofrestr drwy gydol y flwyddyn oherwydd eu difrifoldeb parhaus (yn enwedig oherwydd eu heffaith bosibl) ac yn bennaf oherwydd dylanwadau allanol nad oes gennym fawr o reolaeth drostynt, os o gwbl.

- Y coronafeirws

  Roedd y risg a oedd ar y Gofrestr ar ddechrau 2021 yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith barhaus cyfyngiadau Covid-19 ar y gweithlu a busnes y Senedd. Cafodd y Gofrestr ei had-drefnu yn ystod rhan olaf 2021 i ganolbwyntio ar y mesurau i leihau'r risg o gyflwyno haint ar ystâd y Senedd a'r effaith y byddai achosion cynyddol yn ei chael ar barhad busnes.

  Roedd risg ar wahân yn ymwneud â Covid hefyd yn parhau ar y Gofrestr, gan adlewyrchu'r posibilrwydd parhaus o dorri'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol mewn cyfarfodydd mewnol rhithwir neu hybrid. Dylid nodi bod holl fusnes ffurfiol y Senedd wedi cydymffurfio â'r Cynllun ers dyddiau cynnar y pandemig, a gwnaed pob ymdrech i wella gwasanaethau dwyieithog mewn cyfarfodydd mewnol.

- Seiberddiogelwch

  Mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn un o risgiau mwyaf arwyddocaol y Comisiwn ac mae'n destun rheolaeth, codi ymwybyddiaeth, gwella a monitro'n gyson, gyda diweddariadau manwl rheolaidd ar liniaru yn cael eu darparu i'r Bwrdd Gweithredol. Mae hefyd yn faes sy'n destun gwaith

[2] Risgiau corfforaethol – nodi digwyddiadau allweddol a allai atal neu rwystro'r broses o gyflawni nodau a blaenoriaethau Comisiwn y Senedd, neu unrhyw amcanion alllweddol sydd ag effaith drawsbynciol ar draws y sefydliad. Risgiau lefel gwasanaeth – nodi digwyddiadau allweddol a allai atal neu rwystro'r broses o gyflawni amcanion lefel gwasanaeth

archwilio a chraffu annibynnol rheolaidd, gan gynnwys Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn. Ceir rhagor o fanylion am hyn, gan gynnwys effaith y pandemig yn adrannau Cynnydd a pherfformiad a Nodi a rheoli risg o'r Datganiad Llywodraethu ar dudalennau 114.

- Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Comisiwn y Senedd)

Roeddem yn parhau i ganolbwyntio ar liniaru risgiau diogelu data yn ystod y cyfnod hwn am nifer o resymau gan gynnwys: yr adnoddau ychwanegol oedd eu hangen i barhau i gefnogi newidiadau i'r gwahanol ffyrdd yr oeddem yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth oherwydd y pandemig; ac ailflaenoriaethu adnoddau i roi arweiniad a chymorth i Aelodau newydd o'r Senedd yn dilyn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021. Ychwanegwyd risg ar wahân yn ymwneud â diogelu data ar gyfer Aelodau o'r Senedd at y Gofrestr yn dilyn yr Etholiad.

- Urddas a Pharch

Roedd y risg hon yn parhau i fod ar y Gofrestr gan fod adolygiad pellach o bolisïau a gweithdrefnau Urddas a Pharch y Comisiwn yn cael ei gynnal yn dilyn y gwaith i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys ymgynghori'n eang â staff y Comisiwn, Aelodau a'u staff, a'r Undebau Llafur sydd bellach yn bwydo i mewn i'r adolygiad pellach hwn.

- Newid Cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â'r DU

Roedd y risg a oedd ar y Gofrestr ar ddechrau 2021 yn ymwneud yn bennaf â chyfnod pontio'r UE. Cafodd y risg ei hailasesu ym mis Gorffennaf 2021, ac mae bellach yn adlewyrchu effaith tirlun cyfansoddiadol ehangach ac esblygol Cymru a'r DU, gan gynnwys goblygiadau Deddf Marchnad Fewnol y DU ar y Senedd.

Ychwanegwyd y risgiau a ganlyn at y Gofrestr Risg Corfforaethol yn ystod y cyfnod hwn:

- Diwygio'r Senedd

Ychwanegwyd y risg hon at y Gofrestr mewn ymateb i ofynion sy'n deillio o raglen ddiwygio arfaethedig y Senedd. Ceir rhagor o fanylion am hyn o dan y Pwyllgor Dibenion Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn yr adran ar Ddadansoddi Perfformiad ar dudalen 62.





- Fframwaith Rheoleiddio

Ychwanegwyd y risg hon at y Gofrestr i amlinellu mesurau lliniaru yn ymwneud â'r heriau o gyfathrebu'n effeithiol, a sicrhau dealltwriaeth o newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio fel y maent yn berthnasol i Aelodau o'r Senedd. Mae hyn yn cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd, y Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd, y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig. Roedd y camau lliniaru yn cynnwys dull cydgysylltiedig o wneud fframwaith cymhleth yn ddealladwy. Ymgorfforwyd y risg ar wahân ynghylch safonau ymddygiad Aelodau yn y risg newydd hon.

- Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Aelodau o'r Senedd)

Cafodd risg ar wahân ynghylch diogelu data ar gyfer Aelodau o'r Senedd ei huwchgyfeirio i'r Gofrestr yn ystod y cyfnod hwn i adlewyrchu'r angen i godi ymwybyddiaeth ar gyfer y garfan newydd o Aelodau yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, gan eu bod yn rheolwyr data yn eu rhinwedd eu hunain. Roedd hyn wedi'i gynnwys yn eu rhaglen gynefino, lle roedd llawer o Aelodau yn bresennol, a blaenoriaethwyd adnoddau i ddarparu arweiniad a hyfforddiant pellach.

Tynnwyd y risgiau a ganlyn oddi ar y Gofrestr yn ystod y flwyddyn:

- Etholiad y Senedd 2021

Roedd y risg hon yn ymwneud yn benodol â'r posibilrwydd o orfod symud dyddiad etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 oherwydd y pandemig. Roedd Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 16 Mawrth 2021, ynghyd â gwaith cynllunio senarios manwl, yn lliniaru'r risg. Cafodd ei dynnu oddi ar y Gofrestr yn dilyn y cyfnod pontio llwyddiannus i'r Chweched Senedd gyda risgiau gweddilliol yn cael eu rheoli ar lefel gwasanaeth.

Cafodd risgiau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â phandemig Covid-19 a newid cyfansoddiadol, eu had-drefnu yn ystod y cyfnod hwn fel y soniwyd eisoes

# Adolygiad Ariannol

O dan delerau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod y Senedd yn cael y staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sy'n ofynnol i gyflawni rôl y Senedd fel deddfwrfa ddemocrataidd gref, hygyrch a blaengar sy'n darparu'n effeithiol i bobl Cymru.

Nod cyllideb y Comisiwn yw bod yn dryloyw, yn ddarbodus ac wedi'i gosod yng nghyd-destun y sefyllfa gyllido ariannol hirdymor yng Nghymru. Mae'r Comisiwn wedi parhau i fireinio'r ffordd y mae'n cyflwyno ei gyllideb yn seiliedig ar y gwaith craffu a'r adborth a gafodd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid. Mae'r Comisiwn yn dilyn y canllawiau a ddarperir yn 'Natganiad Egwyddorion' y Pwyllgor Cyllid.

Mae'r Comisiwn yn cyflwyno ei gyllideb mewn fformat tryloyw i ddangos y gwahanol fathau o wariant. Defnyddir cyllideb y Comisiwn i dalu costau rhedeg y Senedd yn ogystal â chostau cyflogau a lwfansau Aelodau o'r Senedd, fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Bob pum mlynedd, mae pennawd gwariant ychwanegol yn cael ei gynnwys ar gyfer etholiadau'r Senedd.

| Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2017-18 £m | 2018-19 £m | 2019-20 £m | 2020-21 £m | 2021-22 £m |
| Cyllideb weithredol (Nodyn 1) | 37 | 38 | 40 | 42 | 41 |
| Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol | 16 | 16 | 16 | 16 | 16 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol (Nodyn 2) | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| | 54 | 55 | 58 | 61 | 61 |

Nodyn 1 - Gellir dadansoddi'r gyllideb weithredol yn ôl ei helfennau allweddol (fel y darperir)





Nodyn 2 - Mae'r term 'Gwariant a Reolir yn Flynyddol' yn ymwneud â'r ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd o dan reolau Trysorlys EM ac mae'n bennawd gwariant nad yw'n arian parod.

| Dadansoddiad o'r Gyllideb Weithredol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o'r gyllideb weithredol:** | 2017-18 £m | 2018-19 £m | 2019-20 £m | 2020-21 £m | 2020-21 £m |
| Costau sy'n gysylltiedig â staff (Nodyn 3) | 21 | 23 | 25 | 26 | 26 |
| Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff | 13 | 12 | 12 | 13 | 13 |
| Cronfa prosiectau (Nodyn 4) | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Dibrisiant (nad yw'n arian parod) | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| | 37 | 38 | 40 | 42 | 41 |

Nodyn 3 - Mae'r newid rhwng 2018-19 a 2019-20 mewn costau sy'n gysylltiedig â staff yn bennaf oherwydd cynnydd yn y gyfradd cyfraniadau pensiwn cyflogwr a osodwyd gan Drysorlys EM.

Nodyn 4 - Ers 2019-20 mae'r gyllideb wedi cynnwys Cronfa Prosiectau ddynodedig.

| Cyfanswm Gwariant y Comisiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2017-18 £m** | **2018-19 £m** | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** | **2021-22 £m** |
| Gwariant gweithredol | 38 | 38 | 40 | 42 | 41 |
| Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol | 14 | 15 | 15 | 16 | 15 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 2 | 1 | 2 | 2 | 2 |
| Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| | 54 | 54 | 56 | 60 | 60 |
| Cyfanswm y gwariant yn erbyn cyfanswm y gyllideb – o dan/(drosodd) (Nodyn 5) | - | 1.0 | 2.0 | 1.0 | 1.0 |

Nodyn 5 - Mae'r Comisiwn yn rheoli ei gyllideb ariannol yn agos. Mae'r tanwariant uwch yn 2019-20 yn rhannol oherwydd y pandemig Covid-19 a oedd yn golygu nad aeth nifer o brosiectau a gynlluniwyd ar gyfer pedwerydd chwarter y flwyddyn honno yn eu blaenau.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

| Dadansoddiad o'r Gwariant Gweithredol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o wariant gweithredol:** | **2017-18 £m** | **2018-19 £m** | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** | **2021-22 £m** |
| Costau sy'n gysylltiedig â staff | 22 | 24 | 24 | 25 | 25 |
| Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff | 13 | 13 | 13 | 14 | 14 |
| Cronfa prosiectau | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Dibrisiant (nad yw'n arian parod) | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| | 38 | 39 | 40 | 42 | 41 |
| Gwariant gweithredol yn erbyn y gyllideb weithredol - o dan/(drosodd) | (1.0) | (1.0) | - | - | 1.0 |

Cyn 2019-20, nid oedd gan y Comisiwn Gronfa Prosiectau bwrpasol. Yn lle hynny, defnyddiwyd tanwariant o dan benawdau eraill yn y gyllideb i ychwanegu at y gyllideb weithredol.

Nod y Comisiwn yw sicrhau alldro gweithredol diwedd blwyddyn o fewn yr ystod 0 y cant i 1.5 y cant o'r gyllideb weithredol.

| Alldro 2021-22 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb £m | Alldro £m | Amrywiant £m | Amrywiant % |
| Costau sy'n gysylltiedig â staff | 26 | 25 | 1 | 1.0% |
| Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff | 13 | 14 | (1) | -1.1% |
| Cronfa prosiectau | 0 | 0 | 0 | - |
| Costau etholiad | 2 | 2 | 0 | - |
| Dibrisiant (nad yw'n arian parod) | 2 | 2 | 0 | - |
| Cyfanswm y gweithgaredd gweithredol | 43 | 43 | 0 | - |
| Penderfyniad y Bwrdd Taliadau | 16 | 15 | 1 | - |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 2 | 2 | 0 | - |
| | 61 | 60 | 1 | 1.0% |

Yr alldro gweithredol ar gyfer 2021-22 yw 1.7%. Cymerodd y Comisiwn safiad darbodus gan ragweld cynnydd pellach yng nghost gwyliau blynyddol y mae staff wedi'u cronni ond heb eu cymryd yn dilyn y cynnydd sylweddol yn y gost hon yn 2020-21 a'r problemau parhaus yn sgil y pandemig a effeithiodd ar fywydau beunyddiol pobl drwy 2021-22. Cyfrifir y ddarpariaeth ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae'r ffaith ei bod is na'r disgwyl yn golygu bod cynnydd yn lefel yr arian nas defnyddiwyd erbyn diwedd y flwyddyn.



## CEFNOGI'R CYFARFOD LLAWN

**10 Dadl Aelodau unigol**

**65 Cyfarfod Llawn**

## CWESTIYNAU A OFYNNWYD YN Y CYFARFOD LLAWN

**23 Cwestiwn Amserol**

**715 Cwestiwn Llafar**

**2,450 Cwestiwn Ysgrifenedig**

**1 Cwestiwn Brys**





# Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Yn yr adran hon o'r Adroddiad Blynyddol rydym yn disgrifio sut rydym wedi cyflawni busnes y Senedd.



## CEFNOGI DEDDFWRIAETH

**2 cyflwyno Biliau newydd**

## CEFNOGI'R PWYLLGORAU

**230 cyfarfodydd pwyllgor**

**93 adroddiad pwyllgor**





## Tyngu llw neu roi cadarnhad a gweithgareddau cynnar yn dilyn etholiad cyffredinol Cymru

Mae tyngu Llw neu roi Cadarnhad yn caniatáu i Aelodau ddechrau cyflawni eu dyletswyddau ar ôl Etholiad y Senedd.  Mae llawer iawn o waith paratoi er mwyn sicrhau y gall Aelodau fwrw ymlaen â'u gwaith cyn gynted â phosibl ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi.

Roedd Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 wedi creu ansicrwydd ynghylch dyddiad Etholiadau'r Senedd ac wedi lleihau'r cyfnod diddymu i wythnos.  Arweiniodd y Ddeddf at y Canllawiau Diddymu, a gafodd eu drafftio a'u cyhoeddi gyntaf ym mis Tachwedd 2020, i'w diweddaru a'u hailgyhoeddi ar ddau achlysur gwahanol, gyda'r fersiwn ddiweddaraf yn cael ei chyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2021, lai na phythefnos cyn dechrau'r cyfnod cyn yr etholiad.

Parhaodd yr ansicrwydd tan wythnos cyn Etholiadau'r Senedd.  Roedd cymhlethdod ychwanegol hefyd o beidio â gwybod pa gyfyngiadau Covid a fyddai ar waith yn ystod yr Etholiadau felly roedd sawl cynllun wedi'i baratoi ymlaen llaw i gwmpasu cyngor a threfniadau ar gyfer ystod o gynlluniau wrth gefn.

Unwaith y cadarnhawyd canlyniadau Etholiad y Senedd, bu staff y Comisiwn yn gweithio ar draws timau i groesawu Aelodau newydd a'r rhai a oedd yn dychwelyd, ac un o'r gweithgareddau cyntaf i'w wneud oedd sicrhau bod pob Aelod yn gallu tyngu Llw.

Fel arfer, mae'r holl weithgareddau croeso a chyfeirio yn cael eu gwneud wyneb yn wyneb.  Eleni, gan adlewyrchu'r gofynion ar gyfer cadw pellter cymdeithasol a'r uchafswm lefelau capasiti ar gyfer yr ystâd, cyfunwyd gweithgareddau wyneb yn wyneb ar y safle â chymryd llw yn rhithwir.

Cynhaliwyd y digwyddiad croesawu ar gyfer 60 o Aelodau sydd newydd eu hethol y Chweched Senedd rhwng prynhawn dydd Gwener a phrynhawn dydd Llun, gyda phob un ohonyn nhw'n tyngu llw a mynegi eu teyrngarwch o flaen Clerc y Senedd gan ymgymryd â'r camau cynefino cychwynnol – 35 yn y Senedd, 3 yn swyddfa'r gogledd a 22 yn rhithwir.  Etholwyd 20 Aelod am y tro cyntaf. Roedd staff y Comisiwn wrth law i helpu Aelodau gyda materion ymarferol fel gofod swyddfa ac offer TGCh yn ogystal â chyngor ar eu rôl newydd, diogelwch a chymorth i gyflogi staff.  Roedd cymryd llw rhithwir oherwydd Covid yn boblogaidd ac roedd mantais ychwanegol o alluogi Aelodau i dyngu eu llw yn eu hetholaeth neu ranbarth, neu ym mhresenoldeb teulu a ffrindiau.  Bydd cymryd llw rhithwir ar gael yn dilyn Etholiadau yn y dyfodol.

Ar ôl tyngu Llw, roedd pob un o'r 60 Aelod yn gallu cymryd rhan yng Nghyfarfod Llawn cyntaf y Chweched Senedd. Yn y cyfarfod hwnnw etholodd y Senedd y Llywydd (Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS) a'r Dirprwy Lywydd (David Rees AS) a chytunodd i enwebu Mark Drakeford AS yn Brif Weinidog. Gan fod rheolau cadw pellter cymdeithasol yn dal yn eu lle, cynhaliwyd y cyfarfod ar ffurf hybrid gydag 20 Aelod yn y Siambr a'r 40 Aelod arall yn ymuno ar-lein o'u swyddfeydd yn Nhŷ Hywel.

Unwaith y gwnaeth y Prif Weinidog benodi Gweinidog i fod yn gyfrifol am fusnes y llywodraeth, roedd modd sefydlu'r Pwyllgor Busnes, gan ddechrau ar y drefn arferol o drefnu busnes seneddol wythnosol.

Un o gyfrifoldebau cynnar y Pwyllgor Busnes oedd cynnig Aelodau i fod yn bedwar Comisiynydd y Senedd, fel arfer un o bob grŵp gwleidyddol. Am y tro cyntaf roedd llai na phedwar grŵp gwleidyddol ymysg Aelodau o'r Senedd. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Pwyllgor Busnes benderfynu pwy ddylai'r pedwerydd Comisiynydd fod.

Dros yr wythnosau dilynol, cyflwynodd swyddogion y Comisiwn amrywiaeth o sesiynau cynefino pellach ar gyfer Aelodau a'u staff gan gwmpasu pynciau fel cymryd rhan yn y Cyfarfod Llawn, deall eu rôl fel cyflogwr a rheolydd data, a'u cefnogi i sefydlu eu swyddfeydd etholaethol. Ac eithrio'r hyfforddiant ymarferol a ddarperir yn y Siambr, cafodd yr holl sesiynau cynefino craidd eu darparu'n rhithwir. Roedd hyn yn angenrheidiol ar y pryd oherwydd cyfyngiadau Covid, ond fe weithiodd yn dda hefyd, gan roi hyblygrwydd i Aelodau gyda'u ymrwymiadau eraill, yn ogystal â chyfle i ymgyfarwyddo â'n systemau TGCh drwy hyfforddiant. Mae'n rhywbeth y byddwn yn ystyried ei ddarparu yn yr Etholiad nesaf hefyd.





## Adolygiad y Pwyllgor Busnes o amserlen y pwyllgorau

Caiff pwyllgorau eu disgrifio yn aml fel 'pwerdy' Seneddau, ac maent yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith craffu ac ystod eang o swyddogaethau seneddol. Felly, mae'n rhaid iddynt gynnwys y cwmpas llawn o weithgarwch datganoledig, gyda rhai pwyllgorau 'arbenigol' ychwanegol mewn meysydd fel cyllid, cyfrifon cyhoeddus a gweinyddiaeth gyhoeddus, a deisebau. Mae pob Senedd yn sefydlu ei strwythur pwyllgorau ei hun.

Ar ddechrau'r Chweched Senedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen o gyfarfodydd bob pythefnos ar gyfer y pwyllgorau, ar y sail y byddai'n sicrhau:

- digon o amser cyfarfod i bwyllgorau gyflawni eu rolau;
- cydbwysedd teg rhwng yr amser y disgwylir i aelodau ei dreulio ar waith pwyllgorau a'u cyfrifoldebau ehangach;
- hyblygrwydd i bwyllgorau gynnal cyfarfodydd ychwanegol pan fo angen cwblhau gwaith â chyfyngiad amser iddo, a/neu fynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n cyrraedd ei anterth; a
- digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer pwyllgor ychwanegol yn y system, pe bai angen (y Pwyllgor Diben Arbennig ar hyn o bryd).

Yn ogystal ag amserlen bythefnosol, cynyddodd y Pwyllgor Busnes faint o amser sydd ar gael yn ystod yr wythnos y gallai pwyllgorau gyfarfod.

Ym mis Rhagfyr 2021, penderfynodd y Pwyllgor Busnes adolygu'r amserlen er mwyn gwirio a oedd lle i wella trefniadau a wnaed ar ddechrau'r Chweched Senedd.

Cytunwyd ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

> *Adolygu'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith pwyllgorau, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw newidiadau i'r dull a allai wella effeithiolrwydd pwyllgorau, wrth gynnal cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae aelodau'r pwyllgorau yn ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a'r tu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach.*

Wrth baratoi ar gyfer yr adolygiad, bu swyddogion y Comisiwn yn ystyried y materion tebygol y gallai fod angen i bwyllgorau eu hystyried yn ystod y Chweched Senedd, gan gynnwys gofynion y rhaglen ddeddfwriaethol, ac yna

paratôdd ar gyfer opsiynau ystyried y Pwyllgor Busnes ar gyfer strwythur yr ystyrir ei fod yn gydlynol ac yn ymarferol. Yn ogystal, trafodwyd agweddau perthnasol ar adroddiadau etifeddiaeth pwyllgorau’r Bumed Senedd, gan gynnwys Fforwm y Cadeiryddion. Ffactor allweddol yn adolygiad y Pwyllgor Busnes oedd effaith bosibl y strwythur newydd ar lwyth gwaith yr Aelodau.

Gofynnodd y Pwyllgor Busnes am farn pwyllgorau, aelodau pwyllgorau, Cadeiryddion pwyllgorau, a grwpiau pleidiau, i lywio’r adolygiad.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i’r adolygiad, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen ddiwygiedig i’r pwyllgor yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2022, gyda’r newidiadau i’w rhoi ar waith o dymor yr haf 2022 ymlaen.

I grynhoi, daeth y Pwyllgor Busnes i gasgliad y dylid gwneud gwelliannau i amserlen y pwyllgorau, ac ar yr un pryd i gydbwysedd priodol gael ei gynnal rhwng yr amser y mae aelodau'r pwyllgorau yn ei dreulio ar waith pwyllgorau a'u cyfrifoldebau ehangach.

Cytunwyd i ddiwygio amserlen y pwyllgorau mewn pedair ffordd, i fynd i'r afael â materion a godwyd yn yr ymatebion i'r adolygiad:

- cadw amserlen bythefnos ar gyfer y rhan fwyaf o bwyllgorau;
- darparu slotiau cyfarfod wrth gefn i bwyllgorau yn yr wythnosau nad ydynt yn eistedd, i’w defnyddio heb orfod gofyn am ganiatâd gan y Pwyllgor Busnes (ond gyda chytundeb y pwyllgor);
- cyflwyno patrwm cyfarfod bore Mercher/prynhawn Iau bob yn ail er mwyn darparu'r un faint o amser cyfarfod a hyblygrwydd i bob pwyllgor polisi a deddfwriaeth, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a'r Pwyllgor Cyllid; a
- dileu wythnosau gwarchodedig, ond gan barhau i ddarparu amser gwarchodedig ar gyfer pwyllgorau sy'n cyfarfod yn achlysurol.

Er y darparwyd peth adborth ar gylchoedd gwaith pwyllgorau yn yr ymatebion i’r adolygiad, daeth y Pwyllgor Busnes i’r casgliad nad oedd yn ymddangos bod achos dros newid unrhyw gylchoedd gwaith pwyllgorau ar y pryd.

Wrth ddod i’w benderfyniad ar yr amserlen yn y dyfodol, cydnabu’r Pwyllgor Busnes fod yr adolygiad wedi’i gynnal yng nghyd-destun pandemig Covid-19, a bod gweithgarwch y pwyllgorau yn ystod cyfnod ffocws yr adolygiad wedi cael ei





effeithio'n sylweddol gan y cyfyngiadau iechyd cyhoeddus oedd ar waith i reoli lledaeniad y feirws.

Unwaith y cytunodd y Senedd ar gylchoedd gwaith, trefniadau cadeirio ac aelodaeth ei strwythur pwyllgorau newydd, rhoddwyd hyfforddiant i Gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau ar weithdrefnau pwyllgorau a sesiynau briffio arbenigol yn eu maes pwnc. Yn ogystal, mae pob pwyllgor yn neilltuo amser i ystyried amcanion strategol, ffyrdd o weithio a blaenraglen waith gychwynnol. Yn unol ag argymhellion adroddiad Stirbu (tudalen 68), bydd pwyllgorau’n hunanfyfyrio a gwerthuso yn rheolaidd.

## Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd

Ar 6 Hydref 2021, pleidleisiodd Aelodau o'r Senedd i greu Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, gyda chylch gwaith i:

- ystyried y casgliadau a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn y Bumed Senedd fel y nodir yn ei adroddiad Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf a osodwyd gerbron y Senedd ar 10 Medi 2020; ac
- erbyn 31 Mai 2022, gwneud argymhellion o ran cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru i Ddiwygio'r Senedd.

Roedd sefydlu'r Pwyllgor yn adlewyrchu'r consensws ei bod hi'n hanfodol bod y Senedd yn barod i lunio deddfwriaeth dda a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ar ran pobl Cymru.

Dilynodd y Pwyllgor dri chyfnod eang:

- Cyfnod Un: Bydd yr Aelodau'n nodi lle mae tir cyffredin, neu lle mae ewyllys i geisio sefydlu tir cyffredin, rhwng safbwyntiau polisi eu pleidiau gwleidyddol, mewn perthynas â Diwygio'r Senedd;
- Cyfnod Dau: o ran y meysydd a nodir yng Nghyfnod 1, casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen i'r Pwyllgor ddatblygu argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi; a
- Chyfnod Tri: datblygu argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi.

Yn ystod trafodaethau cynhyrchiol Cyfnod Un, bu Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- maint y Senedd a'i system ar gyfer ethol Aelodau;
- mesurau a allai o bosibl gynyddu amrywiaeth y Senedd; a
- system ar gyfer adolygu ffiniau etholaethau a dosbarthu seddi.

I'w gynorthwyo yn ei waith, bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried tystiolaeth a gasglwyd yn flaenorol gan y Panel Arbenigol, a gyflwynodd adroddiad yn flaenorol yn 2017, yn argymell bod angen rhwng 20 a 30 o Aelodau ychwanegol ar y Senedd, wedi'u hethol drwy system etholiadol fwy cymesur sy'n atebol i'r cyhoedd a chydag amrywiaeth yn ganolog iddi.





Bu'r Pwyllgor newydd hefyd yn ystyried tystiolaeth a gasglwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, a sefydlwyd yn y Bumed Senedd i gasglu rhagor o dystiolaeth am yr angen i ddiwygio, gwrando ar farn y cyhoedd, a llywio pleidiau gwleidyddol a'u maniffestos cyn Etholiadau'r Senedd yn 2021.

Yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ei adroddiad terfynol, y mae'n rhaid ei gyhoeddi cyn diwedd mis Mai 2022, bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiddymu.

*Mae'r ddogfen hon yn edrych yn ôl dros y 12 mis diwethaf ac yn adrodd ar weithgareddau a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd wedi cyhoeddi ei adroddiad ym mis Mai 2022 – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru. Trafodwyd yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mehefin a phleidleisiodd y Senedd o blaid y cynigion i ddiwygio.*

## Cydsyniad deddfwriaethol yn y Chweched Senedd

Ers ethol Cynulliad Cenedlaethol cyntaf Cymru ym 1999, mae'r Senedd wedi derbyn pwerau ychwanegol yn rheolaidd, ac roedd newid enw'r sefydliad yn 2020 i Senedd Cymru yn gydnabyddiaeth o'r newid hwnnw mewn pwerau a statws.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o'r gyfraith sy'n effeithio ar Gymru bellach yn cael ei gwneud gan y Senedd neu drwy'r Senedd. Pan fydd Senedd y DU am ddeddfu ar bwnc sydd wedi'i ddatganoli i'r Senedd, ni fydd, fel arfer, yn gwneud hynny heb gydsyniad y Senedd. Yr enw ar hyn yw'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol (neu gonfensiwn Sewel). Mae'n agwedd hollbwysig ar waith y Senedd, ond yn un sy'n dod yn fwyfwy heriol yn y Chweched Senedd.

Os caiff Bil ei gyflwyno yn Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, rhaid i Lywodraeth Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) yn y Senedd. Dylai grynhoi amcanion polisi'r Bil ac egluro a yw'n briodol i ddarpariaeth o'r fath gael ei gwneud. Yn gyffredinol, caiff LCMs eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn drwy gyfrwng dadl a phleidlais ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol. Gellir cynnal sawl pleidlais os caiff Bil ei ddiwygio wrth iddo fynd drwy Senedd y DU.

### Pwysigrwydd a heriau gwaith craffu

Rhoddir cryn amser i'r Senedd a'i bwyllgorau graffu ar Filiau'r Senedd drwy'r gwahanol gamau ym mhroses y Bil. Fodd bynnag, o dan y broses LCM mae llawer llai o gyfleoedd i graffu ar Filiau'r DU. Mae hyn yn golygu bod ymgysylltiad craffu y Senedd â'r broses LCM yn arbennig o bwysig i sicrhau bod cyfraith sy'n cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl yn cael ei deddfu.

O ystyried yr amserlen gywasgedig ar gyfer ystyried cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau'r DU, mae angen i bwyllgorau'r Senedd chwarae rhan fawr o ran craffu wrth baratoi ar gyfer dadleuon y Senedd. Yn aml, mae angen i bwyllgorau ymateb yn gyflym i welliannau a wneir i Filiau wrth iddynt fynd drwy Senedd y DU, gan baratoi adroddiadau manwl o fewn amserlenni byr iawn.

Mae'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn rhoi pwysau sylweddol ar bwyllgorau a'r swyddogion sy'n eu cefnogi, ac mae natur anrhagweladwy amseriad gwelliannau i Filiau'r DU (ac amserlen ddeddfwriaethol ehangach y DU) yn gwneud cynllunio rhaglenni gwaith ac adnoddau yn arbennig o anodd.

Mae'r heriau hyn yn fwy yn sgil cynnydd yn nifer (a maint) Biliau'r DU y mae angen cydsyniad deddfwriaethol arnynt:





- Ym mlwyddyn lawn gyntaf y Bumed Senedd, ystyriwyd 10 LCM yn ymwneud â thua 80 o gymalau ac atodlenni;
- Yn ystod chwe mis cyntaf y Chweched Senedd, gosodwyd 14 LCM yn ymwneud â thua 350 o gymalau ac atodlenni.

### Gwella'r broses

Disgwyliwn i'r nifer hwn o LCMs barhau hyd y gellir rhagweld. Er mwyn sicrhau nad yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn rhoi pwysau gormodol ar bwyllgorau a'u timau cymorth, ac nad yw ansawdd gwaith craffu'r Senedd yn cael ei effeithio'n andwyol, bydd angen gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y broses.

Oherwydd hynny, mae staff Comisiwn y Senedd wrthi'n cefnogi:

- Adolygiad gan Bwyllgor Busnes y Senedd, gan weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a Senedd y DU i nodi ffyrdd o fireinio'r weithdrefn, rhannu gwybodaeth yn haws a gwella gweithio rhwng sefydliadau;
- Astudiaeth lawer ehangach gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd o sut mae'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn gweithio yng Nghymru, y gwahanol ddulliau o ddeddfu ar gyfer Cymru a ddefnyddir gan Lywodraethau Cymru a'r DU, a'r goblygiadau i rôl y Senedd fel deddfwrfa ddatganoledig.

Y nod yma yw sicrhau bod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn sicrhau canlyniadau gwell yn y Chweched Senedd o ran craffu effeithiol gan y Senedd a bod y gyfraith honno'n cynrychioli buddiannau Cymru, lle bynnag y'i gwneir.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith deddfwriaethol a wneir gan y Senedd ar gael ar ein gwefan: https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/deddfwriaeth/

## Strategaeth y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyfer 2021 - 2026

Mae gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd swyddogaethau statudol i bennu'r cyflogau a'r cymorth ariannol arall sydd ar gael i'r Aelodau. Mae gan Gomisiwn y Senedd ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu adnoddau rhesymol i'r Bwrdd i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau, fel y nodir ym Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Mae'r Bwrdd yn creu ac yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ei hun sydd y tu allan i fframwaith llywodraethu Comisiwn y Senedd.

Cyhoeddodd y Bwrdd ei Strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd[3], ynghyd â chrynodeb ar dudalen[4], ym mis Rhagfyr 2021.

Mae Strategaeth y Bwrdd yn nodi ei ddiben a'i egwyddorion arweiniol, yn ogystal â'i nodau a'i amcanion strategol ar gyfer ei gyfnod yn y swydd. Mae'n nodi Diwygio'r Senedd, newid yn yr hinsawdd a'r pandemig iechyd byd-eang fel ffactorau pwysig wrth ystyried a phennu'r cymorth sydd ei angen ar Aelodau o'r Senedd i gyflawni eu gwaith.

Mae'r Strategaeth yn amlinellu amcanion strategol y Bwrdd fel a ganlyn:

- Cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i anghenion busnes newidiol Aelodau, disgwyliadau dinasyddion a'r cyd-destun cyfansoddiadol esblygol – Penderfyniad ymatebol.
- Symleiddio'r Penderfyniad i ddarparu hyblygrwydd i Aelodau i bennu eu blaenoriaethau eu hunain, gyda mesurau diogelwch cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd – Penderfyniad symlach.
- Cyflwyno model cynaliadwy o gefnogaeth, sy'n ystyried anghenion o ran amrywiaeth, yr argyfwng newid yn yr hinsawdd a chyllid yn y tymor hir yng Nghymru – Penderfyniad cynaliadwy.
- Ymgysylltu'n effeithiol ag Aelodau ac ystod ehangach o randdeiliaid i alluogi adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd – hyrwyddo ymddiriedaeth ac ymgysylltu.

Nod y Bwrdd ar gyfer ei gyfnod yw galluogi Aelodau o'r Chweched Senedd i wneud eu gwaith seneddol yn effeithiol, yn eu hardal leol ac yn y Senedd, ac i

[3]https://bwrddtaliadau.cymru/media/ywenfywo/strategaeth-ar-gyfer-2021-26.pdf
[4]https://bwrddtaliadau.cymru/media/elzbvc1r/board-on-a-page_final_cy.pdf



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

baratoi pecyn o gyflog a chymorth ar gyfer y Seithfed Senedd, oll o fewn cyd-destun cyfansoddiadol, cymdeithasol a byd-eang sy'n newid.

Mae'r Bwrdd wedi ystyried ei raglen waith er mwyn cyflawni ei Strategaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arno gan y Comisiwn i'w gefnogi a fydd yn llywio strategaeth gyllidebol y Comisiwn yn y dyfodol.

Mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a Chlerc wedi bod mewn cyswllt rheolaidd i drafod eu priod rolau a chyflawni'r nod cyffredin o symleiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer Aelodau.

## Adroddiad Stirbu

Comisiynwyd yr Athro Diana Stirbu o Brifysgol Fetropolitan Llundain, drwy Gynllun Cymrodoriaeth Academaidd Ymchwil y Senedd, i edrych ar bŵer, dylanwad ac effaith pwyllgorau'r Senedd.  Y nod oedd datblygu fframwaith i werthuso effeithiolrwydd pwyllgorau yn y Chweched Senedd.

Ar 21 Hydref 2021, cyflwynodd yr Athro Stirbu ei hadroddiad terfynol i Fforwm y Cadeiryddion (pwyllgor o holl Gadeiryddion pwyllgorau'r Senedd, dan gadeiryddiaeth y Llywydd).  Cymeradwyodd y Fforwm adroddiad yr Athro Stirbu a chytunodd i fonitro'r gwaith o weithredu ei argymhellion.

Dywedodd yr Athro Stirbu, er nad oes gan bwyllgorau'r Senedd ddull neu feini prawf ar hyn o bryd y cytunwyd arnynt ar gyfer mesur effeithiolrwydd, bod yr ymchwil wedi darganfod arferion da sy'n bodoli eisoes.  Fodd bynnag, mae'r arferion hyn yn aml yn digwydd yn anghyson ac ar wahân.  Felly, canfu'r gwaith ymchwil y dylai gwerthuso fod yn rhan annatod o ddull strategol pwyllgorau, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng amcanion, effaith a chanlyniadau hirdymor a ddymunir a gweithgarwch pwyllgorau.  Mae hyn yn cynnwys gosod nodau, cynllunio gwaith yn y dyfodol, monitro, olrhain cynnydd, ac asesu beth yw gwaddol eu gwaith.

I archwilio sut y gellid cyflawni hyn, edrychodd ymchwil yr Athro Stirbu yn benodol ar:

- yr amodau ar gyfer gweithgarwch pwyllgorau effeithiol; a'r
- amodau ar gyfer gwerthuso effeithiol a hunan-ystyried.

Roedd ymgysylltu â'r cyhoedd ac amrywiaeth y dystiolaeth yn themâu trawsbynciol yn y gwaith ymchwil.  Datgelodd fod effaith pwyllgorau yn dibynnu, i raddau, ar ba mor dda y maent yn cyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

I gefnogi gwaith Fforwm y Cadeiryddion, mae rhaglen wedi'i sefydlu i gydlynu'r gwaith sydd ei angen i werthuso, datblygu a gweithredu argymhellion yr adroddiad.  Mae gwaith i gyflawni nifer o'r argymhellion eisoes wedi dechrau, er bod y rhaglen gyfan yn debygol o bara am gyfnod y Chweched Senedd.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

## Cyfoethogi ein tystiolaeth: gwella cysylltiadau rhwng y Senedd a'r gymuned ymchwil

Cyfnewid gwybodaeth yw'r broses ddwy ffordd sy'n dwyn y gymuned ymchwil, Aelodau a swyddogion ynghyd i rannu syniadau ac arbenigedd er budd gweithgareddau seneddol ac ymchwil.

Mae Comisiwn y Senedd wedi bod yn meithrin gallu a rhwydweithiau cyfnewid gwybodaeth yn y sectorau addysg uwch ac ymchwil ers nifer o flynyddoedd. Eleni, lansiwyd y strategaeth cyfnewid gwybodaeth newydd, Cyfoethogi ein Tystiolaeth, gyda'r nod o ehangu, dyfnhau ac amrywio'r dystiolaeth sydd ar gael i'r Senedd.[5]

Mae'r rhaglen cyfnewid gwybodaeth yn un elfen o ddull y Senedd o gasglu tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys rhanddeiliaid a phobl sydd â phrofiadau byw.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i hyrwyddo'r Senedd fel lle o ddylanwad, gan ei gwneud yn haws i ymchwilwyr ymgysylltu â'r Senedd ac i wneud yn siŵr bod yr ystod orau a mwyaf amrywiol o dystiolaeth ymchwil ar gael i gefnogi prosesau deddfu effeithiol gwaith craffu effeithiol ar gamau gweithredu'r llywodraeth, a chynyddu effaith ymchwil.

Mae llwyddiannau diweddar yn cynnwys:

- sefydlu 'rhwydwaith gwybodaeth' o dros 75 o brifysgolion, sefydliadau ymchwil ac unigolion, ochr yn ochr â chylchlythyr[6] i rannu newyddion, gwybodaeth, a chyfleoedd newydd at ddibenion ymgysylltu;
- cyflwyno canllawiau a hyfforddiant newydd i helpu ymchwilwyr i ddeall sut i ymgysylltu â'r Senedd, gan gynnwys cymorth ar gyfer Crwsibl Cymru a Fforwm Arweinwyr y Dyfodol Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI);
- datblygu system i fonitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau;

[5] https://ymchwil.senedd.cymru/media/zxylp54o/external-a5-cym.pdf
[6] https://wales.us20.list-manage.com/subscribe?u=21dc5a218a4bbe36193ac178f&id=44e9af490b

- archwilio 'meysydd o ddiddordeb ymchwil' i nodi tystiolaeth ac arbenigedd yn ymwneud â materion o ddiddordeb i bwyllgorau'r Senedd; a
- gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth rhyngwladol amrywiol.

Mae ein rhaglenni cyfnewid gwybodaeth presennol hefyd yn parhau, gyda:

- phum prosiect ymchwil a gomisiynwyd gan arbenigwyr ar Fframwaith Ymchwil Brexit;
- cyhoeddi tri adroddiad o gynllun Cymrodoriaeth Academaidd y Senedd, gan gynnwys adroddiad dylanwadol Stirbu (tudalen 68) ar effeithiolrwydd pwyllgorau'r Senedd;
- defnydd amrywiol o'r Gofrestr Arbenigwyr Covid[7], gan gynnwys ymchwil gwreiddiol ar Brofi, Olrhain, Diogelu[8], ymchwil ar weithio o bell[9], erthygl gwadd ar betruster brechu [10], bord gron y pwyllgor arbenigol[11], ac arolwg[12] o'r gofrestr;
- PhD cydweithredol ar arloesi democrataidd rhwng ymchwilydd ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r tîm ymgysylltu â dinasyddion newydd; ac
- Ymchwil y Senedd yn parhau i gynnal Interniaid PhD UKRI[13] drwy gydol y flwyddyn.

Bydd y strategaeth cyfnewid gwybodaeth newydd yn cael ei rhoi ar waith drwy gydol y Chweched Senedd.

[7] https://ymchwil.senedd.cymru/cyfnewid-gwybodaeth/cofrestr-arbenigwyr-covid-19/
[8] https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/y-coronafeirws-sut-y-gellir-gwella-r-gwasanaeth-profi-olrhain-diogelu/
[9] https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/gweithio-o-bell-y-normal-newydd/
[10] https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/petruster-brechu-yng-nghymru/
[11] https://busnes.senedd.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=737&MId=12447&Ver=4
[12] https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/y-tu-hwnt-i-r-pandemig-barn-rhai-arbenigwyr/
[13] https://www.ukri.org/wp-content/uploads/2020/11/UKRI-101120-Policy-Internships-Scheme-Applicant-Guidance.pdf





## Gwasanaethau dwyieithog

Yn ystod y cyfnod hwn, mae gwaith y Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynllunio, drafftio ac ymgynghori ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd. Cytunwyd ar y cynllun drafft ar gyfer ymgynghori ac mae'r gwaith ymgynghori yn mynd rhagddo. Rhoddwyd cyfleoedd i Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth a staff Comisiwn y Senedd wneud sylwadau ar gynnwys a fformat y drafft. Yn unol â nod strategol y Comisiwn i roi dinasyddion wrth galon popeth a wnawn, a gofynion y Ddeddf Ieithoedd Swyddogol, roedd cyfle hefyd i bobl Cymru wneud sylwadau ar y cynllun drafft ar gyfer ymgynghoriad. Cafodd y sylwadau hyn eu hystyried a'u hymgorffori yn y Cynllun ar gyfer y Chweched Senedd yn ôl y gofyn.


Ar ôl ymgorffori'r trefniadau ar gyfer cynnal busnes y Senedd ar-lein, ar ffurf rithwir neu hybrid, ac ar ôl croesawu nifer o Aelodau newydd o'r Senedd yn dilyn Etholiadau'r Senedd, bu cynnydd sylweddol yng nghanran y cyfraniadau yn Gymraeg. Gellir priodoli'r cynnydd hwn i nifer o newidiadau yn y ffordd y mae Aelodau'n cyfrannu at y trafodion. Wrth i'r Senedd symud tuag at y cam nesaf o ddychwelyd i'r ystâd byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi Aelodau a thystion i ddefnyddio eu dewis iaith swyddogol.

Ar ôl i un aelod o staff y Tîm Ieithoedd Swyddogol ymddeol, roedd cyfle i ailstrwythuro'r tîm. Mae capasiti'r tîm tiwtora wedi cynyddu er mwyn gallu darparu cymorth pellach i Aelodau, staff cymorth a staff y Comisiwn. Byddwn yn gweithio ar ddarpariaeth hyd yn oed yn fwy hyblyg ac arbenigol. Bydd rhai o'n dysgwyr yn sefyll arholiadau CBAC dros y flwyddyn nesaf, sy'n gyfle iddynt gael cydnabyddiaeth am eu hymroddiad a'u gwaith caled yn ystod y pandemig. Bydd y tîm hefyd yn parhau i fynd ati i chwilio am ddysgwyr newydd ar draws y sefydliad, boed yn ddysgwyr blaenorol, staff newydd y Comisiwn neu Aelodau newydd neu staff cymorth sydd wedi ymuno ers yr Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.

Mae'r Tîm hefyd wedi adolygu'r asesiad Cymraeg Lefel Cwrteisi er mwyn gallu ei ddilyn ar-lein neu wyneb yn wyneb, ac adolygwyd y modiwl ynganu sydd ar gael i aelodau newydd o staff y Comisiwn i'w cynorthwyo gyda'r asesiad. Yn y flwyddyn nesaf, bydd y tîm yn gweithio i greu adnoddau hyfforddi ar weithio'n ddwyieithog sy'n cyd-fynd â'r hyfforddiant diwygiedig ar ynganu. Cafodd cynnwys y fideo ymwybyddiaeth ei adolygu ar gyfer staff newydd y Comisiwn, a recordiwyd darnau newydd. Mae cynlluniau ar y gweill i greu cyfres o fideos ac adnoddau i gefnogi'r hyfforddiant ymwybyddiaeth.

Yn dilyn proses o ailstrwythuro sawl tîm ar draws Comisiwn y Senedd, rydym wedi adolygu Cynlluniau Iaith Gwasanaeth y timau hyn yn fanwl. Mae'r adolygiadau manwl hefyd wedi arwain at newidiadau ystyrlon a rhannu arferion da â thimau eraill. Mae penaethiaid gwasanaeth yn adolygu eu cynlluniau yn flynyddol fel rhan o'r broses o lunio'r datganiad sicrwydd corfforaethol. Ar yr un pryd, adolygwyd y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, a phenderfynwyd ymgorffori'r strategaeth o fewn Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd.


Mae Adroddiad Blynyddol Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2021-2022 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ein gwaith yn y maes hwn, sydd ar gael ar ein gwefan.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

Mae'r rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol yn tynnu sylw at y gwaith rydym wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o'r Senedd a'i gwaith a'i gwneud yn fwy hygyrch i bobl Cymru.



▼ **Windrush Cymru: Dathlu Bywydau a Theithiau Cenhedlaeth**

TCynhaliwyd yr arddangosfa hon yn y Senedd yn ystod hydref 2021

## ALLGYMORTH AC YMGYSYLLTU

**Tua diwedd y Bumed Senedd gwelsom gynnydd o 122% yn nifer y dilynwyr ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol**



**514,188**

**Nifer yr ymweliadau rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2021 gan bobl a edrychodd ar gynnwys o'r tudalennau '[Ymweld â'r Senedd](#)'**

**Arweiniodd ymgyrch Etholiad y Senedd at gynnydd o 57% yn nifer yr ymwelwyr â gwefan y Senedd**



**84%**

**ohonynt yn ymwelwyr am y tro cyntaf â'r wefan**





## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae rhoi pobl wrth wraidd y Senedd yn parhau i fod yn ganolbwynt i waith cyfathrebu ac ymgysylltu Comisiwn y Senedd.

Yn ystod y pandemig, bu diddordeb digynsail yng ngwleidyddiaeth Cymru a gwaith y Senedd, sydd wedi arwain at alw cynyddol am straeon newyddion a mwy o ymgysylltiad â'n hallbwn digidol. Tua diwedd y Bumed Senedd gwelsom gynnydd o 122% yn nifer y dilynwyr ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol a chyrhaeddom fwy o bobl nag erioed o'r blaen o ganlyniad i addasu ein rhaglenni ymgysylltu ar-lein.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn, gan ganolbwyntio adnoddau ar greu cynnwys arloesol i barhau i ymestyn ein cyrhaeddiad o gynulleidfaoedd newydd drwy amrywiaeth o lwyfannau a'u cynnwys mewn sgyrsiau gwerthfawr am waith y Senedd a sut y mae'n effeithio ar eu bywydau.

### Uchafbwyntiau Cyfathrebu ac Ymgysylltu

#### Ymgyrch Etholiadau'r Senedd

Cynhyrchodd ein Timau Cyfathrebu ac Ymgysylltu ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol ddwyieithog i annog cyfranogiad yn Etholiadau'r Senedd yn 2021.

Gyda'r thema ganolog "Dy Lais / Your Voice", defnyddiodd yr ymgyrch gymysgedd o gyfryngau traddodiadol, cyfryngau cymdeithasol a digidol, radio, teledu, a hysbysebu awyr agored i gyrraedd ein cynulleidfa darged.

Roedd ffocws penodol ar gyrraedd pobl ifanc 16-17 oed er mwyn annog cofrestru a chyfranogiad yn Etholiadau'r Senedd am y tro cyntaf.

Roedd yr ymgyrch yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau, yn cynnwys delweddau ysbrydoledig o bobl a Chymru, gydag ymgyrch Pleidlais 16 yn canolbwyntio ar fywydau a gweithgareddau pobl ifanc.

Roedd ein hymgyrchoedd yn y cyfryngau hefyd yn treialu ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn draddodiadol wedi ymgysylltu â gwaith y Senedd, gan arwain at lwyddiannau fel rhaglen arbennig BBC One Wales 'Hayley: Virgin Voter' a gafodd ei darlledu yn ystod y cyfnod yn arwain at Etholiadau'r Senedd.

Roedd cyfyngiadau Covid yn herio'r ffordd rydym yn ymgysylltu â phobl ifanc gan na ellid cynnal yr ymweliadau ysgol a digwyddiadau wyneb yn wyneb arferol. Yn ei dro, cyflwynodd hyn gyfleoedd newydd i fod yn fwy creadigol wrth ddefnyddio ystod o dechnegau rhithwir ac adnoddau digidol.

Cyrhaeddodd y sesiynau addysgol ar-lein a'r digwyddiadau rhithwir a drefnwyd gan ein Tîm Ymgysylltu dros 5,000 o bobl ifanc a gweithwyr addysg proffesiynol yn y cyfnod cyn Etholiadau'r Senedd.

Helpodd yr ymgyrch i arwain at gynnydd o 57% yn nifer yr ymwelwyr â gwefan y Senedd – 84% ohonynt yn ymwelwyr am y tro cyntaf â'r wefan.

Bydd y mewnwelediad a gasglwyd o werthusiad yr ymgyrch hon, ynghyd â data ar y nifer a bleidleisiodd yn Etholiad y Senedd, yn helpu i lywio ein gwaith ymgyrchu yn y dyfodol.

## Agoriad Swyddogol y Chweched Senedd

Roedd Ei Mawrhydi y Frenhines, Eu Huchelderau Brenhinol Tywysog Cymru a Duges Cernyw a gwesteion yn bresennol yn Agoriad Swyddogol y Chweched Senedd, a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2021.

Roedd y diwrnod nid yn unig yn ddathliad o'r Senedd ond o'r cymunedau amrywiol ledled Cymru y mae eu lleisiau'n cael eu cynrychioli gennym ni. Buom yn gweithio gyda phartneriaid: Hijinx, Prosiect Tân Cerdd, Llenyddiaeth Cymru, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru ac Opera Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, a helpodd i gyflwyno digwyddiad a oedd yn dathlu Cymru a'i phobl.

Roedd Gruffudd Owen, Bardd Plant Cymru, wedi creu cerdd fywiog ar y thema Dy Lais/Your Voice ac fe gynhaliwyd gweithdai ledled Cymru er mwyn datblygu'r gerdd. Y canlyniad oedd cyfuniad o ddylanwadau a oedd yn uno i'n hatgoffa mai diben ein lleisiau unigryw yw i gael eu clywed. Roedd y ffotograffydd, y gwneuthurwr ffilmiau a'r bardd, Zillah Bowes, hefyd wedi gweithio gyda phobl ledled Cymru i greu darn unigryw o gelf i nodi'r Agoriad Swyddogol.

Roedd ein Hyrwyddwyr Cymunedol Covid, a ddangosodd gryfder, undod, haelioni ysbryd ac a wnaeth wahaniaeth cadarnhaol yn eu hardal yn ystod y pandemig, hefyd yn gallu ymuno â ni o bob rhan o Gymru.





Llwyddiannau allweddol:

- Y cyrhaeddiad uchaf erioed yn y cyfryngau o ran sylw rhagweithiol i'r Senedd – gan gyrraedd cynulleidfa fyd-eang (dros 2,000 o ddarnau o sylw).
- Mwy o ddefnydd o'r enw newydd – gyda chyfryngau ar draws y byd yn cyfeirio atom ni fel Senedd / Welsh Parliament a symudiad parhaus o ran defnydd o'r term yn y cyfryngau anoddaf i'w cyrraedd hyd yn oed.
- Twf sylweddol ar Instagram – sianel sy'n cyrraedd ein cynulleidfa darged iau.
- Helpodd straeon diddordeb dynol i ddenu sylw yn y cyfryngau ac ar-lein y tu hwnt i'r ymweliad Brenhinol a chafodd ein Senedd ei harddangos i bawb.
- Helpodd sefydliadau partner i ymhelaethu ar ein cynnwys y tu hwnt i'n cynulleidfa draddodiadol – yn enwedig ar Twitter.
- Mae ein cynnwys yn y cyfryngau cymdeithasol wedi'i wreiddio yn y sylw yn y cyfryngau.

## Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

Nod Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yw helpu i greu byd cyfartal rhwng y rhywiau. Dathlu cyflawniadau menywod a chynyddu amlygrwydd, tra'n galw am anghydraddoldeb.

Thema Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar gyfer 2022 oedd #BreaktheBias a'i nod oedd hyrwyddo byd cyfartal o ran rhywedd, heb ragfarn, ystrydebau a gwahaniaethu. Byd sy'n amrywiol, yn deg ac yn gynhwysol. Byd lle mae gwahaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i ddathlu.

Fel rhan o ymdrechion y Senedd i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, cynhaliwyd digwyddiad panel rhithwir gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i dynnu sylw at adroddiad diweddaraf y Pwyllgor, Gwarchod y dyfodol: Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio.

### Arddangosfeydd ac ymweliadau

Mae arddangosfeydd yn y Senedd yn arddangos Cymru ar ei gorau, yn amrywio o bartneriaethau â sefydliadau cenedlaethol allweddol i brosiectau wedi'u datblygu gyda chymunedau Cymru.

#### Gwawr / Dawn gan Zillah Bowes

Mae'r artist Zillah Bowes wedi creu gwaith celf digidol newydd ar gyfer Agoriad Swyddogol y Chweched Senedd yn 2021. Mae'n cynnwys hen ffotograffau o bobl o bob cwr o Gymru, ynghyd â thirluniau, wedi'u cymryd cyn i'r haul godi, ac wedyn.

Mae Zillah Bowes yn artist amlddisgyblaeth sy'n creu darnau o waith ym meysydd ffilm, ffotograffiaeth a barddoniaeth. Mae ei gwaith wedi cael ei ddangos yn fyd-eang mewn llawer o ffyrdd, gan gynnwys mewn sinema, ar y teledu, ar-lein neu mewn orielau.

#### Windrush Cymru: dathlu bywydau a siwrneiau cenhedlaeth

Gwnaethom gydweithio â Race Council Cymru ac Amgueddfa Cymru i gynnal arddangosfa yn portreadu straeon Cenhedlaeth Windrush yng Nghymru, yn eu geiriau eu hunain.

Cawsom ein hanrhydeddu gan ymweliad 12 o Aelodau Hŷn Cenhedlaeth Windrush yng Nghymru a ddaeth ynghyd i weld yr arddangosfa yn y Senedd gyda'u teuluoedd a churaduron o'r Amgueddfa Genedlaethol.

Yn ystod eu hymweliad fe ddywedon nhw:

> *"Roedd yn achlysur gwych i gael ein cydnabod yn y Senedd fel pobol sydd wedi dod i Gymru i ymdoddi a gwneud cyfraniad."*

Gwnaethant rannu eu barn ar yr arddangosfa mewn fideo[14] a gafodd ei arddangos ar ein gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr arddangosfa yn yr adeilad a'r arddangosfa ar-lein yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr.

Rhannwyd cynnwys arddangosfa Windrush hefyd ar-lein drwy'r wefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ymweliad yn ystod cyfnod arddangosfa rhwng Hydref 2021 a Chwefror 2022. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a edrychodd ar gynnwys o'r tudalennau 'Ymweld â'r Senedd' yn ystod dyddiadau'r arddangosfa

[14]https://senedd.cymru/ymweld-a-ni/arddangosfeydd/windrush-cymru-dathlu-bywydau-a-siwrneiau-cenhedlaeth/





gyda chyfanswm o 514,188 wedi ymweld rhwng mis Medi a Rhagfyr (cynnydd o 568% o'i gymharu â 1 Mai 2021 – 31 Awst 2021).

#### Undo Things Done gan Sean Edwards

Ym mis Gorffennaf ac Awst 2021 cynhaliwyd cyflwyniad clo Undo Things Done, sef comisiwn arddangosfa Sean Edwards ar gyfer Cymru yn Fenis[15] 2019.

Comisiynwyd Undo Things Done gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar achlysur yr 58fed Arddangosfa Gelf Ryngwladol - La Biennale di Venezia gyda'r partner arweiniol Tŷ Pawb, Wrecsam a Marie-Anne McQuay, y curadur gwadd.

Mae'r arddangosfa yn dechrau gyda phrofiad Edwards o dyfu i fyny ar ystâd gyngor yng Nghaerdydd yn yr 1980au; mae'n dal yr hyn y mae'n ei alw'n amod o 'beidio â disgwyl llawer' ac yn trosi hynny i iaith weledol gyffredin; un sy'n dwyn i gof ffordd o fyw sy'n gyfarwydd i nifer fawr o bobl. Fel rhan o'r cyflwyniad yn y Senedd, sy'n cynnwys cwiltiau Cymreig, printiau, cerflunwaith a ffilm, mae'r artist wedi ail-wampio Refrain, 2019. Daeth bron i 2,000 o ymwelwyr i'r arddangosfa.

#### Ymweliadau rhithwir

Yn ystod y pandemig, lansiodd y Tîm Ymgysylltu ag Ymwelwyr sesiynau rhithwir er mwyn parhau i gyrraedd pobl Cymru tra bod yr adeilad ar gau i'r cyhoedd. Mae'r sesiynau hyn wedi bod yn boblogaidd ac wedi ehangu cyrhaeddiad ein gweithgareddau ymgysylltu. O ganlyniad, mae'r Tîm wedi parhau i'w cynnal yn ogystal ag ymweliadau wyneb yn wyneb. Cynhaliodd y Tîm 82 o gyflwyniadau Cyflwyniad i'r Senedd ar-lein, a chymerodd 560 o bobl ran.

Dyma rywfaint o'r adborth gan y rhai oedd wedi cymryd rhan:

> *"Sesiwn addysgiadol iawn wedi'i chyflwyno gan rywun sydd â gwir angerdd am waith y Senedd."*

> *"Mae fy niddordeb yn yr hyn sy'n digwydd yn y Senedd wedi cynyddu'n aruthrol!"*

> *"Mae hon yn sesiwn wych ar gyfer grŵp Gwleidyddiaeth Safon Uwch gan ei bod yn ddiddorol iawn ac yn hynod ddefnyddiol. Yn benodol, roedd y sleidiau ar y refferenda yn dangos dadansoddiad daearyddol y bleidlais yn wych, ac roedd yr enghreifftiau penodol o (e.e. trethi, cerrig milltir, etholaethau a rhanbarthau, ffigurau cyllideb cydraddoldeb,*

[15]https://arts.wales/cy/fenis

*deisebau ac ati) mor ddefnyddiol i fyfyrwyr Safon Uwch. Roedd yr esboniad o'r FPTP [y cyntaf i'r felin] a systemau etholiadol Aelodau o'r Senedd yn glir iawn. Diolch i chi am sesiwn mor ddiddorol, wedi'i chyflwyno'n dda, yn glir ac yn llawn gwybodaeth."*

## Rhaglenni ymgysylltu

### Senedd Ieuenctid Cymru

Dechreuodd yr ymgyrch etholiadol i ethol Aelodau i ail Senedd Ieuenctid Cymru ar 2 Mehefin 2021, gyda'r etholiad yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd 2021.

Ar ddiwedd 2021, etholwyd 60 o aelodau newydd Senedd Ieuenctid Cymru, rhwng 11 a 18 oed, ar gyfer ail dymor o Senedd Ieuenctid Cymru.

O'r 60 aelod, etholwyd 40 i gynrychioli etholaethau daearyddol, gydag 20 arall yn cael eu henwebu gan sefydliadau ac elusennau. Bydd pob un yn gwasanaethu am dymor o ddwy flynedd.

O gymharu â'r ymgyrch etholiadol gyntaf, lle cafodd y rhan fwyaf o'r gwaith ymgysylltu ei gynnal wyneb yn wyneb, bu'n rhaid i'r Tîm Ymgysylltu addasu i raglen ymgysylltu ar-lein yn ystod y pandemig lle'r oedd gweithio gyda phartneriaid a defnyddio ein cysylltiadau ag ysgolion yn hollbwysig i sicrhau bod yr ail etholiad yn un llwyddiannus. Defnyddiwyd sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd fel Tik Tok i ehangu cyrhaeddiad ein hymgysylltiad â chynulleidfaoedd iau fel rhan o ymgyrch ddigidol ehangach.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf gyda phob un o 60 o Aelodau'r Senedd Ieuenctid yn rhithwir dros benwythnos 18-19 Chwefror 2022, dan gadeiryddiaeth y Llywydd, Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS. Pleidleisiodd yr Aelodau i flaenoriaethu'r themâu canlynol: Ein Hiechyd Meddwl a Lles, yr Hinsawdd a'r Amgylchedd ac Addysg a Chwricwlwm yr Ysgol. Byddant hefyd yn sicrhau bod gwaith ac argymhellion Senedd Ieuenctid gyntaf Cymru yn cael eu gweithredu.

### Ymgysylltu â dinasyddion

Ers dechrau'r Chweched Senedd, mae'r tîm Ymgysylltu â Dinasyddion wedi cefnogi 23 o ymchwiliadau pwyllgor.





Ymhlith yr uchafbwyntiau mae ymgysylltu ar gyfer:

- Ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i ddiffyg gyrwyr cerbydau nwyddau trwm[16]. Sicrhaodd cyfweliadau manwl gydag 16 o yrwyr cerbydau nwyddau trwm presennol a blaenorol fod profiad byw wedi helpu Aelodau yn y sesiynau tystiolaeth lafar ac wrth ddatblygu argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ei hadroddiad dilynol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022.
- Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i ofal plant a chyflogaeth rhieni.[17] Ym mis Tachwedd 2021, cynhaliwyd 10 grŵp ffocws a 2 gyfweliad un-i-un yn cynnwys 59 o gyfranogwyr o bob un o bum rhanbarth y Senedd. Helpodd y safbwyntiau a'r profiadau a rannwyd i lywio sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'i adroddiad dilynol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022.
- Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r ôl-groniad o ran amseroedd aros[18]. Hwylusodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion 13 o gyfweliadau a 2 grŵp ffocws. Helpodd canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu yr Aelodau yn eu sesiwn graffu ar waith y Gweinidog Iechyd, Prif Weithredwr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol.

### Addysg

Mae'r Tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc wedi cyflwyno dros 255 o sesiynau rhithwir gydag ysgolion, colegau a sefydliadau ieuenctid gan gyrraedd cynulleidfa o dros 32,000 o bobl ifanc, athrawon a gweithwyr proffesiynol yn y sector gwaith ieuenctid.

[16] https://busnes.senedd.cymru/documents/s121854/Diffyg%20gyrwyr%20cerbydau%20nwyddau%20trwm%20a%20phroblemau%20r%20gadwyn%20gyflenwi%20-%20Canfyddiadau%20o%20waith%20ymgysyll.pdf

[17] https://busnes.senedd.cymru/documents/s121398/Summary%20of%20engagement.pdf

[18] https://busnes.senedd.cymru/documents/s122418/Papur%206%20-%20adroddiad%20gan%20Dm%20Ymgysylltu%20a%20Dinasyddion%20y%20Senedd.pdf

Dyma rywfaint o'r adborth a ddaeth i law:

> *"Mae sgyrsiau fel y rhain yn amhrisiadwy gan eu bod yn ein galluogi i roi profiadau cyfoethog i'n myfyrwyr y tu hwnt i'r hyn y gellir ei ddarparu trwy eu hastudiaethau academaidd."*

> *"Ro'n i eisiau diolch i chi am y sesiwn wych heddiw. Roedd y plant wedi ymddiddori'n fawr ac fe wnaethon nhw adael yr ysgol y prynhawn yma yn llawn gwybodaeth a chwestiynau. Doedden nhw methu aros i ddweud wrth eu rhieni."*

> *"Fe wnaeth y disgyblion yn y ddau ddosbarth fwynhau'n fawr iawn, fel y gwnes i! Fe wnaethon ni ddysgu llawer a diolch am yr adnoddau."*

Mae rhai o uchafbwyntiau ymgysylltu'r Tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn cynnwys:

- Ymgyrch Pleidleisiau 16 - Trefnodd y Tîm sesiynau ar-lein diddorol ac addysgiadol ar gyfer pleidleiswyr am y tro cyntaf a llu o adnoddau ar-lein i ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid eu defnyddio'n annibynnol.

  *"Rwy'n hapus iawn eich bod wedi trafod popeth yr oedd angen i mi ei wybod ac rwy'n gwybod llawer mwy nawr am y Senedd a phleidleisio."*

- Digwyddiadau Etholiad ffug Pleidleisio 16 ar-lein – a roddodd gyfle i bobl ifanc o bob rhan o Gymru nodi materion sydd o bwys iddynt.

  *"Roedd yn gyfle gwych i allu siarad am bethau rydym wirionedd yn angerddol yn eu cylch ar lwyfan cenedlaethol a theimlo bod ein lleisiau yn cael eu clywed."*

  *"Roeddwn yn ddiolchgar iawn i'r Senedd am roi'r cyfle hwn i ni leisio ein barn, ac yn ddiolchgar iddynt am werthfawrogi a gwrando ar ein lleisiau."*

- Ail ymgyrch etholiadau Senedd Ieuenctid Cymru - lle roeddem yn canolbwyntio ar annog pobl ifanc o bob rhan o Gymru i sefyll fel ymgeiswyr a phleidleisio yn etholiadau mis Tachwedd.

  *"Rydych chi wedi ein hysbrydoli i feddwl pa mor bwysig yw newid gwleidyddol i bobl ifanc yng Nghymru, a allwn ni ddim aros i bleidleisio yn yr etholiad eleni!!*



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

- Mae'r Tîm wedi croesawu cyfleoedd i gefnogi gwaith pwyllgorau'r Senedd a'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion. Mae hyn wedi cynnwys cefnogi trafodaethau gyda phobl ifanc ynghylch gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

  *"Fe wnaeth y plant fwynhau cymaint ac roeddent wrth eu bodd yn cael bod yn rhan o'r sgwrs. Diolch yn fawr am roi'r cyfle arbennig hwn iddyn nhw."*

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn trafod sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi busnes y Senedd a sut rydym yn sicrhau ein bod yn eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

**Gwenyn y Pierhead, gwanwyn 2022**



## DEFNYDDIO ADNODDAU'N GYNALIADWY

### CYFRIFOLDEB AMGYLCHEDDOL

Dargyfeirio **100%** o wastraff o safleoedd tirlenwi am y **bedwaredd flwyddyn yn olynol**

Mae ein gwenyn wedi cynyddu eu cynhyrchiad mêl bron i **30%** eleni

## DYFARNIADAU AC ACHREDIADAU



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

## Adroddiad Gwaith i'r Dyfodol

Cychwynnodd y Bwrdd Gweithredol waith yn gynnar yn y pandemig i gasglu dysg a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol.  Yn ystod y flwyddyn gyntaf o Covid, roedd y gwaith hwn yn ymgysylltu'n eang ar draws y sefydliad i archwilio ffyrdd y gallai'r Comisiwn ddod yn fwy hyblyg, ymatebol a chynaliadwy i gefnogi ei nodau strategol.

Roedd y gwaith i'r Dyfodol yn cwmpasu ystod eang o feysydd ac mae'n rhoi cipolwg ar ddysg a myfyrdodau ar ddiwedd y Bumed Senedd. Mae'r Adroddiad yn cynnwys allbynnau'r gwahanol ymarferion ymgysylltu, ynghyd â chanfyddiadau'r trafodaethau, yr arolygon a'r gweithdai.

Mae'n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer gweledigaeth y sefydliad i'r dyfodol: sefydliad cynaliadwy, ymatebol a hyblyg sy'n diwallu anghenion busnes y Senedd gyda rhagoriaeth.

Cytunodd y Bwrdd Gweithredol ar yr Adroddiad ym mis Mai 2021 a'r camau gweithredu a argymhellir a fydd yn cael eu hystyried ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill y Comisiwn.

Ystyriwyd yr Adroddiad hefyd mewn cyfarfod cynnar o'r Comisiwn newydd, a ymatebodd yn gadarnhaol ac a oedd yn gefnogol i'r canfyddiadau a'r weledigaeth gyffredinol.

Ers hynny mae ffocws wedi troi at weithredu mewn dwy brif ffordd:

- roedd yr Adroddiad yn helpu i lywio rhaglen waith yr Adolygiad Capasiti gyda rhai camau gweithredu a argymhellwyd eisoes wedi'u cwblhau a sicrhau manteision i waith y Comisiwn;
- i'r tymor canolig mae'r gwaith hwn, ochr yn ochr â'r Adolygiad Capasiti (tudalen 90) ac anghenion llety'r Senedd yn y dyfodol, yn cael eu cyfuno mewn strategaeth Ffyrdd o Weithio a rhaglen gyflawni gysylltiedig.

Roedd Adroddiad Gwaith i'r Dyfodol yn caniatáu ar gyfer cydgrynhoi ymwybodol, gofalus o'r newid mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau'r effaith fwyaf a lleihau aflonyddwch, gan greu sefydliad sy'n gallu ymateb yn well i'r gofynion a roddir arno yn y blynyddoedd i ddod.

## Adolygiad Capasiti

Cychwynnwyd yr Adolygiad Capasiti yn 2021 i sicrhau y gall y Comisiwn barhau i gyflawni ei flaenoriaethau strategol mewn modd cynaliadwy yn ystod cyfnod o newid sylweddol. Mae ysgogwyr newid y Comisiwn yn niferus ac yn cynnwys:

- y Senedd yn tyfu fel Senedd fodern sy'n deddfu;
- gweithgarwch llywodraeth y DU yn newid y dirwedd gyfansoddiadol y mae'r Senedd yn gweithredu ynddi;
- rhaglen Diwygio'r Senedd newydd; a
- datblygu ffyrdd o weithio yn y dyfodol ar gyfer Aelodau a'r Comisiwn.

Roedd yr Adolygiad yn ceisio archwilio galw hysbys a disgwyliedig y Comisiwn yn y dyfodol, gan archwilio pa mor effeithlon ac effeithiol ydyw o ran darparu gwasanaethau i Aelodau a'r Senedd ac asesu'r cyfleoedd i fod yn fwyfwy effeithlon a chydnerth.

Roedd yr Adolygiad Capasiti nid yn unig yn nodi argymhellion a oedd yn mynd i'r afael â chapasiti ac effeithlonrwydd, ond hefyd argymhellion a fwriadwyd i helpu'r Comisiwn i greu golwg fwy traws-gorfforaethol o'r adnoddau presennol a'r galw yn y dyfodol. Gyda'r farn hon ar waith ar draws y sefydliad, bwriad argymhellion pellach oedd creu'r gallu i symud adnoddau'n hyblyg i'r llefydd lle'r oedd eu hangen fwyaf.

Cynhaliwyd yr Adolygiad ar ddechrau'r Chweched Senedd. Cynhaliwyd ymchwil bwrdd gwaith a dadansoddiad o ddata ochr yn ochr â chyfweliadau â phob Pennaeth Gwasanaeth ac ymgysylltu â Thîm Arwain y Comisiwn. Cafodd 12 o argymhellion craidd yr adolygiad eu grwpio o dan 3 thema:

- Cyflenwi gwasanaethau a staffio;
- Cynllunio a blaenoriaethu buddsoddiad; a
- Gwella cynhyrchiant.

Yn ogystal â'r argymhellion craidd hyn, gwnaed penderfyniadau i gyflwyno nifer o gamau gweithredu ar unwaith gan eu bod yn rhai brys. Roedd y rhain yn cynnwys adolygiad o gynllunio gwasanaethau, datblygu Cynllun Cyflawni Corfforaethol a chapasiti maes gwasanaeth TGCh i gynnal y galw am weithio digidol a hybrid (gyda phwysau uniongyrchol yn cael sylw).





Mae llawer o argymhellion yr Adolygiad Capasiti naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn berthnasol i uchelgeisiau gweithio ystwyth y Comisiwn a'r angen i'r Comisiwn ddiffinio ei ofynion adeiladau yn y dyfodol.

O ganlyniad, er bod argymhellion amser-gritigol yr Adolygiad eisoes yn cael eu cyflawni, cymeradwyodd y Comisiynwyr i blygu gweddill gweithgareddau'r Adolygiad Capasiti i strategaeth Ffyrdd o Weithio newydd. Bwriedir i'r strategaeth hon hefyd ymgorffori camau gweithredu Dyfodol Ystwyth y Comisiwn a'i anghenion adeiladau yn y dyfodol. Mae'r dull hwn yn cydnabod y berthynas gyd-ddibynnol rhwng sut mae'r Comisiwn yn gweithio a'r gofod y mae'n gweithio ynddo, a bydd yn sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i gael y buddion mwyaf posibl a'r gwerth gorau am arian cyhoeddus.





## Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-2022 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ein gwaith yn y maes hwn, ynghyd â data amrywiaeth gweithlu a recriwtio cysylltiedig, a'n data cyflog cyfartal, bwlch cyflog rhwng y rhywiau a bwlch cyflog ethnigrwydd.  Mae'r adroddiadau hyn ar gael drwy ein gwefan.

Mae cysyniadau amrywiaeth, cynhwysiant, lles a diogelwch yn parhau i fod yn ystyriaethau canolog wrth wneud penderfyniadau yn ein hymateb i addasu i'r heriau wrth i ni ddod allan o bandemig Covid-19, gan sicrhau ein bod yn cadw pobl ar ein hystâd a'r rhai sy'n gweithio o bell yn ddiogel tra bod busnes o ddydd i ddydd yn parhau a chynllun i ddefnyddio'r ystâd fwy ar sail sy'n ddiogel ac yn gynhwysol.

Mae rhai o uchafbwyntiau eleni yn cynnwys:

**Interniaeth Graddedig Ymlaen**

Eleni, rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Chymrodoriaeth Windsor i lansio rhaglen interniaeth newydd, o'r enw Ymlaen, sy'n cynnig pedwar cyfle i unigolion o gefndir lleiafrifoedd ethnig.

Rydym wedi ymrwymo i ddenu talent o ystod eang o gefndiroedd ac mae'n cydnabod gwerth adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru.  Bydd yr interniaid llwyddiannus wedi'u lleoli mewn pedwar gwasanaeth gwahanol – tîm Gwasanaethau'r Pwyllgorau, tîm y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol, tîm y Gwasanaeth Cyfathrebu a thîm y Gwasanaethau Ymgysylltu.

**Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Chweched Senedd**

Mae'r Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi casglu safbwyntiau amrywiaeth gan gwsmeriaid mewnol: staff, uwch reolwyr ac Aelodau o'r Senedd a'u staff i lywio amcanion amrywiaeth a chynhwysiant sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y Chweched Senedd.  Bydd yr amcanion drafft yn destun cyfnod o ymgynghori allanol i helpu i lunio strategaeth newydd y Comisiwn.

**Deall gofynion ein gweithlu**

Cynnwys gwybodaeth monitro amrywiaeth yn yr Arolwg Staff ac Arolygon Pwls Llesiant sy'n ein galluogi i gael gwell cipolwg o brofiadau gweithwyr â nodweddion gwahanol.

**Recriwtio a Dethol**

- Lle bo modd, rydym wedi hysbysebu ein rolau fel rhai ystwyth o ran lleoliad a phatrwm gwaith.
- Mewn partneriaeth strategol ag asiantaeth chwilio weithredol i amrywio'r doniau a'r paneli ar gyfer uwch benodiadau'r Comisiwn a phenodiadau cyhoeddus a'r Goron.
- Parhau i fonitro'r broses recriwtio a gwella'r cynllun asesu, creu strategaethau hysbysebu pwrpasol ar gyfer ymgyrchoedd, gwell amrywiaeth i baneli a disgrifiadau swydd/dyluniad pecynnau ymgeiswyr, oll gyda'r bwriad o ddenu'r ystod ehangaf o dalent.
- Cynnwys cwestiwn lleoliad daearyddol a chwestiynau amrywiaeth cefndir cymdeithasol-economaidd yn ein proses ymgeisio ac adrodd arnynt ochr yn ochr â'n canfyddiadau ehangach yn Adroddiad Monitro Amrywiaeth y Gweithlu a Recriwtio Comisiwn y Senedd.

**Gweithgarwch Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle**

Mae ein Rhwydweithiau wedi nodi dyddiadau allweddol yn y calendr amrywiaeth gyda chydweithwyr yn rhannu straeon personol ac yn creu cynnwys cyfryngau cymdeithasol i hybu ymwybyddiaeth o themâu sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant.

**Wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant Rithwir 2021**

Eleni ein thema oedd ein gwerthoedd craidd sefydliadol, sef Parch, Angerdd a Balchder.  Edrychwyd ar sut mae amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u hymwreiddio yng ngwaith y Senedd, y cynnydd a wnaed yn y Bumed Senedd ac edrychwn ymlaen at y gwaith sydd o'n blaenau yn y Chweched Senedd. Rhannwyd ystod o adnoddau diddorol yn ymdrin ag ystod eang o faterion a hunaniaethau croestoriadol.

**Diweddariad ar Bolisi Urddas a Pharch y Senedd**

Mae gweithgor traws-sefydliadol yn adolygu'r polisi presennol i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn glir i bobl ei ddefnyddio.





**Gweithio gyda Phartneriaid Strategol**

Mae Comisiwn y Senedd yn parhau i weithio gyda'n partneriaid strategol, gan gynnwys BITC Cymru ar hil a llesiant; Stonewall, Buddsoddwyr mewn Pobl a Working Families.  Rydym hefyd yn parhau i fod yn Gyflogwr Hyderus o ran Pobl Anabl, yn Senedd sy'n Gyfeillgar i Awtistiaeth ac yn Llofnodwr Siarter Hil yn y Gwaith.





# Cynaliadwyedd

Dyma flwyddyn gyntaf ein Strategaeth Carbon Niwtral newydd, ond nid yw wedi bod yn flwyddyn arferol o ran pobl yn yr adeiladau a'r defnydd o'n hystâd. Y llynedd, nodwyd sut yr oeddem wedi cyflawni prif nod ein strategaeth lleihau carbon flaenorol, hyd yn oed cyn i'r pandemig byd-eang daro. Yn yr ail flwyddyn o'r pandemig, mae'r defnydd o'r adeiladau wedi parhau'n isel ond wedi dechrau cynyddu'n araf wrth i gyfyngiadau leddfu ac mae canllawiau wedi caniatáu ar gyfer mwy o weithio mewn swyddfeydd lle bo hynny'n briodol. Mae gwaith y Senedd wedi parhau mewn fformat hybrid, gyda'r Aelodau'n gallu ymuno â dadleuon allweddol yn y Cyfarfod Llawn a sesiynau pwyllgor o bell – gan leihau'r defnydd o adnoddau yn y swyddfeydd a lleihau ein hôl troed teithio.

Wrth i fwy o staff ddychwelyd i'r adeiladau, digwyddiadau yn ailddechrau o ddifrif, a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn caniatáu ar gyfer gweithio naill ai gartref neu o swyddfa ganolog, rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'n cydweithwyr ac ymwelwyr gyrraedd cydbwysedd sy'n caniatáu i'w hanghenion gael eu diwallu tra hefyd yn diwallu anghenion y sefydliad. Rydym wedi dechrau gweithio ar wneud yr adeiladau hyd yn oed yn fwy effeithlon, gan wneud gweithio a theithio carbon isel mor hawdd â phosibl, a gwella capasiti bioamrywiaeth ein tiroedd ymhellach.

Mae ein gwaith amgylcheddol wedi parhau o dan faner system reoli wedi'i hardystio'n ffurfiol sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff a achredir gan UKAS yn ôl gofynion ISO14001. Mae'r crynodeb a ganlyn yn dangos uchafbwyntiau a data ystadegol, ond cyhoeddir rhagor o wybodaeth yn y prif Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd, sydd ar gael ar ein gwefan.

## Carbon

Ein hysgogydd mwyaf o bell ffordd nawr, yn enwedig o gofio bod y Senedd yn cydnabod yr Argyfwng Hinsawdd, yw ein hôl troed carbon. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd ein Strategaeth i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 (sydd ar gael ar ein gwefan[19]), ac mae gwaith eisoes wedi dechrau ar ei chamau gweithredu.

Pan luniwyd ein Strategaeth ar gyfer carbon, buom yn edrych ar y data ar gyfer y flwyddyn weithredu arferol ddiwethaf: 2019-20. Yn ystod y cyfnod hwn ein hôl troed carbon net oedd tua 1,150 tunnell o garbon (CO2e). Mae'r ffigwr yma i lawr i 849 tunnell eleni – gostyngiad o ychydig dros chwarter. O ystyried ein bod yn

[19] https://senedd.cymru/comisiwn/cynaliadwyedd/

anelu at haneru'r ffigur hwnnw fwy neu lai erbyn 2030 cyn ceisio gwrthbwyso'r allyriadau sy'n weddill, gellid ystyried ein bod ymhell ar y ffordd i gyrraedd ein nod.

Fodd bynnag, nid yw'r data hwn yn adrodd y stori gyfan, gan nad ydym yn dilyn y ffordd arferol o weithredu o hyd, gyda staff dim ond newydd ddychwelyd i'r ystâd, digwyddiadau yn dechrau ailddechrau, a'r ffordd o weithio i'r Senedd yn y dyfodol eto i gael ei sefydlu'n llawn. Er y bydd cynaliadwyedd yn sbardun ac yn amcan pwysig ar gyfer y ffordd y byddwn yn dychwelyd i'r swyddfa, rydym yn disgwyl i'r ffigur hwn godi, o leiaf nes bod y ffyrdd newydd o weithio wedi'u sefydlu a dulliau newydd o adrodd ar garbon wedi'u hymgorffori'n llawn.

## Ynni

Er y bydd ein gwenyn yn wynebu gaeaf ychydig yn fwynach eleni, roedd y gaeaf hirfaith blaenorol ym mis Ebrill a Mai 2021 yn oer iawn i ddechrau'r cyfnod. Roedd hyn, ynghyd â chynnydd bychan yn y defnydd o'r swyddfeydd, yn golygu bod y defnydd o nwy wedi cynyddu eleni, er bod y galw cyffredinol am wres (gan gynnwys biomas) yn dal i fod i lawr o gymharu â 2019-20. Mae arbedion effeithlonrwydd sy'n deillio o ymrwymiadau yn y Strategaeth Carbon Niwtral eisoes wedi dechrau. Yn ddiweddar rydym wedi cwblhau gwaith i barthau'r gwresogi yn Nhŷ Hywel; gan ein galluogi i deilwra'r cyflenwad gwres i weddu'n well i nifer y bobl yn yr adeiladau. Rydym hefyd wedi dechrau ar y prosiect i wella effeithlonrwydd y system rheoli adeiladau (BMS). Fodd bynnag, ni fyddwn yn gwireddu'r arbedion cysylltiedig o'r prosiectau hyn yn llawn tan y gaeaf nesaf.

Mae'r defnydd o drydan wedi codi ychydig eleni wrth i'r adeiladau gael eu defnyddio mwy, ond mae'r defnydd yn dal i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig. O ystyried ein defnydd o gontractau cyflenwi mwy hirdymor, rydym wedi cael ein hinswleiddio'n weddol dda rhag cynnydd mewn prisiau yn y farchnad ynni. Llwyddwyd i fanteisio ar gyfraddau ffafriol iawn eleni, a osodwyd ar gyfer y flwyddyn gyfan, diolch i gontract gyda Gwasanaethau Masnachol y Goron, drwy Lywodraeth Cymru. Mae cost gyffredinol nwy a thrydan felly wedi codi tua 10% eleni. Yn yr un modd, disgwylir i gontract y flwyddyn nesaf ein hamddiffyn rhag y cynnydd mewn prisiau digynsail yn y farchnad gyfanwerthu a welwyd yn hwyr yn 2021, gan fod y rhan fwyaf o'n hynni wedi'i brynu cyn y cynnydd hwn. Byddwn yn gweld cynnydd sylweddol mewn costau uned ar gyfer 2022-23, ond dim byd tebyg i'r hyn y gallem fod wedi'i weld heb i'r contractau hyn fod yn eu lle.

Yn ogystal â'r gwelliannau a grybwyllir uchod, mae ystâd dawelach eto eleni wedi golygu bod gwaith ehangach y Timau Cyfleusterau a TG wedi parhau ar gyflymder, gyda llawer ohono'n cynnig arbedion carbon yn y tymor hir. Mae mwy





o gyfleusterau cyfarfod hybrid wedi'u gosod, sy'n negyddu'r angen i deithio i'r swyddfa ar gyfer un neu ddau o gyfarfodydd y diwrnod yn unig. Rydym hefyd wedi parhau i gyflwyno goleuadau LED gyda mwy o ardaloedd cynllun agored bellach wedi'u goleuo gan LEDs, yn ogystal â swyddfeydd yr Aelodau.

## Dŵr, Gwastraff ac Adnoddau Eraill

Mae'r defnydd o ddŵr wedi cynyddu ychydig eleni ond mae'n dal i fod llawer is na'r defnydd yn y flwyddyn cyn y pandemig. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai staff yn dychwelyd i'r ystâd, yn ogystal â'r gofyniad i fflysio'r cyfleusterau dŵr o bryd i'w gilydd i leihau unrhyw risg o haint. Yn dilyn problemau yn y gorffennol gyda chywirdeb y mesurydd allanol, rydym yn parhau i gofnodi'r darlleniadau mesurydd mewnol. Fodd bynnag, mae'r ddau ffigur hyn bellach yn cyd-fynd; gan roi hyd yn oed mwy o hyder i ni yn ein data adrodd.

Mae cynhyrchu gwastraff ychydig yn llai na hanner y cynhyrchiad yn y flwyddyn cyn y pandemig. Mae cryn dipyn yn llai o staff ac ymwelwyr yn dod i'n hystâd wedi'i wrthbwyso ychydig gan rywfaint o waith sy'n parhau yn yr adeiladau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â chyfraniad PPE a gwastraff glanhau. Rydym yn parhau i ddargyfeirio pob gwastraff o safleoedd tirlenwi; sicrhau ei fod yn cael ei ailgylchu, ei gompostio, neu ei anfon i adfer ynni.

Mae defnydd papur i lawr eto eleni; i lawr mwy nag 20% o gymharu â'r nifer a oedd eisoes yn isel a ddefnyddiwyd y llynedd. Mae hyn yn adlewyrchu nid yn unig y niferoedd isel o staff yn y swyddfeydd, ond hefyd newid i atebolrwydd argraffu yn fewnol, yn ogystal â'r defnydd o argraffu 'dilyn fi' (caiff copïau ond eu cynhyrchu pan fydd aelod o staff yn sweipio ei gerdyn at beiriant ). At hynny, efallai bod y newidiadau ehangach yn y ffyrdd y mae pobl yn gweithio yn golygu nad yw pobl yn argraffu dogfennau yn awtomatig bellach ac yn hytrach eu bod yn eu darllen yn electronig.

Rydym yn parhau i gaffael nwyddau fel deunydd ysgrifennu a'n cyfleustodau drwy fframweithiau Llywodraeth Cymru a gydlynir yn ganolog. Mae staff cynaliadwyedd yn ymwneud â datblygu manylebau ac adolygiadau tendro ar gyfer pob contract mawr; sicrhau bod safonau fel Masnach Deg a'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) yn cael eu pennu lle bynnag y bo'n berthnasol. Rydym hefyd wedi bod yn gofyn yn ddiweddar i gyflenwyr ddechrau cyfrifo ôl troed carbon nwyddau, er mwyn ein helpu i gyfrifo ein hôl troed ein hunain yn fwy

cywir, yn ogystal â dechrau cynnwys gofynion economi gylchol[20] yn y manylebau lle y bo'n berthnasol.

### Teithio

Er bod y llynedd yn eithriadol, gyda gostyngiad o 90% mewn teithio, mae eleni yn dangos dychweliad araf i fwy o symud ymysg staff, ond mae'n dal i ddangos gostyngiad o 75% ar hawliadau milltiroedd blwyddyn arferol (tair blynedd ar gyfartaledd cyn y pandemig). Mae gwaith y Senedd wedi parhau i weithredu mewn fformat hybrid i raddau helaeth - o sesiynau yn y Cyfarfod Llawn i'r pwyllgorau a hyd at gyfarfodydd tîm staff y Comisiwn. Yn dilyn cyngor Llywodraeth Cymru, mae'r sefydliad wedi hyrwyddo patrwm gweithio mwy hyblyg, gyda theithiau nad ydynt yn hanfodol yn cael eu gwneud.

Er nad ydym eto wedi cynnal ein harolwg teithio bob dwy flynedd nesaf i gael data mwy cywir, rydym wedi gweld nifer cyffredinol y cymudwyr yn lleihau'n sylweddol, gyda llawer llai o feiciau yn y cyfleusterau storio a nifer llawer is o geir yn parcio ar y safle. Pan fyddwn yn cynnal yr arolwg, byddwn yn gofyn i staff am yr hyn maent yn eu disgwyl o ran dychwelyd i gymudo; gan ein galluogi i adeiladu ôl troed carbon o'r effaith hon yn ogystal â sicrhau bod dulliau teithio llesol yn parhau i gael y cymorth sydd ei angen er mwyn eu gwneud yn ddewis poblogaidd.

Mae ein gwaith i gefnogi dulliau teithio llesol a chynaliadwy wedi parhau. Gan ragweld y newidiadau yn y galw ar ein cyfleusterau wrth i nifer uwch o staff ddychwelyd, rydym wedi cyflwyno ardal beiciau trydan newydd i'n hystâd yn y Bae - gan roi cyfle i ddefnyddwyr e-feiciau wefru yno cyn eu taith yn ôl. Rydym hefyd wedi bod yn cynllunio ar gyfer mwy o ddefnyddwyr cerbydau trydan (EV) a byddwn yn gosod mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar yr ystâd yn fuan, ac rydym wedi bod yn ymchwilio i gynllun aberthu cyflog i Aelodau a staff brydlesu cerbydau trydan.

### Bioamrywiaeth

Mewn ymateb i'r argyfwng natur, rydym wedi bod yn cynyddu ein hymdrechion o amgylch yr ystâd, i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth ar yr ychydig o dir sydd ar gael i ni. Mae ein Strategaeth Carbon Niwtral yn ymrwymo i ddyblu'r mannau gwyrdd ar yr ystâd, rhywbeth yr ydym wedi dechrau eleni gyda

[20] Mae economi gylchol yn fodel o gynhyrchu a defnyddio, sy'n cynnwys rhannu, prydlesu, ailddefnyddio, atgyweirio, adnewyddu ac ailgylchu deunyddiau a chynhyrchion presennol cyn belled ag y bo modd. Fel hyn, mae cylch bywyd cynhyrchion yn cael ei ymestyn.





chynnydd sylweddol yn ardal gardd Tŷ Hywel, gan ddefnyddio'r hyn a arferai fod yn ardal wedi'i gorchuddio â cherrig i ychwanegu planhigion newydd sy'n gyfeillgar i beillwyr ac ail bwll bach i gynnal infertebratau. Rydym hefyd yn ymchwilio i allu'r safle i gynnal draenogod, er mwyn helpu i leihau dirywiad yn nifer yr anifeiliaid hyn.

Mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a chyda chefnogaeth y Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy, Janet Finch-Saunders AS, rydym wedi cyflwyno ardal 'Gwesty Trychfilod' newydd i ardd Tŷ Hywel yn ddiweddar. Mae'n cynnwys blychau trychfilod i greaduriaid fel gwenyn unigol a phryfed cop i nythu a gaeafu ynddynt, yn ogystal â bod yn ardal lle gellir gadael boncyff coeden Nadolig y Senedd i fod yn gynefin i bryfed.

Mae prosiect Gwenyn y Pierhead wedi parhau drwy gydol y pandemig ac mae'r cnwd mêl cyffredinol wedi cynyddu eto eleni. Heb dynnu dim o'r trydydd cwch gwenyn newydd, cynyddodd y ddau arall eu cynhyrchiant mêl bron i 30% eleni.

### Effeithiau eraill

Mae ein Strategaeth Carbon Niwtral yn cynnwys mesurau megis systemau solar ffotofoltäig sy'n darparu amddiffyniad pellach rhag dyfodol amgylcheddol ansicr. Rydym eisoes wedi dechrau gweithio ar yr astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer systemau solar, yn ogystal â chynnal gwaith arall i addasu'r adeiladau ar gyfer digwyddiadau tywydd mwy eithafol, gan gynnwys gwaith ar do'r Senedd.

Mae ein hystâd mewn lleoliad trefol, ac nid yw ein gweithgareddau i'w chynnal yn effeithio'n uniongyrchol ar ardaloedd gwledig. Un effaith fach, gadarnhaol y gellid ei dehongli fel un sy'n effeithio ar fywyd gwledig yw ein bod yn prynu cymaint o'r cyflenwadau bwyd ar gyfer ein gwasanaeth arlwyo o Gymru ac annog y defnydd o gynnyrch gan gyflenwyr bach a chanolig eu maint.



| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** [21][22][23] | | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e) | Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas[24] | 297 | 239 | 236 | 234 | 213 |
| | Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas[25] | 955 | 732 | 643 | 438 | 465 |
| | Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas[26] | 390 | 316 | 272 | 93 | 124[27] |
| | Cyfanswm yr allyriadau y tu hwnt i'r cwmpas | 5.3 | 7.4 | 6.0 | 4.8 | 4.3 |
| | Cyfanswm yr allyriadau crynswth | 1,659 | 1,304 | 1,156 | 752 | 858 |
| | Cyfanswm yr allyriadau net | 1,654 | 1,296 | 1,150 | 748 | 849 |
| Gwariant ar wrthbwysiadau ardystiedig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Gwariant Crynswth yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |

[21] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.

[22] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.

[23] Eithriwyd teithio AS a Staff Cymorth AS rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

[24] Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010 tan iddi ddod i ben ym mis Mehefin 2018.

[25] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.

[26] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.

[27] Eithriwyd teithio AS a Staff Cymorth AS rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.





| **Y Defnydd o Ynni** [28] [29] | | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (kwh) | Trydan (tariff adnewyddadwy o 2018) | 2,602,054 | 2,647,115 | 2,596,810 | 1,944,436 | 2,179,254 |
| | Nwy | 1,452,075 | 1,314,772 | 1,289,334 | 1,282,969 | 1,352,857 |
| | Biomas (adnewyddadwy) | 409,770 | 492,420 | 404,690 | 285,215 | 275,885 |
| | Galw am wres cyfun | 1,861,845 | 1,807,192 | 1,694,024 | 1,568,184 | 1,628,742 |
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e) | Cyfanswm yr allyriadau ynni | 1,363 | 1,066 | 962 | 734 | 800 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Cyfanswm y gwariant ar ynni | 431,187 | 467,404 | 521,093 | 406,650 | 424,857 |

[28] Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010 tan iddi ddod i ben ym mis Mehefin 2018.

[29] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.

| Gwastraff | | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli)** | Cyfanswm y gwastraff | 142 | 128 | 103 | 59 | 50 |
| | Ailgylchu / Adfer | 138 | 124 | 104 | 59 | 49 |
| | Adfer Ynni | 4.04 | 4.07 | 43.0 | 41.0 | 23 |
| | Tirlenwi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 17.0 | 17.0 | 17.5 | 2.4 | 1.9 |
| | Gwastraff peryglus | 0.4 | 0.3 | 0.2 | 0.02 | 0.14 |
| | Papur a brynwyd (cyfateb i A4 miliwn o ddalennau) | 2.92 | 2.73 | 2.33 | 0.86 | 0.65 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | Gwariant ar waredu gwastraff | 33,008 | 39,749 | 27,025 | 5,445 | 15,206 |





| Y defnydd o ddŵr | | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (m3)** | Y dŵr a gyflenwyd (uniongyrchol) | 4,158 | 6,064 | 6,281 | 1,642 | 2,326 |
| | Y dŵr a gasglwyd (anuniongyrchol) | 578 | 542 | 515 | 144 | 231 |
| | Tynnu dŵr (anuniongyrchol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | Gwariant ar gyflenwad a charthffosiaeth | 15,424 | 12,189 | 18,065 | 10,499 | 11,387 |

| Teithio Swyddogol [30] [31] | | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd)** | Teithio ar fusnes | 724,400 | 732,235 | 754,431 | 70,112 | 184,005[32] |
| | Cerbydau y mae'r Cynulliad yn berchen arnynt, a cherbydau wedi'u llogi | 16,512 | 16,705 | 13,003 | 913 | 4,153 |
| **Dangosyddion Ariannol (£)** | Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol | 337,805 | 301,200 | 300,920 | 31,999 | 84,272[33] |

[30] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.

[31] Eithriwyd teithio AS a Staff Cymorth AS rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

[32] Eithriwyd teithio AS a Staff Cymorth AS rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

[33] Eithriwyd teithio AS a Staff Cymorth AS rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Rydym hefyd yn defnyddio ffactorau trosi DEFRA ar gyfer 2021 ar gyfer ffigurau cyfwerth carbon deuocsid (CO2e). Mae $CO_2$e yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol. Caiff allyriadau eu nodi ar sail rheolaeth ariannol ac maent yn berthnasol i'r ystâd weinyddol graidd yn unig.

Gellir gweld crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol yn Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd y Senedd, sydd ar gael ar ein gwefan.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 30 Mehefin 2022**



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

# Atebolrwydd



# Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan y Prif Weithredwr a Chlerc a hynny fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â rheolau'r Trysorlys, yn cynnwys gwybodaeth am daliadau uwch-reolwyr a'r drefn archwilio.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Y Comisiynwyr a deiliaid swyddi eraill

Mae gwybodaeth am y Llywydd a'r Comisiynwyr i'w chael ar dudalennau 14 – 17.

### Cynghorwyr Annibynnol

Mae gwybodaeth am y Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau Pwyllgorau Annibynnol i'w chael ar dudalennau 18 – 19.

### Yr uwch-reolwyr

Mae gwybodaeth am gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a Chlerc a'r uwch-reolwyr o ran cyfarwyddo prif weithgareddau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn i'w chael ar dudalennau 22 – 23.

### Buddiannau sylweddol sydd gan yr Aelodau

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn **www.senedd.cymru** a **www.senedd.wales**.

### Digwyddiadau yn ymwneud â data personol

Nid oedd unrhyw achosion o golli data personol lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Roedd chwe achos o dorri rheolau data personol wedi'u hadrodd yn fewnol, a gafodd eu hymchwilio a'u rheoli'n fewnol. Barnwyd bod y tebygolrwydd o niwed neu ofid i destun y data ym mhob achos yn isel, felly nid oedd angen cymryd camau pellach.





### Amrywiaeth, Cynhwysiant ac Ymgysylltu â Staff

Gellir gweld gwybodaeth am bolisïau a gweithgareddau'r Comisiwn yn ymwneud ag amrywiaeth, cynhwysiant ac ymgysylltu â staff yn yr Adroddiad Taliadau (tudalen 137 hyd 155).

### Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio cyfrifon Comisiwn y Senedd. Mae'r Adroddiad Archwilio i'w chael ar dudalen 162. Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £59,987 (2020-21, £57,958). Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2021-22 (2020-21, dim).

### Datgelu gwybodaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyn belled ag y gwn:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

### Y Cyfarwyddyd o ran Cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon a geir rhwng tudalenau 156 a 173 yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi a cheir nodiadau esboniadol i gyd-fynd â hwy. Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae gwybodaeth am y Senedd a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Senedd: **www.senedd.wales** a **www.senedd.cymru**.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 30 Mehefin 2022**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, drwy rinwedd Adran 138 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.  Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau. Maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn ac alldro ei adnoddau net; yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion; datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr; datganiad o'r sefyllfa ariannol; llif arian, a datganiad o'r newidiadau i ecwiti trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi o ran cyfrifon;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu priodol;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw amrywiadau perthnasol a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.





Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn Memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad:  30 Mehefin 2022**

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi ar ba sail y sefydlwyd Comisiwn, sut y caiff ei lywodraethu a'i reoli, a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud. Mae'n amlinellu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Comisiwn o ran cyflawni ei nodau strategol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

## Y fframwaith llywodraethu

O dan delerau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc (y Prif Weithredwr), yn ddarostyngedig i rai eithriadau ac amodau. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau llywodraethu i alluogi'r Comisiwn i weithredu'n effeithiol er mwyn cyflawni ei nodau a blaenoriaethau strategol.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y strwythurau, systemau, prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Comisiwn. Mae'n diffinio perthnasoedd, atebolrwydd, a chyfrifoldebau ymhlith y rhai sy'n gweithio yn y sefydliad a gydag ef, yn penderfynu ar y rheolau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i bennu nodau, blaenoriaethau ac amcanion y Comisiwn, ac yn darparu'r dull o gyflawni'r amcanion hynny ac o fonitro perfformiad. Mae'r fframwaith yn ymdrin â meysydd fel: egwyddorion llywodraethu, cynllunio strategol a gweithredol; rheoli risg a pherfformiad; llywodraethu gwybodaeth; rheolau a gweithdrefnau caffael; rheolaeth ariannol; archwilio; a sicrwydd. Mae gennym bolisïau a chodau ymddygiad corfforaethol sy'n sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y Comisiwn, neu gyda'r sefydliad, yn ymwybodol o'r angen i weithredu'n unol â'r safonau llywodraethu uchaf. Mae hyn yn cynnwys polisïau ar urddas a pharch, twyll, llygredd a llwgrwobrwyo, a chwythu'r chwiban.





## Cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu

Yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, gwnaeth y Comisiwn fabwysiadu a diweddaru set o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol[34] sy'n cyd-fynd â chodau ymarfer Trysorlys EM a'r Cyngor Adrodd Ariannol a'r Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus. Mae egwyddorion arweinyddiaeth, effeithiolrwydd, atebolrwydd a chynaliadwyedd yn ganolog i'n dulliau gweithredu fel y dangosir drwy gydol y datganiad hwn. Mae adran *Sicrwydd* y datganiad hwn (tudalen 129) yn disgrifio sut y casglwyd tystiolaeth o'r gydymffurfiaeth hon drwy Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn, sy'n cynnwys datganiadau sicrwydd gan uwch reolwyr.

## Strwythur llywodraethu

### Y Comisiwn

Y Comisiwn yw'r corff corfforaethol sy'n gyfrifol am sicrhau bod eiddo, staff a gwasanaethau'n cael eu darparu er mwyn i'r Senedd weithredu'n effeithiol. Mae'n cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Comisiynydd. Yn dilyn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, cafodd y Llywydd ei hail-ethol a phenodwyd neu ailbenodwyd Comisiynwyr newydd gan y Senedd i ffurfio'r Comisiwn newydd. Mae rhagor o wybodaeth am y Llywydd a'r Comisiynwyr wedi'i chynnwys yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ("yr Adroddiad Blynyddol") (tudalennau 14-17).

Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn yw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, sy'n atebol i'r Comisiynwyr am gyflawni ei nodau strategol a blaenoriaethau, ac mae'n atebol yn bersonol i'r Senedd am drefn ac ansawdd y gwaith rheoli yn y Comisiwn, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau. Cyflogeion y Comisiwn yw staff y Senedd.

### Pwyllgorau'r Comisiwn

Fel rhan o'r fframwaith llywodraethu, mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Phwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. Mae manylion am eu haelodaeth ar gael yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 20). Mae'r rhain yn gyrff cynghori annibynnol heb unrhyw bwerau gweithredol ac sy'n llunio eu Hadroddiadau Blynyddol eu hunain.

[34] https://senedd.cymru/comisiwn/egwyddorion-llywodraethu-a-darpariaethau-ategol/

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'n bodloni anghenion y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n canolbwyntio ar: adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys rhoi argymhellion ar waith; Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn; adroddiadau ar reoli risg, rheolaeth ariannol a phrosiectau mawr; a threfniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol. Ceir rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor drwy gydol y datganiad hwn ac ar ei dudalennau ar y rhyngrwyd[35].

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu yn gwneud argymhellion ar faterion ynghylch taliadau a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr a swyddi uwch eraill. Mae hyn yn cynorthwyo'r Comisiwn i sicrhau bod trefniadau tâl yn bodloni'r safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd am ddefnyddio arian cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynghori ar faterion sy'n gysylltiedig â dull strategol y Comisiwn o ymgysylltu a datblygu'r gweithlu.

### Arall

Y tu allan i fframwaith llywodraethu'r Comisiwn, mae Bwrdd Taliadau annibynnol hefyd sydd â swyddogaethau statudol i bennu'r cyflogau a'r cymorth ariannol arall sydd ar gael i'r Aelodau. Mae'r Bwrdd annibynnol hwn, sy'n cynhyrchu ac yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ei hun, hefyd wedi cyhoeddi ei Strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd[36] sy'n nodi ei diben a'i hegwyddorion arweiniol, yn ogystal â'i nodau ac amcanion strategol ar gyfer ei dymor. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 66).

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyfeiriad ac i oruchwylio'r modd y cyflawnir nodau, blaenoriaethau, ac amcanion strategol y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr. Mae'r ddirprwyaeth ffurfiol[37] yn amlinellu eithriadau a meysydd y mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr ymgynghori â'r Comisiwn arnynt. Mae hefyd system o awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth sy'n cwmpasu cyllid, staffio a chyfrifoldebau adnoddau eraill, megis caffael.

[35] https://senedd.cymru/comisiwn/pwyllgor-archwilio-a-sicrwydd-risg-comisiwn-y-senedd/
[36] https://bwrddtaliadau.cymru/media/ywenfywo/strategaeth-ar-gyfer-2021-26.pdf
[37] https://senedd.cymru/comisiwn/dirprwyo-swyddogaethau-comisiwn-y-senedd/



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

Mae gweinyddiaeth y Comisiwn wedi'i rhannu'n dair Cyfarwyddiaeth: Busnes; Adnoddau; a Chyfathrebu ac Ymgysylltu, ac mae eu Cyfarwyddwyr yn atebol i'r Prif Weithredwr. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn aelod o'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau, ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Cyfarwyddiaethau wedi'u hisrannu yn feysydd gwasanaeth, sy'n cael eu harwain gan y Penaethiaid Gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am y strwythur llywodraethu, gan gynnwys siart strwythur, yn adran Trefniadau Rheoli'r Comisiwn yn yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 24).

Ym mis Ionawr 2022, yn dilyn cystadleuaeth agored gadarn, penodwyd Cyfarwyddwr Adnoddau newydd i gymryd lle'r Cyfarwyddwr blaenorol a adawodd y Comisiwn ar ôl ymddeol. Gwnaed trefniadau i sicrhau trosglwyddiad esmwyth.

Roedd recriwtio Cyfarwyddwr Adnoddau newydd, a'r Adolygiad Capasiti diweddaraf, yn gyfle i adolygu'r strwythur uwch er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben, yn enwedig o ystyried galwadau newydd am gymorth a darpariaeth fwy integredig. Arweiniodd hyn at ailstrwythuro ar draws y tair Cyfarwyddiaeth, a ddaeth i rym o fis Medi 2021 gyda'r newidiadau a ganlyn:

- symudodd y Gwasanaeth TGCh a Darlledu o Adnoddau i Gyfathrebu ac Ymgysylltu;
- symudodd y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau o Gyfathrebu ac Ymgysylltu i'r Gyfarwyddiaeth Fusnes; a
- symudodd y tîm Llywodraethu Gwybodaeth o Adnoddau i'r Gwasanaethau Cyfreithiol o fewn y Gyfarwyddiaeth Busnes.

Bwrdd Gweithredol y Comisiwn, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, yw'r corff penderfynu strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. Cefnogir hyn gan y Tîm Arweinyddiaeth, sy'n cynnwys aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a'r holl Benaethiaid Gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 25).

Yn ystod 2021-22, gwnaeth y Bwrdd Gweithredol barhau i fod â chyfrifoldeb gweithredol dros reoli ymateb parhaus y Comisiwn i bandemig COVID-19, gan uwchgyfeirio i'r Llywydd ar gyfer penderfyniadau gwleidyddol neu sylweddol i'w gwneud gan y Comisiwn neu'r Pwyllgor Busnes mewn perthynas â busnes y Senedd. Cytunwyd ar egwyddorion arweiniol mewn perthynas â pharhad busnes y Senedd a phresenoldeb ar ystâd y Senedd. Amlinellir rhagor o fanylion am sut y gweithiodd hyn yn ymarferol yn yr adran a ganlyn.

## Trefniadau llywodraethu ychwanegol yn ystod pandemig COVID-19

Mae'r trefniadau llywodraethu a roddwyd ar waith ar ddechrau'r pandemig wedi parhau i helpu i sicrhau penderfyniadau a chyfathrebu effeithiol ac amserol mewn perthynas â phenderfyniadau gyda staff, Aelodau o'r Senedd a'u staff, y cyfryngau, a'r cyhoedd.

Gwnaeth y grŵp Gwytnwch a Monitro Covid (CRAM), a sefydlwyd yn ystod 2020 i fonitro newidiadau i Reoliadau COVID-19 a'u heffaith, ac i adolygu asesiadau risg, barhau i gyfarfod yn wythnosol yn ystod 2021-22. Roedd y grŵp, a gaiff ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Adnoddau, yn rhoi cyngor amser real i'r Bwrdd Gweithredol a llywiodd ddeialog gyson â'r Llywydd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig pan oedd angen penderfyniadau amserol gan y Comisiwn, Pwyllgor Busnes y Senedd, neu Fforwm y Cadeiryddion mewn ymatebion i newidiadau i Reoliadau COVID-19. Cymerir cofnodion o holl gyfarfodydd y grŵp Gwytnwch a Monitro Covid, caiff camau eu monitro'n gyson, a defnyddir system reoli fersiynau ar gyfer asesiadau risg corfforaethol ac asesiadau risg gweithgareddau penodol.

Roedd trefniadau ychwanegol a chynllunio helaeth hefyd yn effeithiol o ran rheoli darnau o waith ar wahân yr oedd angen dulliau gwahanol ar eu cyfer yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, gan gynnwys cyfnod diddymu byrrach, a gweithgareddau cysylltiedig i sicrhau proses bontio ddidrafferth i'r Chweched Senedd; ac etholiadau a gweithgarwch cynnar ail Senedd Ieuenctid Cymru. Mae manylion y ddau hyn wedi'u cynnwys yn yr adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalennau 32-106).

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran y pandemig wedi'i chyflwyno'n ffurfiol ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn. Mae'r Comisiwn hefyd wedi ystyried papurau manwl lle bu angen gwneud penderfyniadau megis: cynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r ystâd; opsiynau ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd; a ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

Mae myfyrdodau a gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig yn cyfrannu at yr adolygiad o'n trefniadau parhad busnes a'r gwaith o ddiweddaru cynlluniau ar lefel gwasanaethau ac ar lefel gorfforaethol.

Cafodd y myfyrdodau hyn, y gwersi a ddysgwyd a'r argymhellion ar gyfer ffyrdd o weithio yn y dyfodol eu hymgorffori mewn adroddiad a gyflwynwyd i'r Comisiwn. Mae'r gwaith o weithredu'r argymhellion yn cael ei reoli drwy strwythurau





llywodraethu rhaglen ffurfiol, fel yr amlinellir yn y *Adran cynnydd a pherfformiad* o'r datganiad hwn.

Rydym wedi cynnal safonau llywodraethu uchel drwy gydol y flwyddyn, ac mae gwaith i gydgysylltu gweithgarwch llywodraethu a sicrwydd wedi parhau heb darfu. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau sicrwydd gan Benaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr sydd wedi llywio'r datganiad llywodraethu hwn - ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran *Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol* yn y datganiad hwn.

## Cynllunio a mesur perfformiad

Cytunodd y Comisiwn newydd, a benodwyd yn dilyn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, ar ei nodau strategol a'i flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd yn un o'i gyfarfodydd cynnar. Mae hyn yn rhoi cyfeiriad ac wedi llywio gwaith cynllunio ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaethau. Amlinellir ein nodau a blaenoriaethau, ynghyd â gwerthoedd y Comisiwn, yn adran Datganiad o Ddiben yr Adroddiad Blynyddol.

Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd Gweithredol wedi rhoi arweiniad o ran nodi sut y caiff y nodau a'r blaenoriaethau eu cyflawni drwy gynllunio gwasanaethau'n effeithiol. Mae adolygiad mewnol o ddull y Comisiwn o wneud gwaith cynllunio corfforaethol a chynllunio ar lefel gwasanaethau, a ddechreuwyd gan yr Adolygiad Capasiti, wedi arwain at ddatblygu Cynllun Cyflawni Corfforaethol newydd. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder ynghylch sut a phryd y caiff y blaenoriaethau eu cyflawni, a chyfrifoldeb ac atebolrwydd am eu cyflawni. Ochr yn ochr â hyn, mae'r canllawiau a'r templedi ar gyfer cynlluniau gwasanaeth yn cael eu diweddaru.

Mae'r Tîm Arwain yn cynnal adolygiadau blynyddol a gwaith craffu ar Gynlluniau'r Cyfarwyddiaethau a Gwasanaethau sy'n helpu i sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer y galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar draws y Comisiwn. Caiff adnoddau eu trefnu o fewn ac ar draws cyfarwyddiaethau a meysydd gwasanaeth yn barhaus sy'n golygu y gellir symud staff yn gyflym mewn ymateb i flaenoriaethau a phwysau sy'n dod i'r amlwg.

Ymdrinnir â manylion y cynllunio sydd ei angen i ddarparu gweithgareddau penodol yn wahanol yn ystod y pandemig yn adran *Trefniadau llywodraethu ychwanegol yn ystod pandemig COVID-19* yn y datganiad hwn a hefyd yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalennau 32-106).

Mae'r Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol y Comisiwn yn cynnwys mesurau sy'n dangos perfformiad y Comisiwn ar draws gwasanaethau. Mae'r mesurau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Bwrdd Gweithredol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'n harferion gwaith ac yn parhau i fod yn addas at y diben. Ceir gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol y Comisiwn yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 35).

## Cynnydd a pherfformiad

Yn y Datganiad Llywodraethu y llynedd, nodwyd nifer o feysydd i ganolbwyntio arnynt a'u datblygu ac amlinellir cynnydd ar y rhain isod. Mae'r diweddariadau hyn yn cynnwys manylion yr effaith o ganlyniad i bandemig COVID-19.

### Gwerthuso'r gwersi a ddysgwyd ac effeithiau hirdymor pandemig COVID-19

Gwelwyd bod y trefniadau parhad busnes a roddwyd ar waith i gynnal busnes y Senedd yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig yn effeithiol a daethant yn drefniadau arferol yn ystod 2021-22, gyda rhai bellach yn nodwedd barhaol o'r trefniadau ar gyfer cyflawni busnes. Mae hyn yn cynnwys gweithio o bell, cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor rhithwir a hybrid, a phleidleisio electronig. Rydym wedi manteisio ar gyfleoedd i weithio'n wahanol ac yn fwy hyblyg, a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan gynnwys ffyrdd o gefnogi Aelodau i wireddu manteision democrataidd gweithio hybrid. Mae ein myfyrdodau yn sgil gweithredu yn yr amgylchedd hwn bellach yn cael eu defnyddio i lywio adolygiad o ddull y Comisiwn wrth ddatblygu cynlluniau parhad busnes ac maent yn rhan o'n dysgu ehangach o'r profiad o ymateb i'r pandemig.

Ym mis Mai 2021, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad o'r enw "Ffyrdd o weithio yn y dyfodol: Gwersi a chyfleoedd". Fe'i cymeradwywyd wedyn gan y Comisiwn a chafodd ei gyhoeddi'n fewnol. Llywiwyd yr adroddiad cynhwysfawr (118 o dudalennau) gan gyfres o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu eang, trafodaethau, arolygon a gweithdai. Mae'n ymgorffori myfyrdodau manwl ar wersi a ddysgwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig ac yn tynnu ar ddata allweddol a gwybodaeth asesu.

Mae'r cyfle i ddatblygu model gweithio hyblyg, ymatebol a chynaliadwy newydd, yn cael ei weithredu fel rhan o strategaeth "Ffyrdd o Weithio" newydd gyda strwythur llywodraethu rhaglen ffurfiol, fel yr amlinellir o dan y pennawd *Sicrhau llywodraethu effeithiol ynghylch newidiadau i ffyrdd o weithio* isod. Bydd hyn hefyd yn ymgorffori ein canfyddiadau o ail Adolygiad Capasiti y Comisiwn a





gynhaliwyd ar ddechrau'r Chweched Senedd. Mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld o dan y pennawd *Adolygiad Capasiti* isod ac yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 90).

Ochr yn ochr â hyn, comisiynodd a goruchwyliodd Cyfarwyddwr Busnes y Senedd adolygiad gweithredol mewnol o'r Gyfarwyddiaeth Fusnes. Nod y gwaith hwn oedd gweithio tuag at fodel cefnogi busnes cryfach er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau seneddol a chymorth busnes rhagorol sy'n gynaliadwy, yn hyblyg, yn ymatebol ac yn arbenigol. Wrth baratoi ar gyfer y Chweched Senedd, adolygwyd strwythurau gwasanaeth y Cyfarwyddiaethau, crëwyd rolau newydd a chychwynnwyd ymarfer cylchdroi staff i feithrin gallu, osgoi dibynnu ar unigolion allweddol, mynd i'r afael â chyfyngiadau gwydnwch a phwyntiau methiant critigol, a rhoi trefniadau cynllunio olyniaeth ar waith.

Mae adolygiad ffurfiol wedi'i gynnwys yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2022-23 a gymeradwywyd i ystyried effeithiolrwydd ymateb y Comisiwn i'r pandemig.

### Sicrhau llywodraethu effeithiol ynghylch newidiadau i ffyrdd o weithio

Fel yr amlinellwyd o dan bennawd *Gwerthuso'r gwersi a ddysgwyd ac effeithiau hirdymor pandemig COVID-19* uchod, yn ystod y flwyddyn rydym wedi integreiddio ffyrdd newydd o weithio - wyneb yn wyneb, hybrid a rhithwir, a'r gallu i newid yn gyflym rhwng y fformatau hyn, weithiau o wythnos i wythnos - i'n harferion, polisïau a gweithdrefnau, gan sicrhau parhad busnes y Senedd yn ystod y pandemig.

Amlinellir rôl grŵp Gwytnwch a Monitro Covid (CRAM) y Comisiwn yn adran *Trefniadau llywodraethu ychwanegol yn ystod pandemig COVID-19* o'r datganiad hwn. Mae'r grŵp, sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Adnoddau, wedi cynnal asesiadau parhaus o risgiau ynghylch gwahanol ffyrdd o weithio ac wedi sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd â chanllawiau'r Llywodraeth a chanllawiau iechyd y cyhoedd. Mae'r rhan ychwanegol hon o'n strwythur llywodraethu wedi hwyluso penderfyniadau amserol a gwybodus gan y Bwrdd Gweithredol, y Llywydd, y Comisiwn, y Pwyllgor Busnes, a Fforwm y Cadeiryddion.

Mae'r dull prosiect ffurfiol a fabwysiadwyd ar gyfer datblygu Adroddiad Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol, y cyfeirir ato yn adran *Trefniadau llywodraethu ychwanegol yn ystod pandemig COVID-19* uchod, yn cynnwys nifer o ffrydiau gwaith dan arweiniad uwch swyddogion a gydweithiodd i ddod â'r holl wybodaeth ynghyd. Roedd y dull hefyd yn cynnwys ymgynghori eang ac mae'r Adroddiad yn cynnwys yr allbynnau o'r amryw ymarferion ymgysylltu, a oedd yn cynnwys y Tîm Arwain, y

Bwrdd Gweithredol a’r Comisiwn, ynghyd â chanfyddiadau trafodaethau, arolygon a gweithdai.


Mae’r argymhellion yn Adroddiad Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol (fel y cyfeirir atynt o dan y *Gwerthuso’r gwersi a ddysgwyd ac effaith hirdymor pandemig COVID-19* pennawd uchod), yn cael ei symud ymlaen yn awr fel rhan o strategaeth “Ffyrdd o Weithio” gyffredinol a gymeradwywyd gan y Comisiwn ym mis Mawrth 2022. Bydd hyn yn hwyluso dull cydgysylltiedig o ymdrin ag anghenion y Senedd a’r Comisiwn yn y dyfodol ar gyfer swyddfeydd a seilwaith ym Mae Caerdydd a thu hwnt, a gwaith cynllunio’r gweithlu ar ôl y pandemig, gan ymgorffori’r Adolygiad Capasiti. Fe’i cynlluniwyd i fod yn gyfrwng allweddol ar gyfer cyflawni ymateb y Comisiwn i ofynion sy’n deillio o’r rhaglen arfaethedig ar gyfer diwygio’r Senedd. Ceir rhagor o fanylion amdani o dan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio’r Senedd yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 62).

Rheolir y broses gyflawni drwy strwythur llywodraethu rhaglen ffurfiol, fel yr amlinellir yn y diagram isod, gyda'r Comisiwn a'r Bwrdd Gweithredol yn gweithredu fel y cyrff sy’n gwneud penderfyniadau, y Cyfarwyddwr Adnoddau fel yr Uwch-swyddog Cyfrifol, a Thîm Arwain y Comisiwn a chynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur yn gweithredu fel y Grŵp Llywio. Bydd Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn cynnwys yr Uwch-swyddog Cyfrifol, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a swyddogion allweddol eraill, a grwpiau prosiect i gyflawni ffrydiau gwaith penodol o fewn y rhaglen gyffredinol. Bydd y broses o ddatblygu achosion busnes yn dilyn yr arferion gorau a amlinellir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Mae Cynllun Gweithredu Interim wedi'i ddatblygu i fwrw ymlaen yn gyflym â gwaith cychwynnol sydd â blaenoriaeth. Mae cofrestr risg a dogfennau llywodraethu eraill hefyd yn cael eu paratoi. Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn adrodd ar gynnydd i'r Comisiwn ym mhob un o'i gyfarfodydd yn y dyfodol.





Proses gyflawni a strwythur adrodd y Cynllun Gweithredu Interim Ffyrdd o Weithio




**Gwerthuso’r gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod pontio i'r Chweched Senedd, gan gynnwys effeithiolrwydd cynefino a hyfforddi, cyngor a chanllawiau’r Aelodau**

Ceir manylion ar weithgarwch sy’n gysylltiedig â’r etholiad a phontio i'r Chweched Senedd yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 57). Mae hyn yn cynnwys manylion am ymgyrch yr Etholiad, tyngu’r llw a gweithgareddau cynnar, cynefino a hyfforddiant ar gyfer Aelodau newydd ac Aelodau sy’n dychwelyd, ac agoriad swyddogol y Chweched Senedd. Mae’n cynnwys disgrifiad o’r heriau ychwanegol o ganlyniad i’r pandemig a sut y cafodd y rhain eu goresgyn, gan arwain at broses bontio lwyddiannus.

O ran llywodraethu, roedd cynllunio cynnar, sefydlu gweithgorau a chynllunio senarios, a chydgysylltydd penodol ar gyfer y prosiect wedi bod yn ffactorau allweddol ar gyfer cyflawni'n llwyddiannus. Roedd y gwaith paratoi yn cynnwys cynllunio wrth gefn ar gyfer etholiadau’r Senedd, croesawu Aelodau a staff

newydd, a chynnal busnes Senedd newydd mewn modd diogel o ran COVID-19. Cefnogwyd y broses o wneud penderfyniadau gwleidyddol mewn perthynas ag ethol deiliaid swyddi a strwythur pwyllgorau'r Senedd, a gododd faterion newydd a dadleuol oherwydd cyfansoddiad gwleidyddol y Senedd newydd, gyda llai na phedwar grŵp am y tro cyntaf. Roedd y gwaith cynllunio a pharatoi hwn wedi hwyluso cyngor ac arweiniad amserol ynghylch diddymu, darparu rhaglen gynefino a gafodd groeso brwd, a chymorth ar gyfer busnes cynnar.

Mae cofnodion o'r dull a ddefnyddiwyd, themâu ar gyfer ffrydiau gwaith ac agweddau eraill ar y cyfnod pontio wedi'u cadw er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol. Mae'r meysydd gwaith wedi cynnal gwerthusiad o'u gwaith, a oedd yn cynnwys trafodaeth ar draws arweinwyr y meysydd, ac wedi cynhyrchu dogfennau gwersi a ddysgwyd ac adroddiadau.

Bydd yr adroddiadau a'r dogfennau hyn, ynghyd ag adborth o'r arolwg o Aelodau a'u staff, i gyd ar gael i lywio'r cynlluniau ar gyfer y dull ar gyfer etholiad cyffredinol nesaf Cymru, ac ar gyfer cyflawni'r gwahanol elfennau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyfnod pontio llwyddiannus. Mae'r wybodaeth wedi'i chofnodi mewn ffordd sy'n esbonio'r cyd-destun yr oeddem yn gweithio ynddo (h.y. y pandemig) fel y gellir gwneud dyfarniadau ar sail amgylchiadau'r dyfodol.

Cafodd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn ddiweddariad cynhwysfawr ar yr Etholiad a'r broses o bontio i'r Chweched Senedd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2021. Cyflwynwyd adroddiad manwl i'r Pwyllgor hefyd ym mis Tachwedd 2021 yn amlinellu'r gwaith o reoli'r cyfnod pontio a'r gwersi a ddysgwyd o'r gwahanol feysydd gwaith.

Mae'r adran Proffil Risg yn yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 45) yn amlinellu gwaith effeithiol i reoli risg mewn perthynas â'r posibilrwydd o symud dyddiad yr Etholiadau oherwydd y pandemig, a fyddai wedi cael goblygiadau sylweddol.

### Dod â'r adolygiad capasiti i ben a dechrau gweithredu'r argymhellion yng nghyd-destun cyfyngiadau posibl ar y gyllideb/cyllideb dynnach ar gyfer 2022-23

Gorffennodd yr Adolygiad Capasiti gam cyntaf ei waith a chyflwynodd adroddiad i Dîm Arwain a Bwrdd Gweithredol y Comisiwn yn ystod y flwyddyn. Mae rhai camau gweithredu a argymhellwyd wedi'u cwblhau eisoes, gan sicrhau manteision i waith y Comisiwn, yn enwedig o ran capasiti'r gweithlu a defnydd hyblyg o adnoddau. Mae rhagor o fanylion am yr Adolygiad Capasiti a'i argymhellion i'w gweld yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol





(tudalen 90). Bydd yr argymhellion sy'n weddill yn cael eu cyflawni fel rhan o'r strategaeth "Ffyrdd o Weithio" fel y'i hamlinellir o dan bennawd *Sicrhau llywodraethu effeithiol ynghylch newidiadau i ffyrdd o weithio* uchod.

Fel yr amlinellwyd yn adran *Cynllunio a rheoli perfformiad* yn y datganiad hwn, un o'r argymhellion a roddwyd ar waith oedd datblygu Cynllun Cyflawni Corfforaethol. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder ynghylch cyfrifoldeb, atebolrwydd ac amseriadau ar gyfer cyflawni nodau a blaenoriaethau a nodwyd gan y Comisiwn a bydd yn llywio gwaith cynllunio manwl ar gyfer gwasanaethau i sicrhau bod adnoddau (pobl ac arian) yn cael eu dyrannu'n briodol.

### Gwaith parhaus yn ymwneud â seiberddiogelwch

Drwy gydol y cyfnod o gyfyngiadau mewn perthynas â COVID-19, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y seiber-ymosodiadau ar y Senedd. Mae'r camau a gymerwyd yn flaenorol i ddiogelu ein seilwaith wedi parhau i ddiogelu'r sefydliad ac mae amddiffyniad pellach a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi galluogi'r sefydliad i gadw i fyny â'r bygythiad newidiol.

Nododd archwiliad seiberddiogelwch mewnol diweddar fod diwylliant cryf o fewn y Comisiwn i gefnogi seiber gydnerthedd. Mae hyn yn cynnwys: nodi risgiau seiberddiogelwch ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol; adroddiadau manwl rheolaidd ar y risg honno i Fwrdd Gweithredol y Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg; cymorth a chyllid ar gyfer adnoddau staff seiberddiogelwch arbenigol ychwanegol; cymeradwyo cyllid ar gyfer ail ganolfan ddata i wella gwydnwch; a ffocws ar sicrhau llinellau cyfathrebu effeithiol gyda staff ac Aelodau i'w hysbysu am y sefyllfa risg sy'n newid yn barhaus mewn perthynas â materion seiber.

Ceir rhagor o fanylion yn adran *Adnabod a rheoli risg* yn y datganiad hwn a hefyd yr adran Proffil Risg yn yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 45).

## Rheolaeth ariannol a pherfformiad

Mae ein hanes o reolaeth a pherfformiad ariannol cryf wedi parhau yn ystod y pandemig.

Bob blwyddyn, cynhelir cyfres o ymarferion i flaenoriaethu cynigion buddsoddi. Mae'r rhain yn rhoi eglurder i'r Bwrdd Gweithredol ynghylch y flaenraglen waith a'r galw am y gronfa prosiectau. Bob chwarter, caiff cyllidebau gwasanaethau a phrosiectau eu profi er mwyn sicrhau bod unrhyw newid yn lefel yr arian sydd ei angen yn cael ei nodi'n brydlon a, lle y bo'n briodol, y caiff arian ei ail-flaenoriaethu.

Mae ffocws o hyd ar fonitro goblygiadau ariannol y pandemig, o ran gwariant ychwanegol yn ogystal ag arbedion. Rhoddir adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn unol â'u cais.

Roedd Adroddiad Archwilio 2020-21 yn ddiamod eto. Gwnaeth Archwilio Cymru argymhelliad y dylid adolygu prosesau a fabwysiadwyd ar gyfer nodi asedau cyfalaf. Yn ystod 2021-22 mae'r tîm Cyllid wedi gweithio'n agos gydag Archwilio Cymru ar y mater hwn ac mae dull newydd wedi'i ddatblygu. Mae'r templed ar gyfer gwneud cais am gymorth ariannol ar gyfer cynigion buddsoddi wedi'i ddiwygio er mwyn casglu gwybodaeth berthnasol cyn gynted â phosibl. Rhoddwyd hyfforddiant ar y dull newydd i feysydd gwasanaeth.

Mae dyfyniad o adroddiad Craffu ar Gyfrifon 2020-21 gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ym mis Tachwedd 2021 yn nodi'r canlynol:

> *Bu'n flwyddyn heriol i Gomisiwn y Senedd wrth iddo barhau i addasu ei drefniadau gweithio yn ystod y pandemig byd-eang parhaus. Ar yr un pryd, roedd yn parhau i weithio tuag at gyrraedd ei nodau a thargedau corfforaethol, gan sicrhau bod iechyd a llesiant staff ymhlith ei flaenoriaethau pennaf. Rydym yn canmol Comisiwn y Senedd ar ei berfformiad yn ystod y 12 mis diwethaf wrth iddo ymdrechu am ragoriaeth o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y sector cyhoeddus...*
>
> *Rydym yn croesawu mwy o gyfathrebu a'r trefniadau llywodraethu cryfach sydd wedi galluogi'r Comisiwn i nodi materion a heriau sy'n dod i'r amlwg ac ymateb iddynt yn brydlon.*

Rydym wedi parhau i gael ein herio gan y Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch lefel adnoddau'r Comisiwn a defnydd ohonynt.

Mae'r tîm Cyllid wedi bod, a bydd yn parhau i fod, yn allweddol o ran datblygu opsiynau ar gyfer strategaeth cyllideb a'i chyflwyno yn y dyfodol. Mae'r Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid wedi croesawu'r newidiadau hyn sy'n cynorthwyo o ran dealltwriaeth ac yn gwella tryloywder.

Mae dyfyniad o'r adroddiad craffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref 2021 yn nodi:



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

> *Mae'r Pwyllgor wedi gwerthfawrogi'r ddarpariaeth o wybodaeth ariannol reolaidd sy'n nodi'r costau a'r arbedion y mae'r Comisiwn wedi'u hysgwyddo o ganlyniad i'r pandemig, megis y llythyr a ddarparwyd i'r Pwyllgor ym mis Mai 2021. Mae hyn yn arfer da ar adegau ariannol ansicr ac mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai dull o'r fath barhau, fel ei fod yn dod yn ymwybodol o unrhyw arbedion yn ystod y flwyddyn neu gostau ychwanegol cyn gynted â phosibl.*
>
> *Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y nifer o bethau ansicr y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hwynebu – er enghraifft sefydliadau cyhoeddus eraill – wrth bennu cyllidebau a chynlluniau ar gyfer 2022-23. At hynny, mae'n croesawu'r dull a gymerwyd gan y Comisiwn i sicrhau ystwythder o ran ei broses cynllunio ariannol, yn enwedig yn sgil yr ansicrwydd sylweddol a'r pwysau allanol y mae'n parhau i'w hwynebu.*

Ym mis Ebrill 2022, lansiwyd diweddariad i'r system gyllid. Cynhaliwyd cyfnod helaeth o brofion dros nifer o fisoedd. Mae'r fersiwn diweddaraf yn fwy ymarferol a bydd yn ei gwneud yn bosibl gwella a/neu symleiddio llawer o'r prosesau presennol. Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn wedi cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y prosiect uwchraddio systemau, gyda ffocws penodol ar reoli risg. Mae'r tîm Cyllid wedi cynnal ymarfer dilysu i sicrhau bod y balansiau wedi cael eu mudo yn briodol ac yn gywir o'r hen system i'r system newydd, yn fuan ar ôl mynd yn fyw. Caiff hyn ei ddilysu ymhellach a'i adolygu gan archwilio mewnol yn ystod 2022-23..

Un o rolau allweddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn yw adolygu cyfrifon y Comisiwn ac argymell y dylid eu cymeradwyo. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael gwybodaeth am ein sefyllfa ariannol ym mhob cyfarfod a chaiff gwybodaeth megis adroddiadau ar waith craffu gan Bwyllgorau'r Senedd (fel y nodir uchod) ac ymatebion y Comisiwn eu rhannu ag aelodau'r Pwyllgor mewn amser real.

## Nodi a rheoli risg

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi, blaenoriaethu a rheoli'n effeithiol y risgiau i gyflawni nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn, ynghyd â chydymffurfiaeth â deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau.

Mae risgiau mwyaf sylweddol y Comisiwn wedi'u cofnodi mewn Cofrestr Risg Gorfforaethol. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn berchen ar y cyd ar y risgiau corfforaethol hyn, ac maent yn cael eu rheoli a'u monitro'n rheolaidd gan y

Cyfarwyddwr perthnasol a'i Benaethiaid Gwasanaeth. Caiff y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei hadolygu yn ei chyfanrwydd gan y Bwrdd Gweithredol bob chwarter er mwyn sicrhau bod y rheolaethau'n ddigonol a bod cynnydd yn cael ei wneud ar gamau pellach i wella'r rheolaethau. Mae hyn yn cynnwys edrych i'r dyfodol am risgiau newydd neu risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Yn ogystal â hyn, caiff risgiau eu cofnodi, eu rheoli a'u monitro ar lefel gwasanaeth, ac mae Penaethiaid Gwasanaeth yn darparu adroddiadau chwarterol i'w Cyfarwyddwyr yn amlinellu newidiadau a manylion unrhyw risgiau newydd neu risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn yn rhoi cyfle i Gyfarwyddwyr herio'r risgiau a phenderfynu a ddylid uwchgyfeirio unrhyw rai a'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r adroddiadau'n rhoi'r sail ar gyfer yr adolygiad risg chwarterol gan y Bwrdd Gweithredol. Adroddir ar risgiau sy'n gysylltiedig â rhaglenni a phrosiectau i'r Bwrdd Gweithredol bob mis.

Drwy gyfnod ansicr, ac mewn ymateb i'r pandemig, mae ffocws ar asesu risg effeithiol wedi bod yn agwedd bwysig ar sicrhau ein bod wedi parhau i symud ymlaen mewn sefyllfa newidiol o ran Rheoliadau COVID-19 Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi helpu i ymgorffori mwy o ffocws ar asesu risg ar draws pob maes gwasanaeth, yn enwedig o ran cynllunio a sicrhau iechyd a diogelwch Aelodau, staff y Comisiwn ac eraill wrth gynllunio ar gyfer dychwelyd yn raddol i gynnal busnes y Senedd a digwyddiadau eraill ar ystâd y Senedd.

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn wedi cynnal trosolwg o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg ac wedi croesawu'r asesu parhaus ac amlygrwydd risg, natur ddeinamig y gofrestr risgiau, a'r ffocws ar newid ac ansicrwydd. Mae'n cynnal adolygiadau o risgiau corfforaethol yn ei gyfarfodydd ac yn dewis risgiau penodol i'w hasesu'n fanwl.

Un maes y mae'r Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio arno yw seiberddiogelwch, gan gynnig her annibynnol ar gyfer y gwaith a wnawn, y buddsoddiadau a wnawn, a'r wybodaeth a ddatblygwn i ddiogelu'r Senedd rhag seiber-ymosodiadau ac ymosodiadau atal gwasanaeth. Yn ogystal ag adolygu diweddariadau manwl ar y risg gorfforaethol ym mhob cyfarfod a chynnal adolygiadau manwl rheolaidd, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol blynyddol ar seiberddiogelwch. At hynny, mae uwch swyddogion TGCh yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn i roi diweddariadau pellach ac ymateb i waith craffu. Y gwaith diweddaraf sy'n rhoi sicrwydd yw'r archwiliad mewnol o drefniadau'r Comisiwn ar gyfer cadw copi wrth gefn a gwydnwch seiberddiogelwch a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2022. Ceir rhagor o fanylion am ein gwaith parhaus ynghylch seiberddiogelwch yn adran *Cynnydd a pherfformiad* y datganiad hwn.

Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â rhaglen waith i symleiddio fframwaith rheoleiddio'r Aelodau, sy'n cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd, y Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd, y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol, a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig, yn cael eu rheoli fel risg gorfforaethol.

Mae manylion proffil risg y Comisiwn a sut mae hyn wedi newid dros y flwyddyn i'w gweld o dan Proffil Risg yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 45).

## Sicrwydd

### Fframwaith Sicrwydd

Mae Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn wedi parhau i gynnig dull effeithiol o gasglu tystiolaeth ar lefelau sicrwydd. Yn seiliedig ar y model tair llinell amddiffyn sydd wedi cael ei fabwysiadu'n eang, mae'r fframwaith yn cynnig dull strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'n helpu i asesu cryfder ein rheolaethau mewnol, gyda phob maes gwasanaeth yn mapio eu lefelau sicrwydd. Caiff y mapiau hyn, ynghyd â dulliau i brofi ymwybyddiaeth staff, eu defnyddio i lywio datganiadau sicrwydd ar lefel gwasanaethau, sy'n cael eu hadolygu gan Gyfarwyddwyr. Mae pob Cyfarwyddwr hefyd yn cynhyrchu datganiad sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu lywio'r Datganiad Llywodraethu hwn. Mae Cadeirydd ac aelodau annibynnol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn yn craffu'n fanwl ac yn herio datganiadau sicrwydd a'r broses ar gyfer casglu tystiolaeth o sicrwydd, sy'n ychwanegu haen arall o sicrwydd.

Cynhelir cyfarfodydd rhwng y tîm Llywodraethu a Sicrwydd a Phenaethiaid Gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn ac, ochr yn ochr â'r ymarfer datganiad sicrwydd, maent yn helpu i nodi unrhyw feysydd lle mae angen ffocws, gwaith codi ymwybyddiaeth, neu hyfforddiant pellach. Rhoddir sylw i hyn wedyn drwy sesiynau briffio neu hyfforddiant pellach wedi'u targedu, a ddarperir gan y tîm Llywodraethu a Sicrwydd.

Mae hyn i gyd yn rhoi hyder bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu deall yn dda a'u cymhwyso ar draws y Comisiwn a bod unrhyw feysydd o wendid cymharol yn cael sylw.

Ceir rhagor o fanylion am y lefelau sicrwydd yn adran *Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol* y datganiad hwn.

### Archwilio mewnol

Yn ei rôl fel Pennaeth Archwilio Mewnol, mae Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd y Comisiwn yn rhoi sicrwydd ar draws ystod o wasanaethau ac yn mynd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cynnal rhaglen lawn o adolygiadau yn ystod 2021-22, gan rhai a oedd yn destun oedi ers y flwyddyn flaenorol oherwydd y newid ffocws ar gyfer gwaith archwilio a sicrwydd mewn ymateb i'r pandemig. Yn ogystal â'r archwiliadau rheolaidd megis treuliau Aelodau a seiberddiogelwch, cynhaliwyd archwiliadau ychwanegol yn ymwneud ag Etholiad y Senedd ym mis Mai 2021, sef: rheoli asedau sy'n ymwneud â dirwyn swyddfeydd i ben; a thalu grantiau ymaddasu a diswyddiadau ar gyfer Aelodau sy'n gadael a'u staff cymorth. Bu ffocws parhaus hefyd ar gynnal cydbwysedd priodol o archwiliadau ar draws gwasanaethau a chyfarwyddiaethau, megis adolygiadau o'r gwasanaeth Llyfrgell a chydymffurfiaeth â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

Mae adroddiadau archwilio mewnol yn parhau i nodi nifer fach o feysydd lle gellir cyflwyno gwelliannau i'r amgylchedd rheoli, ac yn amlygu meysydd lle mae'r Comisiwn yn defnyddio arferion da o ran y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith. Lle caiff gwendidau neu faterion eu nodi, mae'r rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio.

Mae Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru (fel archwilwyr allanol y Comisiwn) yn parhau i fod â pherthynas waith effeithiol yn unol â phrotocol cydweithio. Mae Archwilio Cymru wedi ystyried y gwaith archwilio mewnol ar dreuliau Aelodau, ynghyd ag archwiliadau yn ymwneud ag Etholiad y Senedd fel y nodwyd uchod, wrth archwilio'r cyfrifon.

Mae Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2021-22 yn dod i'r casgliad y gall y Swyddog Cyfrifyddu gymryd sicrwydd cymedrol[38] bod y trefniadau i sicrhau bod gwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, wedi'i gynllunio a'i gyflawni'n effeithiol. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

[38] Sicrwydd cymedrol - mae angen rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.





Yn ystod y flwyddyn, cynnhaliwyd adolygiadau y tu allan i'r rhaglen archwilio mewnol: mae hyn wedi cynnwys adolygiad o gynllunio corfforaethol. Mae cysylltiadau â sefydliadau seneddol a sefydiladau sector cyhoeddus eraill hefyd wedi'u cynnal i rannu gwybodaeth ac arferion da.

### Meysydd llywodraethu eraill

Lluniodd y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a chyflwynodd hwn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ochr yn ochr â'i Adroddiad Blynyddol a'i Farn ar gyfer 2021-22. Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dwyll na chwythu'r chwiban yn ystod 2021-22.

Mae Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth ar gyfer 2021-22, sy'n cynnwys manylion unrhyw achosion o dorri rheolau data, wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Ni chafwyd unrhyw achosion o golli data personol lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Mae'r Comisiwn yn parhau i ddefnyddio fframweithiau allanol a fframweithiau a safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol i arwain ein gwaith llywodraethu, gwaith rheoli risg, a sicrwydd ynghylch meysydd fel seiberddiogelwch a chynaliadwyedd.

Mae'r Comisiwn yn monitro cydymffurfiaeth ffurfiol yn erbyn rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol, a chyhoeddir adroddiadau arnynt ar wefan y Comisiwn. Enghreifftiau o hyn yw'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, Adroddiad Blynyddol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol, ac Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

### Sicrwydd annibynnol

Mae Cynghorwyr Annibynnol anweithredol y Comisiwn yn rhoi cefnogaeth a her adeiladol i'r Comisiwn a'i waith. Ar wahân i'w rolau pwysig ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu maent wedi helpu yn y gwobrau cydnabod staff ac wedi herio uwch reolwyr fel rhan o broses y Datganiad Sicrwydd.

Fel rhan o'i rôl yn adolygu gweithgarwch archwilio, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn asesu annibyniaeth archwilwyr mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor yn cael sicrwydd ar hyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys drwy ei Adroddiad Blynyddol a Barn, a gan Archwilio Cymru drwy'r Strategaeth Archwilio Flynyddol sy'n cynnwys adran ar annibyniaeth.

Hefyd, mae sesiwn breifat flynyddol gydag Archwilio Cymru wedi'i gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor, sy'n rhoi cyfle pellach i drafod y broses archwilio allanol. Mae hyn yn ogystal â thrafodaethau am y broses yn ystod y cyfarfodydd ffurfiol. At hynny, mae cyfleoedd i gynrychiolwyr o Archwilio Cymru a Chyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn gael ôl-drafodaeth â'r Pwyllgor ar ôl y sesiwn gwersi a ddysgwyd flynyddol a gynhelir rhwng y tîm Cyllid a'r tîm archwilio allanol.

Mae canlyniadau'r gweithgareddau cydnabyddiaeth allanol annibynnol hefyd yn bwysig i'r Comisiwn ac maent yn adlewyrchu'r diwylliant a'r amgylchedd cynhwysol y mae staff y Comisiwn yn gweithio ynddo. Mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys o dan Amrywiaeth a Chynhwysiant yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 93).

## Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol

Ni wnaeth y pandemig effeithio ar y broses ar gyfer casglu ac adolygu sicrwydd ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu. Fodd bynnag, gwnaethom addasu'r templedi a'r canllawiau fel y gellid cyfeirio at effaith y pandemig ar bob maes a adolygwyd.

Yn ganolog i'r adolygiad hwn oedd proses hunan-adolygu a herio a gynhaliwyd o fewn ac ar draws Cyfarwyddiaethau. Dilynwyd hyn gan gyfarfod a oedd yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr, a'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd ym mis Mawrth 2022 i adolygu'r datganiadau sicrwydd gan Gyfarwyddwyr a wnaeth ystyried mapiau sicrwydd manwl a datganiadau gan bob Pennaeth Gwasanaeth. Daeth y Cadeirydd ac un aelod arall o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r cyfarfod i ddarparu her a chraffu annibynnol.

Roedd yr adolygiad yn ymdrin â sicrwydd ynghylch:

- ymwybyddiaeth o egwyddorion, rheolau a gweithdrefnau llywodraethu, a chydymffurfio â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu;
- rheoli risgiau;
- y cynnydd o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd; a
- meysydd i ganolbwyntio arnynt neu eu cryfhau.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y broses ar gyfer casglu ac adrodd ar sicrwydd yn parhau i fod yn effeithiol ac yn dangos aeddfedrwydd. Roedd hefyd yn





cydnabod bod y Comisiwn wedi cynnal trefniadau llywodraethu cyson a chryf drwy gydol y flwyddyn er gwaethaf yr heriau ac effaith barhaus y pandemig.

## Meysydd ffocws a datblygu ar gyfer 2022-23

Y flwyddyn nesaf byddwn yn bwrw ymlaen â rhaglen waith strwythuredig tuag at gyflawni ein gweledigaeth o ddod yn Senedd fwy hyblyg, ymatebol a chynaliadwy, a fydd yn gallu ymateb yn well i'r gofynion a osodir arni, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o gynigion ar gyfer diwygio'r Senedd.

Bydd y meysydd ffocws a datblygu penodol ar gyfer 2022-23 yn cynnwys:

- ymateb i newidiadau cyfansoddiadol yn y DU a chynigion ar gyfer diwygio'r Senedd;
- cwblhau a gweithredu'r strategaeth a rhaglen waith "Ffyrdd o Weithio", gyda chynaliadwyedd, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'r dechrau; a
- chwblhau a chyhoeddi Cynllun Cyflawni Corfforaethol newydd.


## Datganiad i gloi

Mae wedi bod yn flwyddyn arall o gyflawniadau sylweddol, fel y dangoswyd yn ein Hadroddiad Blynyddol. Mae'r datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein hamcanion wrth weithio tuag at ein nodau strategol wedi bod yn effeithiol.

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol wedi bod yn arbennig o bwysig yn ystod y flwyddyn, wrth i ni barhau i wynebu heriau parhaus pandemig COVID-19 a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Rwy'n fodlon bod unrhyw wendidau a nodwyd drwy ein prosesau sicrwydd wedi cael sylw, neu yn y broses o gael sylw. Rwy'n hyderus ein bod, yn ystod y flwyddyn, wedi cynnal safonau llywodraethu uchel a bod ein rheolaethau, systemau a phrosesau mewnol yn ein fframwaith llywodraethu yn gweithredu'n effeithiol.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 30 Mehefin 2022**







# Staff a thaliadau

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi gwybodaeth ariannol a sylwebaeth am ddeiliaid swyddi yn y Comisiwn, staff ac eraill a delir gan y Comisiwn.

## Y Polisi Taliadau

Y Bwrdd Taliadau Annibynnol (y Bwrdd), a sefydlwyd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (y Mesur), sy’n gyfrifol am bennu cyflogau a lwfansau'r Aelodau. Penodwyd Dr Elizabeth Haywood yn Gadeirydd y Bwrdd ym mis Medi 2020, a hynny am dymor o bum mlynedd.

Mae’r Cadeirydd yn cael £400 y diwrnod. Mae pedwar aelod arall y Bwrdd (y Fonesig Jane Roberts, Michael Redhouse, Hugh Widdis a Syr David Hanson[39]) yn gymwys i gael cyfradd diwrnod o £310[40].

Fel bwrdd annibynnol, mae’n cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ei hun, ac mae’r trefniadau ar gyfer hyn wedi’u nodi yn y Mesur.

Y cyflog sylfaenol a bennwyd i’r Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 oedd £67,649 (£67,649 yn 2020-21). Caiff cyflogau’r Aelodau eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol ag ASHE (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion), ar yr amod nad yw'r addasiad yn is na 0 y cant ac nad yw’n uwch na 3 y cant. Fodd bynnag, mewn ymateb i amgylchiadau eithriadol pandemig Covid-19, cytunodd y Bwrdd ar Benderfyniad eithriadol ym mis Mawrth 2021 i ddatgymhwyso’r addasiad blynyddol hwn i gyflogau’r Aelodau ar gyfer 2021-22.  Felly £67,649 oed cyflogau’r Aelodau ar gyfer 2021-22, fel yr oedd ar gyfer 2020-21.  Fe wnaeth Penderfyniad y Bwrdd ar gyfer 2022-23, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, bennu cyflog sylfaenol yr Aelodau ar gyfer 2022-23 fel £67,920. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd wedi’i fynegeio gan ASHE o 0.4 y cant, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2022.

[39] Gwasanaethodd Ronnie Alexander ar y Bwrdd ac ymddiswyddodd ym mis Mehefin 2021. Penodwyd Syr David Hanson i Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ym mis Awst 2021.

[40] Nid yw Hugh Widdis yn hawlio cyfradd ddyddiol am ei waith ar y Bwrdd.

Roedd gan y swyddi canlynol hawl i gael cyflogau ychwanegol fel a ganlyn:

| Swydd | O 1 Ebrill 2021 | O 1 Ebrill 2020 |
|---|---|---|
| Y Llywydd | £43,338 | £43,338 |
| Y Dirprwy Lywydd | £22,197 | £22,197 |
| Comisiynwyr y Senedd: | £13,741 | £13,741 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (uwch)[41] | £13,741 | £13,741 |
| Cadeirydd Pwyllgor (is)[42] | - | £9,154 |
| Aelodau'r Pwyllgor Busnes | £9,154 | £9,154 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

O 1 Ebrill 2021, cafodd arweinydd grŵp gwleidyddol nad oedd ganddo swyddogaeth weithredol lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £13,741 (2020-21, £13,741) a £1,057 (2020-21, £1,057) yn ychwanegol am bob aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £38,052 (2020-21, £38,052).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau. Mae'r Aelodau o'r Senedd yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd y cyhoeddir cyfrifon blynyddol ar wahân ar ei gyfer drwy wefan y Senedd[43].

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er hwylustod gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am y datgeliad.

[41] Y pwyllgorau oedd Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; Cyllid; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Llywodraeth Leol a Thai; Deisebau; Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; Safonau Ymddygiad.

[42] Nid yw cadeiryddion pedwar pwyllgor yn cael tâl ariannol am gadeirio'r pwyllgorau hynny gan eu bod yn cael cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol eraill, a chaiff Aelodau hawlio un cyflog deiliad swydd ychwanegol yn unig. Maent yn cynnwys y Pwyllgor Busnes, y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, Pwyllgor y Llywydd a'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.

[43] www.senedd.cymru



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

## Deiliaid swyddi yn y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd: sef: y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar arall o Aelodau o'r Senedd a benodir gan y Senedd. Rhestrir y Comisiynwyr a wasanaethodd yn ystod 2020–21 ar dudalennau 14 - 17.

Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr. Ni all eu pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr gael eu gwahanu o'r cyfansymiau a gronnwyd.

Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd[44] yn dâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac ni chodir hwy ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn.

***Tabl 1: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw a theitl | Cyflog | | Buddion Pensiwn[45 46] | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
| Elin Jones AS – Y Llywydd | 110-115 | 110-115 | 16 | 30 | 125-130 | 140-145 |
| Ann Jones AS - Y Dirprwy Lywydd – hyd at 28 Ebrill 2021 | 5-10 | 85-90 | 1 | 32 | 5-10 | 120-125 |
| David Rees AS – Y Dirprwy Lywydd – o 12 Mai 2021 | 75-80 | - | 15 | - | 90-95 | - |

[44] https://senedd.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-presiding-officer/Pages/abt_us-deputy-presiding-officer.aspx

[45] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgîl trosglwyddo hawliau pensiwn. (Dangosir y buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf).

[46] Efallai y bydd rhai Aelodau'n gorfod talu taliadau treth Lwfans Blynyddol o ganlyniad i gronni pensiwn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

*Tabl 2: Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd - buddion pensiwn*

| Enw a theitl | Gwir gynnydd mewn pensiwn | Cyfanswm y pensiwn cronedig | CETV ar 31 Mawrth 2022 | CETV ar 31 Mawrth 2021 | Gwir gynnydd mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Elin Jones AS – Y Llywydd | 0-2.5 | 45-50 | 884 | 824 | 3 |
| Ann Jones AS – Y Dirprwy Lywydd – hyd at 28 Ebrill 2021 | 0-2.5 | 40-45 | 771 | 768 | 1 |
| David Rees AS – Y Dirprwy Lywydd – o 12 Mai 2021 | 0-2.5 | 20-25 | 422 | 390 | 13 |

Mae Tabl 1 a Thabl 2 yn destun archwiliad

Clerc y Senedd (a benodir o dan adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'i Brif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a Chlerc, gyda rhai eithriadau. Mae ei staff yn cael eu penodi o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sicrhau bod y Senedd yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arni i ymgymryd â'i rhwymedigaethau. Mae hyn yn sicrhau y gall y Senedd a'i phwyllgorau gynnull. Mae hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Senedd yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

## Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau Pwyllgorau

Mae Comisiwn y Senedd yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau y caiff Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Senedd eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith. Rhestrir y Cynghorwyr Annibynnol a wasanaethodd yn ystod 2021-22 ar dudalennau 18 - 19.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

## Uwch staff y Comisiwn

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fuddion o dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Dangosir uwch staff y Comisiwn yn y tabl isod. Cytunwyd ar y swyddi cyfarwyddwyr hyn yn unol ag Offeryn Dirprwyo'r Comisiwn. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae'r uwch-reolwyr y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

| Enw | Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Manon Antoniazzi | Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Roedd Manon Antoniazzi yn bresennol mewn chwech o chwe chyfarfod y Comisiwn, pedwar o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dau o ddau gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. |
| Siwan Davies | Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Roedd Siwan Davies yn bresennol mewn chwech o chwe chyfarfod y Comisiwn, pedwar o bum cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac un o ddau gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. |
| Dave Tosh | Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd<br>Roedd Dave Tosh yn bresennol mewn pump o chwe chyfarfod y Comisiwn, tri o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac un o ddau gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. |
| Arwyn Jones | Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>Roedd Arwyn Jones yn bresennol mewn chwech o chwe chyfarfod y Comisiwn, pedwar o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac un o ddau gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a Gweithlu. |

| Enw | Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Ed Williams | Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd<br>Roedd Ed Williams yn bresennol mewn dau o chwe chyfarfod y Comisiwn ac un o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |

Heblaw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, nid yw'r cyfarwyddwyr yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn a'i Bwyllgorau. Mae'r cyfarwyddwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol nhw.

***Tabl 3: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw | Cyflog (£'000) | | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[47] | | Cyfanswm (£'000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 |
| **Manon Antoniazzi** | 160-165 | 145-150 | 62 | 57 | 220-225 | 200-205 |
| **Siwan Davies** | 105-110 | 95-100 | 43 | 38 | 150-155 | 130-135 |
| **Dave Tosh** hyd at 31 Ionawr 2022 | 95-100 | 110-115 | 25 | 48 | 120-125 | 160-165 |
| **Arwyn Jones** | 95-100 | 85-90 | 38 | 35 | 130-135 | 125-130 |
| **Ed Williams** o 24 Ionawr 2022 | 15-20 | - | 7 | - | 20-25 | - |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros, tâl goramser a lwfansau recriwtio a chadw.

Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd na'r Cyfarwyddwyr yn cael taliadau bonws na buddion mewn nwyddau.

[47] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgîl trosglwyddo hawliau pensiwn.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn Ed Williams ar gyfer 2021-22 oedd £93,903. Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn Dave Tosh ar gyfer 2021-22 oedd £116,552.

Mae swydd y Prif Gynghorydd Cyfreithiol wedi aros yn wag ers 31 Mai 2019. Darparwyd cyngor cyfreithiol i'r Comisiwn ers y dyddiad hwnnw gan Huw Williams ar secondiad i ddechrau drwy Geldards LLP ac o 1 Awst 2019 ar sail ymgynghoriaeth. Y gost yn 2021-22 oedd £104,000 (£120,000 yn 2020-21).

## Cyflogau staff y Comisiwn

Cyflogau (neu dâl) yw cydnabyddiaeth flynyddol gyfwerth ag amser llawn yr holl staff (gan gynnwys staff dros dro) fel ar 31 Mawrth 2022. Nid yw tâl yn cynnwys Yswiriant Gwladol y Cyflogwr, cyfraniadau pensiwn, taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau na thâl neu fonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn daladwy yn 2021-22 nac yn 2020-21.

| Gwybodaeth am dâl | 2021-22 £ | 2020-21 £ |
|---|---|---|
| Pwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf | 162,500 | 147,500 |
| Newid canrannol ym mhwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf o'r flwyddyn ariannol flaenorol | 10.17% | 7.27% |
| Newid canrannol yng nghyflog cyfartalog gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf) o'r flwyddyn ariannol flaenorol | 3.97% | 3.39% |
| Tâl gweithiwr sydd â chyflog ar y 25ain canradd cyflog yr holl weithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol | 27,271 | 25,459 |
| Tâl gweithiwr sydd â chyflog ar y 50fed canradd cyflog yr holl weithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol | 39,360 | 38,362 |
| Tâl gweithiwr sydd â chyflog ar y 75fed canradd cyflog yr holl weithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol | 49,793 | 48,531 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Datgelir y berthynas rhwng pwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 a thâl gweithiwr ar y 25ain, 50fed a 75fed canradd o holl staff y Comisiwn yn y tabl a ganlyn.

| Gwybodaeth Cymhareb Tâl | Cymhareb cyflog y 25ain canradd | Cymhareb cyflog canolrifol | Cymhareb cyflog y 75ain canradd |
|---|---:|---:|---:|
| 2021-22 | 5.96:1 | 4.13:1 | 3.26:1 |
| 2020-21 | 5.79:1 | 3.84:1 | 3.04:1 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae'r tair cymhareb cyflog wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol, a hynny gan 2.94, 7.55 a 7.24 y cant yn y drefn honno. Mae hyn oherwydd y bu cynnydd o oddeutu deg y cant ym mhwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf, a hynny o ganlyniad i gyflog y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn symud i fyny un pwynt cyflog i'r pwynt uchaf.

Yn 2021-22 a 2020-21, ni roddwyd unrhyw daliadau a oedd yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd y taliadau yn amrywio o £20,000, a oedd yn sicrhau bod gweithwyr yn cael Cyflog Byw, i £162,000 (£18,000 i £146,000 yn 2020-21).





## Pensiynau

***Tabl 4: Uwch-reolwyr – buddion pensiwn***

| Gwir gynnydd mewn pensiwn[48] £'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig[49] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2022[50] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2021 £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---:|---:|---:|---:|---:|
| ***Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd:*** *Manon Antoniazzi* | | | | |
| 2.5-5.0 | 25-30 | 372 | 313 | 38 |
| ***Cyfarwyddwr Busnes y Senedd:*** *Siwan Davies* | | | | |
| 2.5-5.0 | 5-10 | 87 | 55 | 22 |
| ***Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu:*** *Arwyn Jones* | | | | |
| 0-2.5 | 5-10 | 50 | 29 | 13 |
| ***Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd****: Ed Williams o 24 Ionawr 2022* | | | | |
| 0-2.5 | 0-5 | 5 | - | 4 |
| ***Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd:*** *Dave Tosh - hyd at 31 Ionawr 2022* | | | | |
| 0-2.5 | 50-55 | 818 | 765 | 16 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn i staff y Senedd drwy drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, fel rhan o ddiwygiadau llywodraeth i bensiynau gwasanaeth cyhoeddus, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision

[48] Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn.

[49] Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn, a chyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2022 ar gyfer deiliaid swyddi cyfredol, ac ar y dyddiad y gwnaethant roi'r gorau i ddal swydd ar gyfer deiliaid swyddi blaenorol.

[50] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

sifil – sef y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa ar gyfartaledd gydag oedran pensiwn arferol sy'n gyfartal ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 oed os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi a mwyafrif y rhai a oedd eisoes yn gweithio yn y gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil: tair adran sy’n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (sef y cynlluniau classic, premium, classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un adran sy’n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau’r buddion eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy’n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu’n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. O dan drefniadau diogelwch trosiannol, arhosodd aelodau presennol y PCSPS, a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Fe wnaeth y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o’u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 31 Mawrth 2022.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'diogelwch trosiannol' a gynigiwyd i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a'r diffoddwyr tân wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'diogelwch trosiannol' yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, fod angen dileu’r darpariaethau a oedd yn arwain at wahaniaeth o ran triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau a oedd wedi cyflawni’r cyfnod perthnasol o wasanaeth. O ganlyniad, mae camau’n cael eu cymryd i unioni’r diwygiadau hynny yn 2015, gan wneud y cynllun yn deg i’r holl aelodau yr effeithir arnynt.

Felly, maes o law, gallai aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i wahanol fuddion pensiwn mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gall hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Mae buddion PCSPS yn cael eu “bancio” ar gyfer pob aelod sy'n newid i alpha, a chaiff y rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd





ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu yn alpha - fel sy'n briodol. Pan mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun.)

Gall aelodau sy’n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai’r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad penodol (‘prynu arian’) gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.6 y cant ac 8.05 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddion yn y cynllun classic yn crynhoi ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy’n gyfwerth â thair blynedd cyntaf o bensiwn pan fydd rhywun yn ymddeol. Mae buddion yn y cynllun premium yn crynhoi ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i gynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, cyfuniad yw'r cynllun classic plus, gyda’r buddion sy’n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo’n fras fel y gwneir yn y cynllun classic a’r buddion am wasanaeth o 1 Hydref 2002 ymlaen wedi’u cyfrifo fel y gwneir yn y cynllun premium. Gyda chynllun nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae’n aelod o’r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), telir 2.3 y cant o gyflog pensiynadwy’r aelod yn ystod blwyddyn y cynllun i’w gyfrif pensiwn a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae buddion cynllun alpha yn cronni mewn ffordd debyg i gynllun nuvos, heblaw bod y gyfradd gronni yn 2.32 y cant. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004.

Mae’r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy’n rhan o’r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8 y cant a 14.75 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes yn rhaid i’r gweithiwr gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3 y cant o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5 y cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth yn y swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw’r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o’r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os

yw'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 oed ar gyfer aelodau cynlluniau classic, premium a classic plus, 65 oed ar gyfer aelodau cynllun nuvos, a naill ai 65 oed, neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, pa un bynnag sydd uchaf, ar gyfer aelodau o alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer uwch staff yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu alpha – fel sy'n briodol. Pan mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gallai cyfran o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy wrth gyrraedd oedrannau gwahanol).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

## Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd ei fod wedi prynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hunan. Cyfrifir CETV yn unol â *Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008* ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

## Niferoedd y staff

Niferoedd y staff yn ôl categori

Mae'r holl uwch-reolwyr a'r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn. Roedd nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr) fel a ganlyn:

***Tabl 5: Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn***

| Categori | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Staff a gyflogwyd | 443.09 | 441.55 |
| Staff ar secondiad | 1.79 | 2.08 |
| Staff dros dro/achlysurol | 12.74 | 17.62 |
| **Cyfanswm** | **457.62** | **461.25** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y Comisiwn yn cyflogi 460 o staff cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2021: 461).

***Tabl 6: Penodiadau oddi ar y gyflogres***

| **Penodiadau oddi ar y gyflogres am fwy na £245 y dydd a mwy na chwe mis fel ar** | **31 Mawrth 2022**<br>**Nifer** |
|---|---|
| Nifer y penodiadau presennol | 0 |
| **Penodiadau newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd yn ystod y flwyddyn ariannol ac sydd am fwy na £245 y dydd** | **2021-22**<br>**Nifer** |
| Nifer y penodiadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd | 3 |
| *O ran y penodiadau hynny:* | |
| Y rhai nad yw'r ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres yn gymwys iddynt | 3 |

Ni chafodd unrhyw aelodau o'r bwrdd nac uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol eu penodi oddi ar y gyflogres rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 (2020-21 – dim).



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

***Tabl 7: Cyfansoddiad staff yn ôl rhyw a band cyflog****

| Categori | 31 Mawrth 2022 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menywod | Dynion | Anneuaidd | Hunaniaeth rhywedd arall | Cyfanswm |
| Cyfarwydd wyr | 2 | 2 | 0 | 0 | **4** |
| Staff | 244 | 232 | 0 | 0 | **476** |
| **Cyfanswm** | **246** | **234** | **0** | **0** | **480** |

| Categori | 31 Mawrth 2021 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menywod | Dynion | Anneuaidd | Hunaniaeth rhywedd arall | Cyfanswm |
| Cyfarwydd wyr | 2 | 2 | 0 | 0 | **4** |
| Staff | 245 | 235 | 0 | 0 | **480** |
| **Cyfanswm** | **247** | **237** | **0** | **0** | **484** |

*Yn y tablau uchod, rhoddir nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir. Fodd bynnag, ar gyfer y dadansoddiad o rywedd rhoddir y niferoedd gwirioneddol.

Nid yw cynghorwyr annibynnol wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyfwerth ag amser llawn na'r dadansoddiad rhywedd uchod.

## Data absenoldeb salwch

Mae'r Comisiwn yn cadw ffocws strategol ar reoli absenoldeb ac mae'n cefnogi absenoldebau drwy ymrwymiad sefydliadol i lesiant, ynghyd â chefnogaeth rheolwyr llinell effeithiol a chyngor a chanllawiau proffesiynol gan yr adran Adnoddau Dynol ac Iechyd Galwedigaethol. Mae llesiant wedi bod yn ganolog i ymateb y Comisiwn yn ystod y pandemig, gan ategu penderfyniadau strategol, hyd at gymorth a gweithgareddau ymarferol yn ystod y flwyddyn heriol hon. Cynyddodd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch am y flwyddyn i 3.03 y cant (2020-2021 - 2.07 y cant). Mae absenoldeb sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant bellach yn cyfrif am golli 1,453 o ddiwrnodau (cynnydd o 75 y cant o 2020-

21 – 833 o ddiwrnodau). Fel canran o’r holl absenoldebau, mae wedi cynyddu i 47.7 y cant (o 39.7 y cant yn 2020-21).

Rydym wedi parhau i gymryd agwedd bwyllog at gadw pob aelod staff sy’n gweithio ar yr ystâd yn ddiogel, gan addasu i ddeddfwriaeth y Llywodraeth a negeseuon iechyd y cyhoedd, yn ogystal â helpu i gynnal ein gwaith mewn modd mwy hygyrch. Fe wnaethom ni annog holl ddefnyddwyr yr adeilad i ddilyn y canllawiau mwyaf diweddar ar ddefnyddio’r ystâd yn ddiogel, a oedd hefyd yn cynnwys argymhelliad bod holl ddefnyddwyr yr adeilad yn cymryd prawf llif unffordd cyn dod i’r ystâd. Caiff profion llif unffordd eu darparu drwy ofyn i'r tîm iechyd, diogelwch a lles neu drwy eu casglu o’r safle. Mae gweithdrefn olrhain a phrofi fewnol y Senedd yn parhau i gynorthwyo gyda pharhad busnes, yn ogystal â system archebu desg a chadw rhyw fath o bellter corfforol ar draws yr ystâd.

Mae'r timau Adnoddau Dynol, Ystadau a TGCh wedi parhau i weithio'n agos i sicrhau bod gan staff sy'n gweithio o bell offer sgrin arddangos (DSE) priodol, gan gynnwys unrhyw addasiadau rhesymol a gofynion ergonomig. Mae’r Senedd wedi caffael system DSE ar-lein i’w chyflwyno ym mis Mai, a fydd yn parhau i gefnogi’r rhai sy’n gweithio o bell neu ar yr ystâd.

Mae gwybodaeth reolaidd am lesiant yn cael ei darparu i’r holl staff ynghylch ymdrin â’r pryderon sy’n gysylltiedig â Covid-19 a ffyrdd o weithio, gydag asesiadau risg unigol yn ganolog i ddychwelyd i’r ystâd. Mae rhwydwaith MINDFUL y Senedd wedi parhau i gynnal sesiynau rhithwir galw heibio, gan greu lle i bawb gael sgwrs gyffredinol a chyngor yn ôl yr angen.

Yn ystod y pandemig, gwnaed newidiadau i’n polisïau pobl i gefnogi staff â chyfrifoldebau gofalu y gallai’r pandemig fod wedi effeithio arnynt. Mae hyn yn parhau i fod ar waith am y tro.

Mae Arolygon Parhad Busnes a Pwls Llesiant wedi cael eu cynnal yn rheolaidd ac wedi caniatáu inni fonitro lles ein staff, tra hefyd yn llywio blaenoriaethu a'n gwytnwch o ran parhad busnes.





## Data trosiant staff

Mae trosiant wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf i 7.21 y cant (6.07% yn 2020-21). Yn dilyn isafbwynt o 5.63 y cant ym mis Mehefin 2021, cynyddodd trosiant yn raddol i 8.07 y cant ym mis Rhagfyr 2021 cyn dechrau gostwng eto. Mae hyn yn debygol o fod yn sgil llacio cyfyngiadau yn dilyn y pandemig. Y trosiant eleni yw 7.21 y cant, i lawr o gyfartaledd o 9.42 y cant yn seiliedig ar gyfraddau trosiant y pedair blynedd ariannol diwethaf.

## Dangosyddion ymgysylltu â staff

Cyflawnwyd arolwg staff blynyddol 2021 drwy arbenigwr arolwg annibynnol am yr ail flwyddyn yn olynol, gan gynnwys disodli’r sgôr ymgysylltu â’r sgôr hapusrwydd yn y gweithle - fframwaith sy’n mesur y canlynol: ymgysylltiad cyflogeion, hapusrwydd a llesiant, gwobrwyo a chydnabyddiaeth, rhannu gwybodaeth, grymuso, meithrin balchder a boddhad yn y swydd. Mae’r sgôr hapusrwydd yn y gweithle eleni yn parhau i fod yn gadarnhaol (75.5 y cant), er yn ostyngiad bach o’i gymharu â sgôr 2020 (77.2 y cant), ac mae’n parhau i gymharu’n ffafriol â sgôr cymharydd y sector cyhoeddus (70 y cant). Mae'r sgôr ymgysylltu eleni hefyd yn parhau'n gadarnhaol (73 y cant), gan gymharu'n ffafriol â meincnod blynyddol sgôr canolrif ymgysylltu y Gwasanaeth Sifil (68 y cant) ar gyfer yr un cyfnod.

## Anabledd

Mae gennym gamau ar waith i gefnogi gweithwyr sy'n nodi bod ganddynt anabledd. Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Mae ein Polisi Recriwtio yn cyfeirio at ein safbwynt o warantu cyfweliad i ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion sylfaenol y rôl, ac mae hyn hefyd yn berthnasol yn fewnol i weithwyr sydd am gael dyrchafiad. Gwahoddir ymgeiswyr i drafod gyda'r Tîm Recriwtio unrhyw ofynion unigol o ran hygyrchedd ar gyfer pob agwedd ar y broses recriwtio. Gwneir addasiadau rhesymol lle bo angen.

Gwneir addasiadau rhesymol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn dilyn trafodaethau rhwng gweithwyr a rheolwyr ar gyfer dechreuwyr newydd, gweithwyr mewn swydd neu sy’n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn anaf neu ddatblygiad salwch a allai gael effaith ar eu gallu i wneud eu gwaith. Gallai hyn gynnwys addasiadau i batrymau gwaith a/neu offer wedi'i addasu a thechnoleg gynorthwyol, ac ystyried gweithio hybrid, o bell neu ar y safle.. Bydd gweithwyr anabl yn cael Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) pan fyddant fel arfer wedi'u lleoli ar ein hystâd. Mae gan ein hystâd systemau dolen glyw mewn sawl lleoliad ac arwyddion hygyrch. Cynhelir archwiliadau hygyrchedd rheolaidd

ar ein hystâd. Rydym wedi derbyn cydnabyddiaeth allanol gan bartneriaid fel Action on Hearing Loss ac rydym yn sefydliad sy'n Ystyriol o Awtistiaeth.

Mae EMBRACE, ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle ar gyfer anabledd, yn darparu cefnogaeth gan gymheiriaid, mae gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn creu polisi ac yn cyfrannu at ddatblygu polisi drwy ddarparu mewnwelediad a her. Mae gennym hefyd Uwch Hyrwyddwr anabledd sy'n gweithio'n agos gyda'n rhwydwaith ac yn eirioli dros gydraddoldeb i bobl anabl ar lefel uwch o ran gwneud penderfyniadau.

## Perthynas â'r undebau llafur

Mae Fforwm Partneriaeth y Senedd yn gorff sy'n cynnwys rheolwyr a chynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur. Yn ogystal â'n cyfarfod partneriaeth strategol a chyfarfod partneriaeth gweithredol i sicrhau bod cyfle i drafod ehangder y materion ar draws y Comisiwn, drwy gydol y pandemig, cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol anffurfiol i hwyluso gweithio mewn partneriaeth ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â Covid. Mae gan bob un o'r tair Undeb swyddogol (PCS, FDA a Prospect) eu cynrychiolwyr eu hunain ond mae'r tair yn gweithio gyda'i gilydd yn rheolaidd i gynrychioli holl aelodau'r Undebau.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Un o flaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer tymor y Senedd hon yw y gall 'Pob Aelod, aelod o staff ac ymwelydd weithio mewn amgylchedd diogel lle mae urddas ac amrywiaeth yn cael eu parchu.' Mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod yn hygyrch i bobl Cymru a thu hwnt: gan sicrhau y gall pobl ryngweithio â'r Senedd a chyfrannu at ei gwaith mewn modd sy'n berthnasol, yn hawdd ac yn ystyrlon.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn gyflogwr cynhwysol, gan alluogi ein holl staff i wireddu eu llawn botensial. Un o'n blaenoriaethau hirsefydlog yw sicrhau bod ein gweithlu yn cynrychioli'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu ac rydym yn gweithio i fynd i'r afael â thangynrychioli pobl o leiafrifoedd ethnig yn ein gweithlu, yn enwedig ar lefel gwneud penderfyniadau uwch. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys: ehangu ein ffynhonnell dalent, gwella ein brand fel cyflogwr a gweithio gyda phartneriaid fel Busnes yn y Gymuned i ymgysylltu'n agosach fel cyflogwr posibl o ddewis gyda chymunedau lleol. Eleni, rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid chwilio gweithredol i amrywio'r ffynhonnell dalent ar gyfer uwch swyddi a swyddi penodiadau cyhoeddus/penodiadau'r Goron. Rydym hefyd wedi dylunio a lansio YMLAEN, ein rhaglen interniaeth newydd i raddedigion o leiafrifoedd ethnig.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 30 Mehefin 2022**

# Atebolrwydd ac archwilio

## Datganiad o gyflenwad y Senedd a nodiadau ategol

### a) Crynodeb o Alldro Adnoddau 2021-22

| | | Cyllideb | Alldro | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Cyfanswm | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant) | Alldro |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd | Nodyn SOS 01 | 41,695 | 40,954 | 741 | 41,574 |
| Costau sy'n gysylltiedig ag etholiad | Nodyn SOS 01 | 2,100 | 1,905 | 195 | 471 |
| Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau | Nodyn SOS 01 | 15,619 | 15,450 | 169 | 15,595 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | Nodyn SOS 01 | 1,800 | 1,660 | 140 | 1,992 |
| | | **61,214** | **59,969** | **1,245** | **59,632** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a'r alldro yn y Datganiad o Gyflenwad y Senedd (SOS 01) ac yn yr Adroddiad ar Berfformiad.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

### b) Gofyniad arian parod net 2021-22

| | | Cyllideb | Alldro | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant) | Alldro |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gofyniad arian parod net | Nodyn SOS 03 | 57,463 | 56,091 | 1,372 | 54,648 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae SOS 03 i'w weld yn yr Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra, tudalen 202.

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau

## (Datganiad o gyflenwad y Senedd)

***SOS 01. Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2021-22***

| Gwariant Refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 25,367 | 26,325 | 958 | 26,325 | 958 | 24,833 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 15,007 | 15,090 | 83 | 15,090 | 83 | 16,373 |
| **Gwariant refeniw gros** | **40,374** | **41,415** | **1,041** | **41,415** | **1,041** | **41,206** |
| Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso | (61) | (220) | (159) | (220) | (159) | (50) |
| **Gwariant refeniw net** | **40,313** | **41,195** | **882** | **41,195** | **882** | **41,156** |
| Gwariant cyfalaf* | 641 | 500 | (141) | 500 | (141) | 418 |
| **Alldro adnoddau net (gwariant y Comisiwn)** | **40,954** | **41,695** | **741** | **41,695** | **741** | **41,574** |





***SOS 01. Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2021-22 (parhad)***

| Gwariant Refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau a lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig | 15,450 | 16,819 | 1,369 | 15,619 | 169 | 15,595 |
| Costau cysylltiedig â'r etholiad - refeniw | 1,399 | 2,600 | 1,201 | 2,100 | 701 | 352 |
| Costau cysylltiedig â'r etholiad – cyfalaf* | 506 | - | (506) | - | (506) | 119 |
| **Alldro adnoddau** | **58,309** | **61,114** | **2,805** | **59,414** | **1,105** | **57,640** |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | 1,660 | 1,800 | 140 | 1,800 | 140 | 1,992 |
| **Cyfanswm alldro adnoddau net** | **59,969** | **62,914** | **2,945** | **61,214** | **1,245** | **59,632** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

* Cyfanswm y gwariant cyfalaf yw £1,147,000 (£537,000 yn 2020-21)

## Alldro adnoddau net - Sylwebaeth reoli

Yr alldro adnoddau ar wariant y Comisiwn, cyn costau'r etholiad, Cyflogau a Lwfansau yr Aelodau a chostau cyllid pensiwn, ar gyfer 2021-22 oedd £41.0 miliwn yn erbyn cyllideb o £41.7 miliwn sy'n arwain at danwariant cyffredinol o £0.7 miliwn (1.7 y cant) sy'n syrthio y tu allan i ystod darged y Comisiwn o 0.0 y cant i 1.5 y cant o'r gyllideb.

Ailagorodd yr ystâd o ganol mis Mai, ond mae lefelau presenoldeb yn parhau i fod yn isel o gymharu â lefelau cyn y pandemig. Mae gwasanaethau'n cael eu darparu mewn amgylcheddau rhithwir a hybrid, yn ogystal ag ar y safle. O ran cyflogau staff a chostau cysylltiedig, roedd tanwariant yn erbyn y gyllideb o tua pedwar y cant, a defnyddiwyd y tanwariant hwn i gefnogi'r gronfa prosiectau. Cynyddodd y tanwariant o ganlyniad i ostyngiad yn y swm y mae angen ei ddarparu yn y cyfrifon ar gyfer gwyliau blynyddol a gronnwyd gan staff y Comisiwn ond na chawsant eu cymryd.

Blaenoriaethwyd adnoddau ar gyfer diogelwch a seilwaith TGCh, sef gwelliannau pellach i'r dechnoleg sydd ei hangen i gefnogi gweithio hybrid a rhithwir, gan gynnwys ar gyfer Pwyllgorau'r Senedd. Roedd y meysydd arfaethedig eraill ar gyfer buddsoddi yn 2021-22 yn cynnwys gwaith seilwaith a diogelwch yn Nhŷ Hywel ac yn y Pierhead, ac uwchraddio ac ehangu offer TGCh, yn enwedig systemau clyweledol a darlledu.

Cynhaliwyd etholiadau ar gyfer y Chweched Senedd ym mis Mai 2021. Y gyllideb a osodwyd ar gyfer costau cysylltiedig â'r etholiad oedd £2.6 miliwn ond gostyngwyd hyn i £2.1 miliwn drwy Gyllideb Atodol. Yr alldro oedd £1.9 miliwn, gan roi tanwariant o £0.2 miliwn. Y gwariant mwyaf oedd hawliadau adsefydlu ASau a dileu swyddi staff cymorth Aelodau o'r Senedd a gollodd eu seddi, sef cyfanswm o £1.1 miliwn. Cafodd y symiau a dalwyd fel hawliadau adsefydlu eu cyfrifo yn y ffordd sydd wedi'i phennu yn y Penderfyniad a gyhoeddir gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol. Tua £0.5 miliwn oedd y gost o ddarparu offer TGCh i'r Aelodau ar gyfer tymor newydd y Senedd.

Y gyllideb a osodwyd ar gyfer Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau oedd £16.8 miliwn, ond gostyngwyd hyn i £15.6 miliwn drwy Gyllideb Atodol. Yr alldro oedd £15.5 miliwn, gan roi tanwariant o ychydig dros un y cant. Am yr ail flwyddyn yn olynol, cynyddodd arbedion oherwydd effaith y pandemig, yn enwedig costau is ar gyfer teithio gan yr Aelodau a'u gwaith ymgysylltu. Nid yw'r arbedion hyn ar gael i'r Comisiwn ar gyfer gwariant gweithredol.





Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd yn y dyfodol. Gosodwyd y gyllideb o £1.8 miliwn ar gyfer 2021-22 ym mis Tachwedd 2019, ar sail data a oedd ar gael ar y pryd. Y costau gwirioneddol oedd £1.66 miliwn.

***SOS 02. Cysoni alldro â gwariant gweithredu net.***

| | Nodyn | 2021-22 £000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | SOS 01 | 59,969 | 59,632 |
| Gwariant cyfalaf | 4 | (1,147) | (537) |
| Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | | 760 | 775 |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 05 | - | - |
| **Gwariant gweithredu net** | | **59,582** | **59,870** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae'r taliadau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef £759,690 (£775,092 yn 2020-21) yn deillio o gostau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; ac o gostau cyflogau a threuliau'r Comisiynydd Safonau, y Comisiynydd Safonau Dros Dro a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff y cyflogau a'r treuliau hyn eu talu gan y Comisiwn ond, gan eu bod yn daliadau uniongyrchol o'r Gronfa, ni chânt eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net.

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn am y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn y Senedd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad o Gyflenwad, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiedir yn y DU fel y'u dehonglwyd a'u mabwysiadwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiwn y Senedd ar 31 Mawrth 2022, a'r gofyniad arian parod net, yr alldro adnoddau net, a'r costau gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiedir yn y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

### Y sail ar gyfer fy marnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol rwyf wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi canfod unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'r meysydd hynny yn yr adroddiad taliadau sy'n destun archwiliad a'm hadroddiad archwilio arnynt. Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gomisiwn y Senedd yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd yn y cyswllt hwn.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod yn cyfateb i

gamddatganiad perthnasol. Os byddaf yn dod o hyd i anghysondebau sylweddol o'r fath neu os ymddengys bod camddatganiadau o bwys, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon yn gamddatganiad perthnasol, mae'n ofynnol imi gofnodi hynny.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn am faterion eraill

Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gomisiwn y Senedd yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol wedi'i pharatoi yn unol â chanllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol am Adroddiad Taliadau, mae Comisiwn y Senedd wedi paratoi adroddiad o'r fath, ac yn fy marn i mae'r rhan y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

### Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y materion isod, y mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- os nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw neu os nad oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi dod i law gan ganghennau na wnaeth fy nhîm ymweld â nhw;
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a archwiliwyd yn gytûn â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu;
- os nad yw gwybodaeth a nodir yn benodol gan Drysorlys EM am daliadau a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu; neu





- os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan y Ddeddf hon, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Prif Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n berthnasol i fusnes gweithredol fel y bo'n briodol, a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai yr ystyrir ei fod yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd fo'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os byddai'n rhesymol disgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Byddaf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Ymholi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Comisiwn y Senedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiwn y Senedd sy'n ymwneud â:

- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;

- dod o hyd i risgiau'n ymwneud â thwyll ac ymateb iddynt, a ph'un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a

- rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau.

- Trafod, fel tîm archwilio, sut a ble y gallai fod gwybodaeth dwyllodrus - yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd a ganlyn: postio cofnodion anarferol a rheolwyr yn diystyru rheolaethau;

- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiwn y Senedd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Comisiwn y Senedd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiwn y Senedd.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu a oeddent yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;

- ymholi rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;

- darllen cofnodion cyfarfodydd Comisiwn y Senedd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd Gweithredol; a



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

- mynd i'r afael â'r risg o dwyll a all godi os yw rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfrifon ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth gyflwyno amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu'n syrthio y tu allan i gwmpas busnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu deddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiwn y Senedd, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Ann-Marie Harkin**
Ar Gyfer ac Ar Ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad: 30 Mehefin 2022

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Senedd Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Senedd Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

# Datganiadau ariannol

**Y Senedd wedi'i goleuo yn lliwiau baner genedlaethol Wcráin, sef glas a melyn, i ddangos cefnogaeth Cymru i bobl Wcráin.**

24 Chwefror 2022



## Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022***

| Incwm o weithrediadau | Nodyn: | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | SOS 05 | 61 | 50 |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **61** | **50** |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 2a | 33,086 | 32,316 |
| Costau eraill yr Aelodau | 2b | 9,688 | 9,358 |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | 2a a 9 | 1,660 | 1,992 |
| Taliadau dibrisiant ac amhariad | 3 | 2,099 | 2,239 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 13,110 | 14,015 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **59,643** | **59,920** |
| **Gwariant gweithredu net** | SOS 02 | **59,582** | **59,870** |
| **Gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth** | SOS 02 | **59,582** | **59,870** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | |
| Enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 2a a 9 | (2,856) | (1,182) |
| Enillion net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (7,746) | 0 |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **48,980** | **58,688** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion sylweddol heblaw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 174 i 201 yn rhan o'r cyfrifon hyn



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

***Ar 31 Mawrth 2022***

| Asedau anghyfredol: | Nodyn | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 68,149 | 61,357 |
| Asedau anniriaethol | 5 | - | - |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **68,149** | **61,357** |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Stocrestrau | | 15 | 10 |
| Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | 2,097 | 1,900 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 7 | 1,171 | 412 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **3,283** | **2,322** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **71,432** | **63,679** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (6,081) | (5,003) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(6,081)** | **(5,003)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **65,351** | **58,676** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | |
| Darpariaethau | 9 | (19,216) | (20,412) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(19,216)** | **(20,412)** |
| **Cyfanswm asedau namyn y cyfanswm rhwymedigaethau** | | **46,135** | **38,264** |
| **Ecwiti Trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 37,173 | 38,244 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | 9 | (19,045) | (20,241) |
| Y gronfa ailbrisio wrth gefn | | 28,007 | 20,261 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **46,135** | **38,264** |

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 30 Mehefin 2022**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 174 i 201 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad Llif Arian Parod

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022***

| | Nodyn: | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| Llif arian parod o weithgareddau gweithredu | | | |
| Gwariant gweithredu net | SOS 02 | (59,582) | (59,870) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod: | | | |
| Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad | 3, 4 ac 5 | 2,099 | 2,239 |
| Colled wrth waredu asedau | 3, 4 ac 5 | 2 | |
| Cynnydd mewn stocrestrau | | (5) | 0 |
| Cynnydd mewn symiau masnachol a symiau derbyniadwy eraill | 6 | (197) | (22) |
| Cynnydd mewn symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | 1,078 | 1,127 |
| Gostyngiad mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | SOS 03 | (759) | (352) |
| Costau cyllid pensiynau | 9 | 1,660 | 1,992 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(55,704)** | **(54,886)** |
| Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (1,147) | (537) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,147)** | **(537)** |
| Llif arian parod o weithgareddau cyllido | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (cyflenwad) | | 57,262 | 55,060 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | SOS 02 | 760 | 775 |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 03 | (412) | (60) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **57,610** | **55,775** |
| Cynnydd net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | SOS 03 | 759 | 352 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 7 | 412 | 60 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **7** | **1,171** | **412** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 174 i 201 yn rhan o'r cyfrifon hyn





## Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022***

| | Nodyn: | Y gronfa gyffredinol £'000 | Y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn £'000 | Y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn £'000 | Ecwiti Trethdalwyr £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | 40,699 | 20,261 | (19,431) | 41,529 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SOS 02 | (59,870) | - | 1,182 | (58,688) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 9 | 1,992 | - | (1,992) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 56,075 | - | - | 56,075 |
| Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (1,015) | - | - | (1,015) |
| Taliadau uniongyrchol | SOS 02 | 775 | - | - | 775 |
| Swm yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad | | (412) | - | - | (412) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | 38,244 | 20,261 | (20,241) | 38,264 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SOS 02 | (59,582) | 7,746 | 2,856 | (48,980) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 9 | 1,660 | - | (1,660) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 57,463 | - | - | 57,463 |
| Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (201) | - | - | (201) |
| Taliadau uniongyrchol | SOS 02 | 760 | - | - | 760 |
| Swm yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad | | (1,171) | | | (1,171) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **37,173** | **28,007** | **(19,045)** | **46,135** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 174 i 201 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon

## 01. Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail croniadol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2021-22 a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Senedd Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn baratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

### Adolygiad o safonau newydd

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd ac a ddaeth i rym yn 2021-22 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn.

Roedd y safonau a'r dehongliadau / diwygiadau a ganlyn, nad ydynt wedi'u cymhwyso yn y datganiadau ariannol hyn, yn yr arfaeth nid ydynt wedi dod i rym eto:

- IFRS 16 Prydlesau a Covid-19;
- Contractau Beichus—Cost Cyflawni Contract (Diwygiadau i IAS 37)
- Eiddo, Offer a Chyfarpar Enillion cyn y Defnydd a Fwriadwyd (Diwygiadau i IAS 16)
- Cyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i IFRS 3)
- Diwygiadau i IFRS 17 Contractau Yswiriant
- Dosbarthiad Rhwymedigaethau fel rhai Cyfredol neu Anghyfredol (Diwygiadau i IAS 1)





- Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 8)
- Datgelu Polisïau Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 1 a Datganiad Ymarfer IFRS 2)
- Treth Ohiriedig yn ymwneud ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n deillio o Un Trafodiad (Diwygiadau i IFRS 1 ac IAS 2)
- Cymhwysiad Cychwynnol IFRS 17 ac IFRS 9-Gwybodaeth Gymharol (Diwygiadau i IFRS 17 ac IFRS 9)
- Dosbarthiad Rhwymedigaethau fel rhai Cyfredol neu Anghyfredol—Gohirio Dyddiad Dod i Rym (Diwygiadau i IAS 1)

Nid yw'r Comisiwn yn disgwyl y byddai mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau yn cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol mewn cyfnodau yn y dyfodol, heblaw am IFRS 16.

**IFRS 16 - Prydlesau**

Mae IFRS 16 - Prydlesau yn darparu model cyfrifyddu prydlesau sengl, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid prydlesau gydnabod asedau ar brydles a rhwymedigaethau sy'n cynrychioli'r hawl i ddefnyddio'r eitem ar brydles a'r taliadau priodol am y brydles yn y dyfodol.

Caiff y gost rhent o ran prydlesau gweithredu a gydnabuwyd o'r blaen yn y datganiad incwm ei disodli gan dâl dibrisiant a thâl cyllid. Bydd hyn yn berthnasol i bob prydles berthnasol oni bai bod cyfnod y brydles yn llai na 12 mis neu os oes gwerth isel i'r ased sylfaenol. Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu lefel de-minimis o £5,000.

Mae IFRS 16 yn rhoi diffiniad mwy cyfyng o brydles nag IAS 17 ac IFRIC 4 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i asedau a rhwymedigaethau gael eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth gostyngedig isafswm taliadau'r brydles, a bod yr asedau, sydd i'w disgrifio fel asedau hawl i ddefnyddio, yn cael eu cyflwyno o dan eiddo, peiriannau ac offer. Felly, bydd gweithredu IFRS 16 yn cynyddu gwerth asedau eiddo, peiriannau ac offer a gwerth rhwymedigaethau prydles. Mae'r Comisiwn wedi dewis peidio â chymhwyso IFRS 16 i asedau anniriaethol.

**Effaith ar gyfrifon 22-23**

Ar gyfer prydlesau a lofnodwyd fel ar 31 Mawrth 2022 (dyddiad y cais cychwynnol), yr adroddir arnynt ar hyn o bryd o dan Nodyn 10, byddai effaith mabwysiadu'r

safon newydd yn cynyddu'r ased eiddo, peiriannau ac offer oddeutu £114 miliwn a bydd gwerth rhwymedigaethau'r brydles hefyd yn cynyddu oddeutu £114 miliwn.

Codir Costau Dibrisiant a Chostau Cyllid ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE), sy'n disodli taliadau rhent. Codir taliadau rhent ar rwymedigaeth y brydles yn y dyfodol.

Bydd mabwysiadu IFRS 16 yn arwain at ostyngiad o tua £2.8 miliwn yn yr all-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu, wedi'i wrthbwyso gan gynnydd cyfatebol o ran all-lif arian parod net o weithgareddau cyllido. Fodd bynnag, ni fydd dim effaith o ran llif arian cyffredinol yn deillio o fabwysiadu'r safon newydd.

**Confensiwn cyfrifyddu**

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried ailbrisio asedau sefydlog yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

**Eiddo, offer a chyfarpar**

Caiff asedau eu cyfalafu pan ystyrir bod gwariant ar offer a/neu brosiectau yn bodloni'r profion cydnabyddiaeth a nodir yn Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 16 ar Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio, ond cedwir hwy ar werth teg, gan na fyddai'r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

**Amhariad asedau**

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na'r symiau y gellid eu hadennill. Os yw'r symiau hyn yn llai na swm cario ymlaen yr asedau, fe'i nodir yn golled amhariad yn y Datganiad Gwariant Net.

**Asedau sy'n cael eu hadeiladu**

Caiff gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r ased, fe'i trosglwyddir i'r categori priodol a chaiff ei chynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.





**Asedau anniriaethol**

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased.

**Asedau a gafwyd yn rhodd**

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu yn ôl eu gwerth cyfredol wrth eu derbyn, ac fel rheol cânt eu hailbrisio yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Mae gwerth asedau a gafwyd yn rhodd yn cael ei gredydu â gwerth y rhodd gwreiddiol ac ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â phenderfyniad Trysorlys Ei Mawrhydi o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

**Dibrisiant**

Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael.

Isod, rhestrir oes arferol asedau:

| Ased | Oes ased |
|---|---|
| Tir ac Adeiladau | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS) |
| Offer sefydlog: | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio. |
| Gosodiadau a ffitiadau: | Pump i ddeng mlynedd |
| Offer TGCh, cyfarpar clyweledol a darlledu | Tair i chwe blynedd |
| Seilwaith TGCh: | 10 mlynedd |
| Asedau anniriaethol (meddalwedd): | Pum mlynedd |
| Cerbydau modur: | Pedair blynedd |
| Asedau a gafwyd yn rhodd: | I'w hasesu ar ôl eu cael |

### Yr elfen ddibrisiant a wireddir o'r gronfa ailbrisio wrth gefn

Bydd gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio yn destun dibrisiant. Gall elfen o'r dibrisiant ddod i law felly oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm sy'n ymwneud â gormodedd o'r fath yn elw a wireddir ar y prisiad, ac mae i'w drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol, pan gaiff yr ased ei werthu.

### Cydrannau Asedau

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes unrhyw ran o'r asedau sydd ag oes ddefnyddiol sylweddol wahanol. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rhannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol. Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau.

Mae asedau TGCh wedi'u "grwpio" yn TGCh; offer clyweled a darlledu; Seilwaith TGCh, ac asedau anniriaethol. Bydd y gwahanol rannau yn cael eu dibrisio dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol briodol.

### Datganiad gwariant cynhwysfawr

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

Mae'r Comisiwn yn ad-dalu Aelodau mewn cysylltiad â threuliau neu gostau a godir ym mhob blwyddyn ariannol yn unol â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau amrywiol ar dreuliau neu gostau a nodir yn y Penderfyniad.

### Stocrestrau

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu yn siop y Comisiwn, yn ôl y gost neu'r gwerth realeiddiadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

### Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw.





### Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol gyda Gwasanaeth Bancio y Llywodraeth a chyda'r banciau masnachol y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nad oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

### Prydlesau

Asedau ar brydles: Caiff prydlesau tir ac eiddo sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrau a ddaw yn sgîl perchnogaeth eu dosbarthu fel prydlesau cyllid. Caiff yr asedau ar brydles eu mesur i ddechrau ar swm sy'n gyfartal â gwerth isaf eu gwerth teg a gwerth presennol y taliadau prydles isaf. Yn dilyn y gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff yr asedau eu hailbrisio, yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar.

Caiff asedau a ddelir o dan brydlesau eraill eu dosbarthu fel prydlesau gweithredu ac nid ydynt yn cael eu cydnabod yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Taliadau prydles: Caiff rhenti sy'n daladwy o dan les weithredol eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

### Cyflwyno adroddiadau fesul rhan

Mae'r rheolwyr yn fodlon nad oes gan y sefydliad, o dan ofynion IFRS 8, unrhyw ddatgeliad ychwanegol i'w wneud.

### Buddion i weithwyr

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fuddion sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwyliau blynyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff. Mae'r rhwymedigaeth am wyliau blynyddol heb ei gymryd yn seiliedig ar nifer cyfartalog y diwrnodau a gronnwyd fesul aelod o staff wedi'i luosi â chyflog canolrifol y staff.

### Pensiwn

Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill

Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff a secondiwyd i'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun. Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cwblhawyd prisiad y Cynllun fel yr oedd ym mis Mawrth 2016 ar 26 Chwefror 2019. Mae gwaith ar y prisiad actiwaraidd pedair blynedd nesaf, a ddisgwylir ar 31 Mawrth 2020, yn mynd

rhagddo gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Codir symiau sy'n daladwy i'r Cynllun ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan fyddant yn ddyledus.

Ceir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Cyfrifon Blwydd-dal Sifil (**https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/**).

Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (MSPS)

Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau o'r Senedd yn wreiddiol o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998* ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Cynllun buddion diffiniedig yw hwn, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflog unrhyw ddeiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau'r Senedd drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol ei rhoi ar gyfrifon y Cynllun. Byddai unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd diffyg o ran asedau yn cael eu talu drwy cyllid a ddarperir gan y Comisiwn. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19 (IAS 19). Yn unol ag IAS 19, mae gofyn i Ymddiriedolwyr y Cynllun gynnal dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer pob rhagdybiaeth actwaraidd sylweddol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ddangos sut yr effeithir ar rwymedigaeth ddiffiniedig o ran buddiant gan newidiadau yn y rhagdybiaeth actwaraidd berthnasol ar y dyddiad hwnnw.

Mae Cynllun Pensiwn yr Aelodau yn paratoi ei gyfrifon blynyddol ei hun, sydd ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Senedd[51].

## Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion *Deddf Treth ar Werth 1994* a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, a gall y TAW ar nwyddau a gwasanaethau a gyflenwir i'r Senedd fod yn adferadwy.
Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Senedd.

[51]https://senedd.wales/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/mem-pay.aspx





## Darpariaethau

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol mae angen gwneud amrywiaeth o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y modd y cymhwysir polisïau cyfrifyddu a'r symiau a nodir. Mae'r Comisiwn yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y bu'r digwyddiad. Mae pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath yn cael eu hadolygu yn barhaus a chaiff unrhyw ddiwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod pan gaiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnodau yr effeithir arnynt yn y dyfodol. Y meysydd mwyaf arwyddocaol o amcangyfrifon a dyfarniadau allweddol yw:

Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd Mae manylion am y rhagdybiaethau actiwaraidd yn Nodyn 02.A ac yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer y Cynllun Pensiwn.

Dadfeilio. Mae'r Comisiwn o'r farn, yn gyffredinol, nad oes angen gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeilio gan ystyried nad oes llawer o waith cynnal a chadw wedi cronni, ac am fod y flaenraglen waith 10 mlynedd yn cael ei hadolygu a'i chytuno'n flynyddol. Gofynnir am gyngor ynghylch materion penodol a gwneir darpariaeth lle bernir ei bod yn briodol.

## 02. A - Costau sy'n gysylltiedig â'r Aelodau a staff

Mae gwybodaeth am nifer yr Aelodau a staff (a datgeliadau perthnasol eraill) i'w chael yn yr Adran Atebolrwydd - Adroddiad ar Daliadau a Staff.

### Costau sy'n gysylltiedig â'r Aelodau a staff

***Tabl 8: Mae costau staff yn cynnwys***

| Categori | Staff<br>£'000 | Aelodau a deiliaid swyddi<br>£'000 | Cyfanswm 2021-22<br>£'000 | Cyfanswm 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 17,990 | 5,861 | 23,851 | 23,184 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 521 | - | 521 | 565 |
| Staff ar secondiad | 72 | - | 72 | 72 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 2,014 | 672 | 2,686 | 2,575 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 43 | - | 43 | 51 |
| Staff ar secondiad | 5 | - | 5 | 7 |
| **Costau pensiwn eraill** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 4,963 | 1,040 | 6,003 | 5,804 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 88 | - | 88 | 110 |
| Staff ar secondiad | 15 | - | 15 | 17 |
| Is-gyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 25,711 | 7,573 | 33,284 | 32,385 |
| Namyn yr adenillion am y secondiadau allanol | (198) | - | (198) | (69) |
| **Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff** | **25,513** | **7,573** | **33,086** | **32,316** |

Gwnaed un taliad diswyddo i aelod o staff y Comisiwn yn y band £0 - 20,000 (2020-21, un taliad).

Y Comisiwn sy'n talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel yr esbonnir yn yr Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i





Weinidogion Cymru eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2022, roedd 60 Aelod o'r Senedd mewn swydd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 42 o swyddi deiliaid swyddi, gydag 14 ohonynt yn ffurfio'r Cabinet: un Prif Weinidog, wyth Gweinidog, gydag un Gweinidog hefyd yn Gwnsler Cyffredinol, a phum Dirprwy Weinidog, gydag un ohonynt hefyd yn Brif Chwip.

### Trefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Ar gyfer 2021-22, roedd cyfraniadau cyflogwr o £5.018 miliwn (2020-21, £4.846 miliwn) yn daladwy ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6 y cant i 30.3 y cant o'r tâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd y telir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Caiff cyflogeion newydd ers 1 Ebrill 2015 ymuno naill ai â chynllun alpha neu'r â'r cynllun partneriaeth. Cynllun pensiwn buddion diffiniedig cyfartaledd gyrfa yw alpha; cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yw'r cynllun partneriaeth.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd cyfraniadau o £30,924 (2020-21, £24,549) yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu bryd hynny.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**.

### Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

Mae'r Senedd yn darparu cynllun buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*. Mae Adran 20(4) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ac Atodlen 11 i'r Ddeddf honno yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Bwrdd Taliadau'r Senedd yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau o'r Senedd a'u staff. Mae manylion y cyflogau a'r lwfansau wedi'u cynnwys yn nogfen Penderfyniad y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022.

Cyflwynodd y Bwrdd Taliadau fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Bumed Senedd gynllun pensiwn cyfartalog gyrfa newydd (CARE) ar gyfer Aelodau.

Cymeradwywyd y Cynllun gan Drysorlys EM yn unol â *Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013* ac fe ddaeth i rym o 6 Mai 2016.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion ar gyfer Aelodau o'r Senedd a deiliaid swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Senedd, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

O ddechrau'r Chweched Senedd, mae pob Aelod yn y Cynllun CARE. Mae gan y Cynllun gyfradd gronni o 1/50 ac mae'r oedran pensiwn yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Cyfradd cyfraniad yr aelodau yw 10.5 y cant. Cafodd aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 'ddiogelwch trosiannol' ac maent wedi parhau i gael eu buddion wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd ychwanegol tan 6 Mai 2021. Cyfrannodd yr aelodau hyn naill ai 10 y cant neu 6 y cant ar gyfer croniad o 1/40 neu 1/50 yn y drefn honno hyd at 6 Mai 2021.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'diogelwch trosiannol' a gynigiwyd i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a'r diffoddwyr tân wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'diogelwch trosiannol' yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, bod angen dileu'r darpariaethau a oedd yn arwain at wahaniaeth o ran triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau a oedd wedi cyflawni'r cyfnod perthnasol o wasanaeth.

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiynau, cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu rhwymedi i gael gwared ar y gwahaniaethu yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau diogelwch trosiannol sydd ynddynt ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd wedi ymgynghori â'r Aelodau yr effeithir arnynt a Chomisiwn y Senedd ar rwymedi arfaethedig. Bydd yr Aelodau yr effeithir arnynt yn cael y dewis i aros yn y Cynllun CARE neu ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol am gyfnod y rhwymedi, sef 6 Mai 2016 i 6 Mai 2021.

O 7 Mai 2021, mae'r holl Aelodau bellach yn y cynllun CARE.

Cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ar hyn o bryd yw 19.9 y cant. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd olaf y Cynllun ar 31 Mawrth 2020.

Caiff yr Oedran Ymddeol Arferol ei gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oedran ymddeol arferol o 65 oed.





Caiff asedau'r Cynllun eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Senedd, gan Mobius Life Limited, dan ofal pedwar Rheolwr Buddsoddi. Mae buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cyfun a reolir gan Baillie Gifford, BNY Mellon, Partners Group ac LGIM. Buddsoddodd yr Ymddiriedolwyr mewn cronfa Twf Amrywiol ("DGF"), cronfa Enillion Real Cynaliadwy, cronfa Enillion Absoliwt, cronfa Mynegai Ecwiti Moesegol (wedi'i diogelu a heb ei diogelu), cronfa Eiddo a chronfa Mynegai Cysylltiedig â Giltiau. Yng nghyfarfod y Bwrdd Pensiynau ar 16 Mawrth 2021 cytunodd y Bwrdd i ddiogelu hanner buddsoddiad uniongyrchol y Cynllun fel y byddai tua 12.5 y cant o asedau'r Cynllun a ddelir mewn daliadau ecwiti uniongyrchol yn parhau i fod yn agored i arian cyfred tramor drwy'r gronfa arian cyfred heb ei diogelu.

Y prif amcan cyllido yw cynnal cronfa o asedau y disgwylir iddi fod yn ddigonol i ddarparu'r buddion a addawyd i aelodau a'u buddiolwyr. Mae'r amcan hwn yn unol â chyngor Ymddiriedolwyr y Cynllun, gan ystyried cyngor gan yr Actiwari. Y nod yw sicrhau y telir am fuddion cronni yn ystod cyfranogiad aelodau yn y Cynllun a bod y taliadau a delir gan y Senedd ar gyfer cronni buddion yn rhesymol sefydlog dros gyfnod. Ymdrinnir â'r amcanion hyn drwy bennu cyfradd cyfrannu a fynegir fel canran lefel o'r cyflog pensiynadwy o'r enw y Gyfradd Cyfraniad Safonol. Mae'r gyfradd safonol hon yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddion o dan y Cynllun, cyhyd â bod y profiad hwnnw yn unol â'r tybiaethau actiwaraidd a wnaethpwyd. Gan ddibynnu ar faint y gronfa gronedig a phrofiad gwirioneddol y Cynllun fel y'i datgelir gan y prisiadau actiwaraidd bob tair blynedd, efallai y bydd yn rhaid talu cyfraniadau mwy neu daliadau llai am gyfnod i ganiatáu, yn benodol, ar gyfer amorteiddio'r symiau dros ben a diffygion.

Sefydlwyd y Cynllun Pensiwn ym 1999 ac mae'n anaeddfed, gydag incwm cyfraniadau yn dal i fod yn fwy na gwariant rheolaidd ar fuddion. Mae hyd cyfnod cyfartalog rhwymedigaethau'r cynllun, wedi'i bwysoli, oddeutu 20 mlynedd.

***Tabl 9: Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel a ganlyn***

| | Nodyn | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun | | (65,211) | (63,885) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | | 46.166 | 43,644 |
| **Rhwymedigaeth net** | | **(19,045)** | **(20,241)** |
| Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | | |
| Rhwymedigaethau | | (19,045) | (20,241) |
| Asedau | | - | - |
| **Rhwymedigaeth net** | **9** | **(19,045)** | **(20,241)** |

***Tabl 10: Dadansoddiad o'r swm a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr***

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Cost cyfredol y gwasanaeth | 2,200 | 2,488 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,253 | 1,253 |
| Llog ar asedau'r cynllun | (846) | (798) |
| | **2,607** | **2,943** |
| **Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn:** | | |
| Costau pensiwn eraill | 947 | 951 |
| Costau cyllid pensiynau | 1,660 | 1,992 |
| | **2,607** | **2,943** |

***Tabl 11: Dadansoddiad o'r swm a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr (SCITE)***

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 2,233 | 7,144 |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | 229 | 355 |
| Newidiadau mewn tybiaethau | 394 | (6,317) |
| **Enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn SCITE** | **2,856** | **1,182** |





***Tabl 12: Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn***

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill | 63,885 | 54,679 |
| Cost presennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau) | 2,200 | 2,488 |
| Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 500 | 498 |
| Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (2,004) | (995) |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,253 | 1,253 |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd | (623) | 5,962 |
| **Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth** | **65,211** | **63,885** |

***Tabl 13: Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn***

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ar 1 Ebrill | 43,644 | 35,248 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 846 | 798 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 2,233 | 7,144 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 947 | 951 |
| Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 500 | 498 |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (2,004) | (995) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth** | **46,166** | **43,644** |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £989,905 at Gynllun Pensiwn yr Aelodau yn 2022-23.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

***Tabl 14: prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun***

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 54% | 53% |
| Buddsoddiadau amgen | 16% | 15% |
| Eiddo | 7% | 7% |
| Llog sefydlog ac arian parod | 23% | 25% |
| | **100%** | **100%** |

Cynhaliodd y Bwrdd Pensiynau adolygiad o strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn 2020. O ganlyniad i'r adolygiad, buddsoddwyd asedau'r Cynllun mewn amrywiaeth o gronfeydd gwahanol fel a ganlyn:

- Baillie Gifford Diversified Growth
- BNY Mellon Sustainable Real Return
- Legal & General Investment Management ("LGIM") Managed Property
- Partners Group Generations
- LGIM Ethical Global Equity Index (dosbarthiadau cyfranddaliadau wedi'u gwarchod a heb eu gwarchod)
- LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilt
- Arian Parod LGIM (sylwer nad yw hyn yn rhan o ddyraniad asedau strategol y Cynllun ac fe'i defnyddir ar sail ad hoc at ddibenion llif arian parod)

Rhagwelir y bydd y strategaeth hon yn sicrhau lefel o enillion disgwyliedig debyg i strategaeth fuddsoddi flaenorol y Cynllun. Cyfanswm gwerth y farchnad yr Arian a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2022 oedd £46.1 miliwn (31 Mawrth 2021, £43.6 miliwn).

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022, enillodd portffolio buddsoddi'r Cynllun elw o tua 7.5 y cant. Cafodd hyn ei ysgogi gan y cynnydd sylweddol mewn marchnadoedd sy'n ceisio elw (e.e. ecwiti) yn ystod y cyfnod. Y gwir enillion o asedau'r cynllun yn 2021-22 oedd elw o £2.5 miliwn (2020-21, £8.2 miliwn).

Roedd strategaeth fuddsoddi'r Cynllun wedi tanberfformio yn erbyn marchnadoedd ecwiti dros yr un cyfnod, a oedd tua 11.3 y cant yn uwch (yn lleol),





ond a oedd yn perfformio'n well na bondiau hirdymor Llywodraeth y DU (a wnaeth elw o tua 7.2 y cant). Perfformiodd y Cynllun yn waeth na'i gyfradd ddisgownt (Mynegai Prisiau Defnyddwyr a 2.5 y cant), gan sicrhau elw o tua 9.5 y cant. Fodd bynnag, dros gyfnod o dair blynedd, mae'r Cynllun wedi perfformio'n well na'i gyfradd ddisgownt, gan sicrhau elw o 7.7 y cant y flwyddyn o gymharu â'r gyfradd ddisgownt o 5.5 y flwyddyn.

### Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

***Tabl 15: Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa***

| Tybiaethau | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| Cyfradd y gostyngiad | 2.65% | 1.95% |
| Cynnydd mewn enillion yn y dyfodol - yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | -2.00% | -2.20% |
| Cynnydd pensiwn yn y dyfodol - yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | -0.50% | -0.45% |
| Hyd oes ddisgwyliedig yn 65 oed (blynyddoedd): | | |
| Dynion | 23.5 | 23.8 |
| Menywod | 25.1 | 25.2 |
| Gweddwon | 23.9 | 24.0 |

### Sensitifrwydd i'r prif ragdybiaethau

Pe bai cyfradd dybiedig yr elw sy'n uwch na'r enillion yn newid 0.5 y cant y flwyddyn, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd yn newid tua 1.0 y cant, a byddai newid o tua £0.7 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Pe bai cyfradd dybiedig yr elw sy'n uwch na'r enillion yn newid 0.5 y cant, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd yn newid tua 9.5 y cant, a byddai newid o tua £6.2 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Os rhagdybir bod yr hirhoedledd ar ôl ymddeol yn hirch o ddwy flynedd, byddai hyn yn cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd tua 7.7 y cant, a byddai'n cynyddu cyfanswm y rhwymedigaethau tua £5.0 miliwn.

Mae'r symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol fel a ganlyn:

***Tabl 16: Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol***

| | **31 Mawrth 2022 £'000** | **31 Mawrth 2021 £'000** | **31 Mawrth 2020 £'000** | **31 Mawrth 2019 £'000** | **31 Mawrth 2018 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 65,211 | 63,885 | 54,679 | 55,178 | 50,385 |
| Asedau'r cynllun | 46,166 | 43,644 | 35,248 | 37,150 | 35,406 |
| Rhwymedigaeth net | (19,045) | (20,241) | (19,431) | (18,028) | (14,979) |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | 229 | 355 | (635) | (370) | 297 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 2,233 | 7,144 | (3,220) | 388 | 669 |

Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Pensiwn yr Aelodau[52] ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

[52]https://senedd.wales/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/mem-pay.aspx





## 02. B - Costau eraill yr Aelodau

Mae costau eraill yr aelodau, sef £9.688 miliwn (2020-21, £9.358 miliwn), yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys:

| **Categori** | **2021-22 £'000** | **2020-21 £'000** |
|---|---|---|
| Costau Swyddfa | 1,129 | 998 |
| Costau ychwanegol | 240 | 245 |
| Cyfanswm Staff yr Aelodau | 8,209 | 8,082 |
| Costau teithio | 110 | 33 |
| **Cyfanswm costau eraill yr Aelodau** | **9,688** | **9,358** |

Nid yw costau staff yr Aelodau yn cynnwys unrhyw daliadau diswyddo a wnaed yn 2021-22, (pum taliad yn 2020-21, sef cyfanswm o £26,716) ac eithrio'r rhai a wnaed o ganlyniad i etholiad y Senedd ym mis Mai 2021.

Mae gan y Senedd gynllun pensiwn rhanddeiliaid grŵp (cyfraniad diffiniedig) gydag AVIVA y mae'r Comisiwn yn gwneud cyfraniad misol o 10 y cant iddo o'r cyflog gros ar gyfer staff cymorth Aelodau o'r Senedd. Yn ychwanegol, o ddechrau'r Chweched Senedd, pan fydd aelod o staff yn dewis gwneud cyfraniad personol i'w bensiwn, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sy'n cyfateb i'r cyfraniadau personol hynny hyd at uchafswm o dri y cant o'r cyflog gwirioneddol a delir. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gofrestru awtomatig a dyddiad ailgofrestru diwethaf y Cynllun oedd 1 Ionawr 2020, gyda'r un nesaf ar 1 Ionawr 2023. Y cyfraniadau pensiwn cyflogwr a dalwyd yn 2021-22 oedd £703,437 (2020-21, £775,792).

## 02. C – Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd, ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'r Comisiynydd Safonau ('y Comisiynydd') yn eu hysgwyddo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac unrhyw rwymedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu codi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Y Comisiynydd Safonau yw Douglas Bain CBE TD, a benodwyd o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Mae'r penodiad am gyfnod o chwe blynedd. Mae rhagor o wybodaeth am Douglas Bain a'i waith fel y Comisiynydd ar gael yn **http://comisiynyddsafonaucymru.org/**

### Adnoddau cymorth

Caiff swydd y Comisiynydd ei chefnogi gan ddau aelod o staff y Comisiwn sydd ar secondiad i gynorthwyo gyda'r gwaith achos a gaiff ei ystyried, i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid a sicrhau bod y swyddfa'n cael ei rhedeg yn effeithiol. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion yr amser a'r costau a oedd yn gysylltiedig â'r Comisiynydd a chostau cyflogau ei staff cymorth. Yn ogystal, yn ystod 2021-22 gofynnodd y Comisiynydd Dros Dro am gyngor cyfreithiol ar nifer o faterion. Darparwyd y cyngor hwn gan staff y Comisiwn.

### Oriau a chostau staffio

| Natur y gost | 2021-22 | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Costau | Oriau | Costau |
| Oriau'r Comisiynydd | 377 | | - | - |
| Costau cyflogaeth y Comisiynydd | | £31,552 | - | - |
| Oriau Comisiynydd dros dro | - | | 540 | - |
| Costau Comisiynydd dros dro | | - | - | £42,517 |
| **Costau a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru** | | **£31,552** | | **£42,517** |
| Costau cyflogaeth staff cymorth | | £70,874 | - | £89,570 |
| Costau cymorth cyfreithiol a chymorth proffesiynol arall | | £5,137 | - | £16,667 |
| **Costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol ag adnoddau a ddarparwyd gan y Comisiwn** | | **£76,011** | | **£106,237** |





## 03. Costau gweinyddol eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £15.2 miliwn (2020-21, £16.4 miliwn) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Prydlesau - adeiladau | 2,795 | 2,790 |
| Prydlesau - eraill | 56 | 68 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 5,412 | 5,736 |
| Costau TGCh | 3,144 | 3,724 |
| Treuliau gweinyddol | 1,191 | 1,350 |
| Costau cysylltiedig â staff | 512 | 347 |
| **Costau gweinyddol eraill** | **13,110** | **14,015** |
| Dibrisiant, amorteiddiad a thaliadau amhariad | 2,099 | 2,239 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddol eraill** | **15,209** | **16,254** |

Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £59,987 (2020-21, £57,958). Ni chynhaliwyd dim gwaith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2021-22 (2020-21, dim).

### Effaith Covid-19 ar gontractau cyflenwi

Yn yr un modd â llawer o gyrff cyhoeddus eraill, mae Comisiwn y Senedd yn cynnal nifer o gontractau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Ym mis Mawrth 2020, fe wnaeth Swyddfa'r Cabinet gynhyrchu Nodyn Polisi Caffael "Supplier relief due to Covid-19"[53] i roi cyngor ac arweiniad i gyrff cyhoeddus ar dalu eu cyflenwyr er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth yn ystod ac ar ôl Covid-19. Mae dyfyniad o'r nodyn yn darllen: "Contracting authorities should act now to support suppliers at risk so they are better able to cope with the current crisis and to resume normal service delivery and fulfil their contractual obligations when the outbreak is over" ac mae'n mynd ymlaen: "It is vital that contracting authorities pay all suppliers as quickly as possible to maintain cash flow and protect jobs. Contracting authorities should also take action to continue to pay suppliers at risk due to Covid-19 on a continuity and retention basis."

[53]https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/874178/PPN_02_20_Supplier_Relief_due_to_Covid19.pdf

Astudiodd y Comisiwn bob trefniant yn ei dro i nodi goblygiadau'r contract ariannol a gweithiodd gyda'r cyflenwyr dan sylw mewn modd agored a thryloyw. Ym mlwyddyn ariannol 2021-22, talodd y Comisiwn £0.018 miliwn (2020-21, £0.363 miliwn) i gefnogi a sicrhau contractau cyflenwi, ond ni chafodd unrhyw wasanaethau. Mae'r swm hwn wedi'i gynnwys yn y pennawd gwariant 'Costau Swyddfa a Chyfleusterau'.





## 04. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau<br>£'000 | TGCh<br>£'000 | Gosodiadau a ffitiadau [54]<br>£'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu<br>£'000 | Cyfanswm 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | **61,131** | **7,366** | **1,789** | **191** | **70,477** |
| Ychwanegwyd | - | 989 | 84 | 74 | 1,147 |
| Ailddosbarthwyd | - | 147 | - | (147) | - |
| Ailbrisiwyd | 4,380 | - | - | - | 4,380 |
| Gwerthwyd | - | - | (10) | - | (10) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **65,511** | **8,502** | **1,863** | **118** | **75,994** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | **(1,683)** | **(6,508)** | **(929)** | **-** | **(9,120)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,683) | (295) | (121) | - | (2,099) |
| Ailbrisiwyd | 3,366 | - | - | - | 3,366 |
| Gwerthwyd | - | - | 8 | - | 8 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | | **(6,803)** | **(1,042)** | **-** | **(7,845)** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2022** | **65,511** | **1,699** | **821** | **118** | **68,149** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2021** | **59,448** | **858** | **860** | **191** | **61,357** |

Swm cario ymlaen y tir a'r adeiladau a ddelir o dan drefniadau prydles ar 31 Mawrth 2022 yw £4.910 miliwn (31 Mawrth 2021, £4.185 miliwn).

Cynhaliwyd yr ailbrisiad cynhwysfawr diweddaraf o dir ac adeiladau gan DS Gibbon FRICS o Avison Young (UK) Cyf, fel ar 31 Mawrth 2020, yn unol â Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Cafodd y Senedd a'r Pierhead eu hailbrisio ar gost adnewyddu dibrisiedig (DRC) fel procsi ar gyfer y gwerth cyfredol. Roedd dull y prisiwr yn cynnwys cyfrifo cost codi adeiladau cyfwerth modern a dibrisio'r gost i ystyried oedran a bywyd economaidd yr adeiladau yn y dyfodol.

[54] Mae gosodiadau a ffitiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y Byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

Ar gyfer y flwyddyn sydd ohoni, comisiynwyd J Williams o Avison Young (UK) Cyf i ddiweddaru'r adroddiad prisio a luniwyd yn 2020 er mwyn asesu effaith dangosyddion economaidd cyfredol ar werth y tir a'r adeiladau. Tynnodd yr adolygiad hwn sylw at gynnydd sylweddol yn y symiau cario ymlaen ar 31 Mawrth 2022, sydd wedi'i adlewyrchu yn y cyfrifon hyn.

Ni nododd yr adolygiadau amhariad unrhyw arwyddion o amhariad ar 31 Mawrth 2022 ac felly ni nodwyd unrhyw amhariad.

| | Tir ac adeiladau £'000 | TGCh £'000 | Gosodiadau a ffitiadau [55] £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | Cyfanswm 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | **61,131** | **7,166** | **1,519** | **167** | **69,983** |
| Ychwanegwyd | - | 200 | 293 | 44 | 537 |
| Ailddosbarthwyd | - | - | 20 | (20) | - |
| Gwerthwyd | - | - | (43) | - | (43) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **61,131** | **7,366** | **1,789** | **191** | **70,477** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | **-** | **(6,041)** | **(883)** | **-** | **(6,924)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,683) | (467) | (89) | - | (2,239) |
| Gwerthwyd | - | - | 43 | - | 43 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **(1,683)** | **(6,508)** | **(929)** | **-** | **(9,120)** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2021** | **59,448** | **858** | **860** | **191** | **61,357** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2020** | **61,131** | **1,125** | **636** | **167** | **63,059** |

[55] Mae gosodiadau a ffitiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y Byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

## 05. Asedau anniriaethol

Mae'r asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd ar gyfer y prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn:

| | Meddalwedd £'000 | Cyfanswm 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021 ac ar 31 Mawrth 2022** | **884** | **884** |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021 ac ar 31 Mawrth 2022** | **(884)** | **(884)** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2021 a 2022** | | |

| | Meddalwedd £'000 | Cyfanswm 2021 £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020 ac ar 31 Mawrth 2021** | **884** | **884** |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020 ac ar 31 Mawrth 2021** | **(884)** | **(884)** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2020 a 2021** | **-** | **-** |

## 06. Symiau masnachol a symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| Symiau derbyniadwy masnachol | 89 | 44 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 14 | 12 |
| Rhagdaliadau | 1,810 | 1,647 |
| TAW y gellir ei hadennill | 184 | 197 |
| | **2,097** | **1,900** |

Nid oedd dim symiau derbyniadwy yn ddyledus ar ôl rhagor na blwyddyn.

## 07. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 412 | 60 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 759 | 352 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,171** | **412** |
| Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 1,257 | 98 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | (86)[56] | 314 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,171** | **412** |

[56] Y balans a ddaliwyd yn y banc ar 31 Mawrth 2022 oedd credyd o £279,000. Fe wnaeth taliadau a broseswyd ar 31 Mawrth ostwng balans y llyfr arian ar y dyddiad hwnnw i ddangos sefyllfa o orddrafft, ond ni chawsant eu debydu tan 4 Ebrill. Mater o amseru yw hwn.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

## 08. Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| TAW yn daladwy | 14 | 4 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 849 | 838 |
| Symiau masnachol taladwy | 680 | 622 |
| Croniadau | 3,367 | 3,127 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 1,171 | 412 |
| | **6,081** | **5,003** |

Nid oedd dim symiau'n ddyledus gan ddyledwyr ar ôl rhagor na blwyddyn.

## 09. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd £'000 | Darpariaeth Dadfeilio £'000 | 2021-22 Cyfanswm £'000 | 2020-21 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **20,241** | **171** | **20,412** | **19,602** |
| Gostyngiad mewn darpariaeth | (2,856) | - | (2,856) | (1,182) |
| Costau cyllid pensiynau | 1,660 | - | 1,660 | 1,992 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **19,045** | **171** | **19,216** | **20,412** |

O dan IAS 19, cydnabyddir atebolrwydd o £19.045 miliwn ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd. Darperir rhagor o wybodaeth am hyn yn Nodyn 02.A. Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am y darpariaethau dadfeilio yn adran ddarpariaethau Nodyn 01 - Datganiad o bolisïau cyfrifyddu.

O'r cyfanswm o £19.216 miliwn o ddarpariaeth (2020-21, £20.412 miliwn), ni ddisgwylir i unrhyw swm grisialu o fewn blwyddyn (2020-21, £0 miliwn).

## 10. Ymrwymiadau o dan brydlesau

### (a) Prydlesau gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl blwyddyn y cyfrifon hyn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod yr achosir y taliadau.

| Categori | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 2,796 | 2,796 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 11,084 | 11,120 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 13,869 | 16,629 |
| | **27,749** | **30,545** |
| Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 38 | 40 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 85 | 122 |
| | **123** | **162** |

### (b) Prydlesau ariannol

Nid oes dim rhwymedigaethau o dan brydlesau ariannol ar hyn o bryd.

## 11. Ymrwymiadau cyfalaf ac eraill

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2022 nac ar 31 Mawrth 2021.

## 12. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae gan y Comisiwn gontractau eraill sy'n cyfeirio at derfynu'n gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Byddai'r Comisiwn yn mynd yn groes i gontract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, a gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.





## 13. Offerynnau Ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

## 14. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae gan y Comisiwn nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn ogystal, mae trafodion rheolaidd yn digwydd gyda Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (gweler yr adroddiad Taliadau a staff, tudalen 137). Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau o'r Senedd.

Gall y Senedd roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Senedd, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau.

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau annibynnol gan Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010. Y Bwrdd Taliadau sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau a deiliaid swyddi'r Senedd. Gall Aelodau gyflogi aelodau o'r teulu fel eu staff cymorth. Fodd bynnag, caniateir hyn yn unig pan na fydd yr Aelod o'r Senedd yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol deg ac agored, a gaiff ei chynnal gan staff y Comisiwn ar eu rhan.

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisïau ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes cyfyngiadau ar gyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu'r uwch-reolwyr i weithio i'r Comisiwn.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn **www.senedd.cymru** a **www.senedd.wales**.

# Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra

## Adrodd ar Reoleidd-dra

Caiff cyllideb Comisiwn y Senedd ei hawdurdodi gan y Senedd drwy gynigion cyllideb ffurfiol. Mae'r cynigion hyn yn awdurdodi gwariant cyfalaf a refeniw y Comisiwn, yn ogystal ag incwm y caniateir ei gadw a'r swm y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Paratowyd y Datganiad a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2021-22 y Llywodraeth (FReM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Senedd Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

### SOS 3 Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r cynnydd mewn arian parod

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | (56,091) | (54,648) |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | 57,463 | 56,075 |
| Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru sydd heb eu defnyddio | (201) | (1,015) |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | (412) | (60) |
| Cynnydd mewn arian parod | 759 | 352 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2021-22

### SOS 04 Cysoni Canlyniad Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net 2021-22

| | Nodyn: | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/ (gorwariant) £'000 | Alldro 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | SOS 01 | 61,214 | 59,969 | 1,245 | 59,632 |
| Addasiadau croniadol | | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | Gweler isod | (4,050) | (3,761) | (289) | (4,231) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | 299 | (117) | 416 | (753) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **57,463** | **56,091** | **1,372** | **54,648** |

| *Eitemau nad ydynt yn arian parod* | Nodyn: | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2021-22 £'000 | Alldro 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant ac amorteiddiad a dadgydnabod | 4 a 5 | (2,250) | (2,101) | (149) | (2,239) |
| Cost cyllid pensiynau a newidiadau eraill mewn darpariaeth | 9 | (1,800) | (1,660) | (140) | (1,992) |
| | | **(4,050)** | **(3,761)** | **(289)** | **(4,231)** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

### SOS 05 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | Cyllideb 2021-22 £'000 | Alldro 2021-22 £'000 | Alldro 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | 220 | 61 | 50 |
| Is-gyfanswm | 220 | 61 | 50 |
| Swm a gadwyd | 220 | 61 | 50 |
| **Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | - | - | - |

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2021-22 (dim yn 2020-21).

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad